

Unedau

Yn y ddogfen hon ceir cynnwys unedau Tystysgrif a Thystysgrif Estynedig Pearson BTEC Cyntaf Lefel 1/Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, wedi'i gyfieithu i'r Gymraeg i gefnogi addysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Beth sydd ar gael i bob uned yn Gymraeg?

Yn achos pob uned, fe gewch yr wybodaeth angenrheidiol i addysgu'r cymhwyster BTEC hwn trwy gyfrwng y Gymraeg:

- cyflwyniad
- nodau dysgu
- meini prawf asesu
- arweiniad i athrawon.

Ble galla i gael hyd i weddill y fanyleb?

I gael gwybodaeth ac arweiniad ar y cymhwyster cyfan, gan gynnwys:

- strwythur a rhesymeg y cymhwyster a'r unedau
- cyflwyno'r rhaglen a recriwtio iddi
- asesu mewnol ac allanol
- sicrhau ansawdd
- graddio ac ardystio

bydd angen i chi gyfeirio at y fanyleb Saesneg, sydd ar gael ar y wefan ochr yn ochr â'r ddogfen hon (www.btec.co.uk/firsts).

Gweler hefyd www.btec.co.uk/keydocuments am y rheolau asesu diweddaraf.

Pa gefnogaeth sydd ar gael?

Os bydd angen rhagor o gefnogaeth arnoch chi, mae croeso i chi gysylltu â'n timau gwasanaethau addysgu. Cewch hyd i'r holl fanylion cyswllt angenrheidiol yn www.edexcel.com/contactus.

Uned 1: Datblygiad Rychwant Oes Dynol

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Craidd**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Allanol**

Cyflwyniad

Sut mae pobl yn tyfu ac yn datblygu ar hyd eu bywydau? Sut gall ffactorau fel dewisiadau ffordd o fyw, perthnasoedd a digwyddiadau bywyd effeithio ar eich twf a'ch datblygiad?

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i chi archwilio sut rydym ni'n tyfu ac yn datblygu ar hyd ein bywydau, ac i ymchwilio i'r ffactorau sy'n effeithio ar y twf a'r datblygiad yma. Byddwch yn mynd ymlaen i ystyried y berthynas rhwng y ffactorau hynny.

Mae pedair agwedd wahanol ar dwf a datblygiad dynol, a'r enwau a roddir arnynt fel arfer yw datblygiad corfforol, deallusol, emosïynol a chymdeithasol. Mae perthynas agos rhwng y pedair agwedd a'i gilydd, a gall newid mewn un effeithio ar rai, neu'r cyfan, o'r meysydd eraill.

Mae digwyddiadau bywyd yn cael effaith ar sut rydym ni'n tyfu ac yn datblygu. Mae pobl yn profi llawer o wahanol fathau o ddigwyddiadau bywyd; rhai ohonynt yn ddisgwyliedig ac eraill yn annisgwyl. Mae gallu rheoli a delio gyda'r digwyddiadau hyn yn sgil pwysig mewn galwedigaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Yn yr uned hon byddwch yn archwilio effaith y digwyddiadau bywyd hyn a'r mathau o gefnogaeth sydd ar gael i helpu pobl i'w rheoli. Mae deall a chydabod effaith y digwyddiadau bywyd arwyddocaol hyn yn rhan bwysig o nifer o rolau yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn yr uned hon, byddwch yn dod i ddeall datblygiad rychwant oes, sy'n hanfodol wrth weithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan y byddwch yn gallu gwerthfawrogi anghenion gofal unigolion yng ngwahanol gyfnodau eu bywyd. Mae'r ddealltwriaeth hon yn ofynnol ar gyfer ystod eang o rolau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys nyrsio, gwaith cymdeithasol, therapi galwedigaethol, ffisiotherapi a deietegwyr.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

A archwilio twf a datblygiad dynol ar draws cyfnodau bywyd

B ymchwilio i ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad dynol, a'r berthynas rhyngddynt.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
<p>Nod dysgu A: Archwilio twf a datblygiad dynol ar draws cyfnodau bywyd</p> <p>Testun A.1 Y gwahanol gyfnodau bywyd y mae pobl yn mynd trwyddynt yn ystod cwrs bywyd</p> <ul style="list-style-type: none"> • babandod (0–2 oed) • plentyndod cynnar (3–8 oed) • llencyndod (9–18 oed) • oedolaeth gynnar (19–45 oed) • oedolaeth ganol (46–65 oed) • oedolaeth hwyr (65+) <p>Testun A.2 Agweddau allweddol ar dwf a datblygiad dynol ym mhob cyfnod bywyd</p> <p>Datblygiad corfforol – twf corfforol a newid ffisiolegol ar draws cyfnodau bywyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • babandod a plentyndod cynnar – datblygiad sgiliau echddygol bras a sgiliau echddygol manwl <ul style="list-style-type: none"> ○ diffiniad, enghreifftiau cyffredin o bob un a gweithgareddau sy'n hyrwyddo'u datblygiad, y gwahaniaethau rhwng sgiliau echddygol manwl a bras • llencyndod – y prif newidiadau corfforol adeg glasoed <ul style="list-style-type: none"> ○ aeddfedrwydd rhywiol, twf sydyn, nodweddion rhywiol cynradd ac eilaidd • oedolaeth gynnar – aeddfedrwydd corfforol • oedolaeth ganol – diwedd y mislif (disgrifiad a'r prif effeithiau), y broses o heneiddio (colli gwallt, gwallt yn troi'n llwyd, colli tyndra cyhyrol) • oedolaeth hwyr – y broses o heneiddio <ul style="list-style-type: none"> ○ colli gwallt, gwallt yn troi'n llwyd, colli tyndra cyhyrol, colli cryfder, colli symudedd, colli sgiliau echddygol manwl, colli synhwyrâu. <p>Datblygiad deallusol/gwybyddol ar draws cyfnodau bywyd – datblygu sgiliau meddwl ac iaith a'r gweithgareddau cyffredin sy'n eu hybu:</p> <ul style="list-style-type: none"> • dysgu cyflym yn y blynyddoedd cynnar (iaith, datblygiad moesol) • dysgu a datblygu sgiliau newydd, gan gynnwys meddwl haniaethol a chreadigol, datrys problemau • cofio ac adalw, effeithiau henaint ar y cof. <p>Datblygiad emosiynol ar draws cyfnodau bywyd – datblygu teimladau am yr hunan ac eraill:</p> <ul style="list-style-type: none"> • creu cwlwm ac ymlyniad • sicrwydd • hunan-ddelwedd (diffiniad, rhesymau cyffredin am hunan-ddelwedd gadarnhaol a negyddol) • hunan-barch (diffiniad, rhesymau cyffredin am hunan-barch cadarnhaol a negyddol) • bodlonrwydd. <p>Datblygiad cymdeithasol ar draws cyfnodau bywyd – creu perthnasoedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfeillgarwch a grwpiau cyfeillgarwch • creu perthynas ag eraill • annibyniaeth (gweithgareddau a digwyddiadau sy'n hybu annibyniaeth, gan gynnwys cyflawni tasgau a gweithgareddau drosoch eich hun, cychwyn ar gyflogaeth, dysgu gyrru).

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Ymchwilio i ffactorau sy'n effeithio ar dwf a datblygiad dynol a'r berthynas rhyngddynt****Testun B.1 Ffactorau corfforol sy'n effeithio ar dwf a datblygiad dynol**

Sut gall y ffactorau corfforol canlynol effeithio ar dwf a datblygiad dynol:

- etifeddiaeth genetig (nodweddion a etifeddwyd, anabledau)
- dewisiadau ffordd o fyw (deiet, ymarfer corff, alcohol, smygu, cyffuriau)
- salwch ac afiechyd (effeithiau cyffredinol ar dwf a datblygiad).

Testun B.2 Ffactorau cymdeithasol, diwylliannol ac emosiynol sy'n effeithio ar dwf a datblygiad dynol

Sut gall y ffactorau cymdeithasol, diwylliannol ac emosiynol canlynol effeithio ar dwf a datblygiad dynol:

- dylanwad chwarae (chwarae ynysig/chwarae cymdeithasol)
- diwylliant (effeithiau crefydd ac elfennau ysbrydol, dylanwadau cymunedol)
- rhywedd (anghydraddoldeb cyfleoedd cyflogaeth a chyflog, anghydraddoldeb cymdeithasol, disgwyliadau)
- dylanwad modelau rôl
- dylanwad ynysu cymdeithasol.

Testun B.3 Ffactorau economaidd sy'n effeithio ar dwf a datblygiad dynol

Sut gall y ffactorau economaidd canlynol effeithio ar dwf a datblygiad dynol:

- incwm/cyfoeth (effeithiau lefel incwm)
- galwedigaeth (math, statws, sicrwydd incwm)
- cyflogaeth/diweithdra/peidio â bod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (yr effaith ar incwm, a'r effeithiau cymdeithasol ac emosiynol).

Testun B.4 Ffactorau amgylchedd ffisegol sy'n effeithio ar dwf a datblygiad dynol

Sut mae'r ffactorau amgylchedd ffisegol canlynol effeithio ar dwf a datblygiad dynol:

- cyflwr tai (effeithiau amodau byw gwael)
- llygredd (effeithiau ar iechyd).

Testun B.5 Ffactorau seicolegol sy'n effeithio ar dwf a datblygiad dynol

Sut gall y ffactorau seicolegol canlynol effeithio ar dwf a datblygiad dynol:

- perthynas ag aelodau'r teulu, gan gynnwys derbyniad diamod
- tyfu i fyny mewn gofal
- patrymau cyfeillgarwch a pherthynas â phartner(iaid) (effeithiau ar ddatblygiad emosiynol a chymdeithasol)
- straen (effeithiau ar ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol yr unigolyn sydd o dan straen).

Testun B.6 Y digwyddiadau bywyd disgwylidig sy'n gallu effeithio ar dwf a datblygiad dynol ac effeithiau cadarnhaol a negyddol y digwyddiadau hynny ar dwf a datblygiad:

- cychwyn ym myd addysg, derbyn addysg a gadael byd addysg

parhad

Beth sydd angen ei ddysgu

- symud tŷ/lleoliad
- cychwyn ar gyflogaeth a bod mewn cyflogaeth
- byw gyda phartner/priodas/seremoni sifil
- bod yn rhiant
- ymddeol.

Testun B.7 Y digwyddiadau bywyd annisgwyl sy'n gallu effeithio ar dwf a datblygiad dynol ac effeithiau'r digwyddiadau hynny ar dwf a datblygiad personol a thwf a datblygiad pobl eraill:

- marwolaeth partner, perthynas neu ffrind
- damweiniau ac anafiadau, salwch
- eithrio, rhoi'r gorau i fyd addysg
- carchariad
- dyrchafiad/colli swydd/diweithdra.

Testun B.8 Deall sut mae rheoli'r newidiadau sy'n cael eu hachosi gan ddigwyddiadau bywyd:

- mathau o gefnogaeth (ffurfiol, anffurfiol, emosiynol, corfforol)
- y gefnogaeth a gynigir gan bobl (teulu, ffrindiau, partneriaid, gofawyr proffesiynol, gan gynnwys nyrs ardal a gweithiwr gofal cymdeithasol)
- y gefnogaeth a gynigir gan grwpiau cymunedol, sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau ffydd
- rheoli disgwyliadau.

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n allanol trwy arholiad ar bapur a fydd yn cael ei farcio gan Pearson.

Fformat yr arholiad

Bydd y dysgwr yn cwblhau arholiad 60 munud sy'n werth 50 marc. Bydd y papur yn cynnwys **dau** gwestiwn strwythuredig, a fydd yn cynnwys is-adrannau. Byddant wedi'u seilio ar wybodaeth gefndir sy'n cael ei darparu yn yr arholiad.

Bydd yr arholiad yn cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau, gan gynnwys cwestiynau gwrthrychol, cwestiynau atebion byr, ac un dasg ysgrifennu estynedig.

Bydd angen i'r dysgwyr arddangos a chymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Uned 2: Gwerthoedd Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Craidd**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Beth yw arfer da ym maes iechyd a gofal cymdeithasol? Beth sy'n sicrhau bod arfer da yn cael ei gymhwyso i gefnogi unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol? Gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol sy'n darparu'r sylfaen ar gyfer arfer da o fewn y sector.

Mae'r gwerthoedd gofal hyn yn berthnasol i holl feysydd gwaith iechyd a gofal cymdeithasol. Yn yr uned hon byddwch yn dod i ddeall sut caiff y gwerthoedd gofal hyn eu cymhwyso mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, a'u pwysigrwydd i'r rhai sydd am weithio yn y sector. Byddwch yn cymhwyso'r gwerthoedd hyn yn ymarferol. Trwy'r gweithgaredd hwn byddwch yn datblygu sgiliau a fydd o ddefnydd ym mhob gyrfa yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Gall y gwerthoedd a ddisgrifir yn yr uned hon gael eu cymhwyso i fywyd beunyddiol, ac i amrywiaeth o yrfaedd y tu allan i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Byddwch hefyd yn ymchwilio i'r dulliau sy'n cael eu defnyddio i rymuso defnyddwyr unigol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn bwysig ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan ei fod yn galluogi unigolion i reoli eu gofal eu hunain, ac yn eu helpu i sicrhau bod eu hanghenion penodol yn cael eu diwallu. Mae'r dulliau hyn yn cynnwys addasu gweithgareddau ac amgylcheddau i ymateb i anghenion unigol, hybu dewis, a defnyddio'r dulliau cyfathrebu y mae unigolion yn eu ffafrio. Byddwch hefyd yn ymchwilio i bwysigrwydd rhoi ystyriaeth i amgylchiadau unigol wrth gynllunio gofal, yn ogystal â'r anawsterau posibl sydd ynghlwm wrth hynny.

Bydd yr uned hon yn eich galluogi i ddeall y safonau uchel a ddisgwylir ym maes iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn diogelu lles unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A archwilio'r gwerthoedd gofal sy'n sail i arfer cyfredol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- B ymchwilio i ffyrdd o rymuso unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
<p>Nod dysgu A: Archwilio'r gwerthoedd gofal sy'n sail i arfer cyfredol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol</p>
<p>Testun A.1 Diffinio ac arddangos gwerthoedd gofal</p> <p>Ymwybyddiaeth o'r gwerthoedd, sut y maent yn cael eu cymhwyso mewn lleoliadau gofal i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau, ac effaith cymhwyso'r gwerthoedd hyn yn effeithiol ac yn aneffeithiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid i ddysgwyr fedru dangos y gwerthoedd gofal yn cael eu cymhwyso'n ymarferol mewn cyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol dethol.</p> <p>Cyfrinachedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • wrth ddelio gyda chofnodion a gwybodaeth arall sy'n ymwneud ag unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau • rheolau cyfrinachedd, e.e. storio cofnodion yn ddiogel, peidio â thrafod un unigolyn gydag un arall, peidio â rhannu gwybodaeth ysgrifenedig heb ganiatâd. <p>Urddas:</p> <ul style="list-style-type: none"> • diogelu urddas unigolion trwy gamau gweithredu priodol. <p>Parch at yr unigolyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • agwedd at ymarfer nad yw'n camwahanuaethu nac yn barnu • cyfrifoldeb y gofalwr am ofal a lles unigolion • defnyddio termau priodol wrth gyfarch unigolion, cydymffurfio â gofynion diwylliannol a chrefyddol unigolyn – peidio â defnyddio termau sy'n tramgwyddo unigolion a grwpiau • defnyddio iaith gynhwysol i hybu perthnasoedd cadarnhaol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, e.e. dangos diddordeb mewn pobl eraill, dangos parch at wahaniaeth. <p>Diogelu a dyletswydd gofal:</p> <ul style="list-style-type: none"> • sicrhau diogelwch corfforol ac emosiynol unigolion, gan gynnwys osgoi esgeuluso • codau ymarfer cyfredol a pherthnasol • arfer proffesiynol. <p>Agwedd berson-ganolog at ddarparu gofal:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwneud yr unigolyn yn ganolog i'r cynllun, cynnwys anghenion a dewisiadau'r unigolyn mewn lle canolog yn y cynllun gofal, a chynnwys unigolion mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Ymchwilio i ffyrdd o rymuso unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol**

Rhaid i ddysgwyr fedru dangos dealltwriaeth o sut mae cymhwyso'r dulliau a ddefnyddir i rymuso unigolion, gan ddefnyddio enghreifftiau perthnasol o leoliadau gofal dethol, e.e. cartref gofal, canolfan ddydd, ysbyty, canolfan iechyd.

Testun B.1 Grymuso unigolion drwy wneud y canlynol:

- addasu gweithgareddau ac amgylcheddau i ymateb i anghenion penodol a galluogi unigolion i gyfranogi'n llawn – dylai hyn gynnwys anghenion corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol
- rhoi ystyriaeth i hawliau, dewisiadau, anghenion, a hoff a chas bethau unigolion, a phwysigrwydd cymryd amgylchiadau'r unigolyn i ystyriaeth wrth gynllunio gofal
- anawsterau cymryd amgylchiadau'r unigolyn i ystyriaeth wrth gynllunio gofal a fydd yn grymuso unigolyn, e.e. yr adnoddau sydd ar gael, effeithiau ar ddefnyddwyr gwasanaethau eraill, cyfyngiadau corfforol
- parodrwydd i weithio mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol, gweithwyr eraill mewn lleoliad, a theuluoedd
- hybu dewis, cydnabod hawl unigolyn i wneud dewisiadau
- defnyddio'r dulliau cyfathrebu a ffafrir, e.e. iaith gyntaf os yw'r Saesneg yn iaith ychwanegol, Iaith Arwyddion Prydain, Makaton
- rhesymau dros gefnogi unigolion, e.e. hybu annibyniaeth, hybu unigolyddiaeth, hybu lles cyffredinol
- hybu'r gallu i reoli eu sefyllfa eu hunain, meithrin ymddiriedaeth, annog adborth, hawl i eiriolaeth
- defnyddio arferion gwaith cadarnhaol, e.e. asesu ar sail anghenion, gosod gwerth ar amrywiaeth, cydnabod hawliau'r unigolyn, ymgorffori asesiad risg yn y cynllun gofal.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Archwilio'r gwerthoedd gofal sy'n sail i arfer cyfredol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol			
1A.1 Nodi sut y defnyddir gwerthoedd gofal i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau. #	2A.LI1 Disgrifio sut mae gwerthoedd gofal yn cefnogi defnyddwyr gwasanaethau, gan ddefnyddio enghreifftiau perthnasol. #	2A.T1 Trafod pwysigrwydd y gwerthoedd sy'n sail i arfer cyfredol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gyfeirio at enghreifftiau dethol. #	2A.Rh1 Asesu'r effaith bosibl ar yr unigolyn wrth gymhwyso'r gwerthoedd gofal yn effeithiol ac yn aneffeithiol mewn ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol, gan gyfeirio at enghreifftiau dethol.
1A.2 Arddangos y defnydd o werthoedd gofal mewn cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol dethol.	2A.LI2 Arddangos y defnydd o werthoedd gofal mewn cyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol dethol.		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu B: Ymchwilio i ffyrdd o rymuso unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol			
1B.3 Nodi ym mha ffyrdd y gall gweithwyr gofal rymuso unigolion.	2B.LI3 Disgrifio ym mha ffyrdd y gall gweithwyr gofal rymuso unigolion, gan ddefnyddio enghreifftiau perthnasol o faes iechyd a gofal cymdeithasol.	2B.T2 Trafod i ba raddau gellir cymryd amgylchiadau unigolion i ystyriaeth wrth gynllunio gofal a fydd yn eu grymuso, gan ddefnyddio enghreifftiau perthnasol o faes iechyd a gofal cymdeithasol.	2B.Rh2 Asesu anawsterau posibl cymryd amgylchiadau unigolion i ystyriaeth wrth gynllunio gofal a fydd yn grymuso unigolyn, gan wneud awgrymiadau ar gyfer gwella.
1B.4 Disgrifio sut gellir defnyddio amgylchiadau unigolyn i greu cynllun gofal sy'n grymuso'r unigolyn.	2B.LI4 Esbonio pam mae'n bwysig cymryd amgylchiadau'r unigolyn i ystyriaeth wrth gynllunio gofal a fydd yn grymuso unigolyn, gan ddefnyddio enghreifftiau perthnasol o faes iechyd a gofal cymdeithasol.		

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

Wrth gwblhau asesiadau, bydd angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o hierarchaeth y meini prawf asesu. Er enghraifft, oddi mewn i nod dysgu, mae meini prawf Lefel 2 Teilyngdod a Rhagoriaeth yn adeiladu'n uniongyrchol ar feini prawf Lefel 2 Llwyddo, ac yn cwmpasu'r dysgu a ddisgwylir yno. Lle ceir enghreifftiau o gymharu, adolygu, dadansoddi, trafod neu werthuso enghreifftiau dethol yn fanwl, rhaid i'r rhain adeiladu ar hyd a lled y ddealltwriaeth oedd yn ofynnol yn ôl y diffiniad o'r testunau yn yr adran gynnwys.

Gellir cyflawni'r uned hon naill ai trwy gwblhau un aseiniad cyfannol a luniwyd i asesu'r holl feini prawf asesu ar lefel benodol, neu trwy gyflawni nifer o aseiniadau llai. Er enghraifft, gellir gosod yr aseiniad oddi mewn i ddau leoliad iechyd a gofal cymdeithasol penodol, ac archwilio sut mae gwerthoedd gofal yn cael eu cymhwyso a phwysigrwydd ystyried amgylchiadau unigol wrth gynllunio gofal ar gyfer unigolion. Mae'r awgrymiadau ar gyfer tasgau aseiniad i'r uned yn dangos un ffordd o gysylltu aseiniadau â dull dysgwyr o arddangos gwerthoedd gofal. Bydd hyn yn helpu'r dysgwyr i werthfawrogi perthnasedd galwedigaethol yr uned.

Naill ai gall dysgwyr ddewis y lleoliad y maent yn ymddiddori fwyaf ynddo, neu gellir ei osod ar eu cyfer. Fel arall, gallai dysgwyr archwilio cymhwysiad gwerthoedd gofal mewn gwahanol leoliadau yn llai manwl i sicrhau persbectif ehangach. Argymhellir defnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu ar gyfer yr uned hon, er mwyn ennyn diddordeb y dysgwyr a'u symbylu.

Nid oes rhaid cyflwyno aseiniadau mewn fformat ysgrifenedig. Gallai dysgwyr, er enghraifft, roi cyflwyniad llafar. Dylai tystiolaeth a roddir ar lafar gael ei recordio. Dylid cwblhau cofnodion arsylwi/datganiadau tystion manwl, a'u cadw er mwyn eu dilysu'n fewnol ac yn allanol. Fel arall, gallai dysgwyr gyflwyno eu gwaith ar gyfer yr uned hon fel pecyn gwybodaeth i'w ddefnyddio'n rhan o'r broses sefydlu ar gyfer gweithwyr newydd o fewn y sector, megis cynorthwyywyr gofal iechyd neu ofal cymdeithasol.

Nod dysgu A

Yn achos 2A.L11, bydd y dysgwyr yn gallu disgrifio'r gwerthoedd gofal a restrir yng nghynnwys yr uned sy'n cefnogi defnyddwyr gwasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys cyfeirio at o leiaf un enghraifft berthnasol ar gyfer pob un o'r gwerthoedd gofal a restrir yng nghynnwys yr uned. Gan ddefnyddio'r enghreifftiau hyn, bydd dysgwyr yn gallu dangos sut mae'r gwerthoedd gofal hyn yn cael eu cymhwyso ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

I gyflawni 2A.T1, bydd y dysgwyr yn estyn hyn i drafod pwysigrwydd y gwerthoedd hyn o safbwynt ymarfer cyfredol. Rhaid i ddysgwyr ddarparu o leiaf un enghraifft ar gyfer pob un o'r gwerthoedd allweddol, megis cyfrinachedd, a phwysigrwydd hynny ym maes iechyd a gofal cymdeithasol o ran sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei rhannu ar sail 'angen gwybod' yn unig. Gallai'r rhain fod yn enghreifftiau o arfer da neu ddrwg.

I gyflawni 2A.Rh1, mae'n ofynnol i ddysgwyr asesu effaith bosibl cymhwyso gwerthoedd gofal yn effeithiol ac yn aneffeithiol ar ddefnyddwyr gwasanaeth unigol. Dylai dysgwyr ddefnyddio enghreifftiau o arfer da a drwg sy'n cwmpasu'r holl werthoedd gofal a restrir yng nghynnwys yr uned. Gellir cymryd yr enghreifftiau hyn o un neu fwy o leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae modd defnyddio astudiaethau achos i helpu i gyflawni hyn. Gall yr athro ddarparu'r astudiaethau achos, neu gall y dysgwyr eu dethol, gyda chymeradwyaeth yr athro. Fodd bynnag, mae'n rhaid i astudiaethau achos alluogi dysgwyr i gymhwyso'u gwybodaeth mewn cyd-destun galwedigaethol a hwyluso asesu effaith cymhwyso'r gwerthoedd gofal yn effeithiol ac yn aneffeithiol ar y defnyddiwr gwasanaeth unigol.

I gyflawni 1A.1, mae disgwyl i ddysgwyr fedru nodi sut mae gwerthoedd gofal (a restrir yng nghynnwys yr uned) yn cefnogi defnyddwyr gwasanaeth.

I gyflawni 2A.LI2, bydd angen i ddysgwyr gael cyfle i arddangos y gwerthoedd sy'n ofynnol i weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Byddai modd cyflawni hyn trwy gyfnod o brofiad gwaith, neu trwy efelychiadau chwarae rôl. Yn achos 2A.LI2, mae'n rhaid i ddysgwyr arddangos yr holl werthoedd gofal mewn o leiaf ddau gyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol, gyda gwahanol grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth. Yn dibynnu ar y lleoliad neu'r senario chwarae rôl, mae'n bosibl na fydd dysgwyr yn cael cyfle priodol ond i arddangos diogelu, yn hytrach na dyletswydd gofal yn ogystal, ac mae hynny'n dderbyniol. Gallai dysgwyr arddangos y gwerthoedd gofal mewn ystod o gyd-destunau, gan gynnwys canolfan iechyd, canolfan ddydd, meithrinfa, ward mewn ysbyty. Yn achos 1A.2, mae'n ofynnol i ddysgwyr arddangos yr holl werthoedd mewn un cyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol, ac ni fydd disgwyl iddynt gymhwyso gwerthoedd gofal i fwy nag un cyd-destun.

Nod dysgu B

Yn achos 2B.LI3, gallai dysgwyr seilio'u gwaith ar astudiaethau achos defnyddwyr gwasanaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn disgrifio ffyrdd o rymuso unigolion, ac esbonio pwysigrwydd ystyried amgylchiadau unigol wrth gynllunio gofal (2B.LI4). Gan ddefnyddio'r un astudiaethau achos, gallai dysgwyr drafod i ba raddau mae modd cymryd amgylchiadau unigolyn (er enghraifft, galluoedd, dewisiadau a hoff a chas bethau) i ystyriaeth, ac asesu anawsterau posibl gwneud hynny (2B.T2). Gallai'r rhain gynnwys effeithiau ar adnoddau, hawliau unigolion eraill yn y lleoliad, rheoli amser a materion cysylltiedig â nifer yr unigolion.

I gyflawni 2B.Rh2, mae'n rhaid i ddysgwyr fedru awgrymu gwelliannau i ofal unigolion, gan roi sylw i'w hamgylchiadau unigol ac anawsterau posibl gwneud hynny. Er mwyn galluogi dysgwyr i gyflawni 2B.Rh2, mae angen sicrhau nad yw unrhyw astudiaeth achos a ddarperir yn enghraifft o arfer rhagorol. Argymhellir bod yr astudiaeth achos yn cynnwys elfennau o arfer da a drwg, fel bod y dysgwyr yn cael cyfle i adnabod y ddau.

Yn achos 1B.3, gofynnir i ddysgwyr nodi dulliau y gall gweithwyr gofal eu defnyddio i rymuso unigolion. Er enghraifft, gall addasu gweithgareddau ac amgylcheddau alluogi unigolion i gyfranogi'n llawn, beth bynnag sy'n digwydd. Dylai dysgwyr fedru nodi o leiaf dair ffordd wahanol o rymuso unigolion.

Yn achos 1B.4, mae angen i ddysgwyr ddisgrifio sut mae modd cymryd amgylchiadau unigolion i ystyriaeth er mwyn creu cynllun gofal i'w grymuso.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.LI2, 2A.LI2	Arddangos Gwerthoedd Gofal ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol	<p>Rydych yn gwirfoddoli mewn dau leoliad iechyd a gofal cymdeithasol gwahanol. Mae rheolwyr y ddau leoliad wedi gofyn i chi gynnal gweithgaredd gyda'r ddau grŵp o ddefnyddwyr gwasanaeth. Maen nhw wedi gofyn i chi ystyried gwerthoedd gofal penodol yn ystod y gweithgaredd, fel y nodir isod.</p> <p>1) Wrth weithio gydag unigolion hŷn mewn lleoliad gofal dydd i gyflawni gweithgaredd celf a chreffft, gofynnwyd i chi arddangos y gwerthoedd gofal canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • diogelu urddas (e.e. trwy sicrhau bod y gweithgaredd o fewn eu gallu) • dangos parch at unigolion (e.e. defnyddio termau priodol wrth gyfarch unigolion) • diogelu/dyletswydd gofal (e.e. diogelwch corfforol ac emosiynol, defnydd priodol o gyfarpar) • defnyddio agwedd berson-ganolog (e.e. ystyried eu hoff/gas bethau, rhoi dewis ynghylch cyfranogi yn y gweithgaredd). 	<p>Gallai'r dystiolaeth gynnwys: recordiadau digidol, ffotograffau, tystiolaeth wedi'i llofnodi gan dystion, crynodeb ysgrifenedig neu lafar/log gweithgaredd.</p> <p>Cofnodion arsylwi wedi'u llofnodi sy'n dangos gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol ar waith yn ymarferol mewn senarios go iawn neu efelychiadau.</p>

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
		<p>2) Wrth weithio gydag oedolion ifanc ag anableddau dysgu mewn lleoliad preswyl er mwyn cynllunio taith diwrnod, gofynnwyd i chi arddangos y gwerthoedd gofal canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cynnal cyfrinachedd (e.e. peidio â datgelu gwybodaeth bersonol a rennir) • diogelu urddas (e.e. eu galluogi i roi mewnbwn wrth ddewis gweithgareddau) • dangos parch (e.e. peidio â phenderfynu ymlaen llaw beth fydd cyfraniad unigolyn, defnyddio iaith gynhwysol) • diogelu/dyletswydd gofal (e.e. diogelwch corfforol ac emosiynol, dilyn arferion gweithio diogel wrth gynllunio, peidio â bod yn orgyfarwydd) • defnyddio agwedd person-ganolog (e.e. cynnwys unigolion wrth gynllunio, gofyn eu barn). 	

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.LI1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1	Pwysigrwydd Gwerthoedd Gofal ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol	<p>Mae eich rheolwyr wedi gofyn i chi gyflwyno cofnod adfyfyriol byr o'ch defnydd o werthoedd gofal yn ystod y ddau weithgaredd uchod. Yn y cofnod hwn, mae angen i chi wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • disgrifio sut mae'r gwerthoedd gofal y buoch yn eu harddangos yn cefnogi'r unigolion hŷn a'r oedolion ifanc dan sylw • trafod pa mor bwysig yw'r gwerthoedd hyn i'r ddau grŵp o ddefnyddwyr gwasanaeth • asesu effaith bosibl cymhwysu gwerthoedd gofal yn effeithiol ac yn aneffeithiol ar unigolyn o'r naill grŵp a'r llall. 	Cofnod ysgrifenedig/adroddiad a gynhyrchwyd â TG/sleidiau cyflwyniad.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1B.3, 1B.4, 2B.LI3, 2B.LI4, 2B.T2, 2B.Rh2	Grymuso Defnyddwyr Gwasanaeth ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol	<p>Ar ddiwedd eich lleoliadau gwirfoddoli, mae rheolwr un o'r lleoliadau wedi gofyn i chi fyfyrio ar y profiad a chyflwyno awgrymiadau ynghylch sut mae cymryd amgylchiadau unigolion i ystyriaeth wrth gynllunio gofal sy'n grymuso. Mae hi wedi gofyn i chi lunio adroddiad er mwyn cyflwyno eich canfyddiadau i'r tîm.</p> <p>Gan edrych naill ai ar y lleoliad gofal dydd neu'r lleoliad preswyl, defnyddiwch eich adroddiad i ddisgrifio ym mha ffyrdd y gallai gweithwyr gofal rymuso unigolion yn y lleoliad hwnnw, gan ddefnyddio enghreifftiau perthnasol. Yn eich adroddiad, dylech hefyd esbonio pam mae'n bwysig cymryd amgylchiadau unigol i ystyriaeth wrth gynllunio gofal ar gyfer y grŵp hwnnw o ddefnyddwyr gwasanaeth. Ar ben hynny, dylech drafod i ba raddau mae modd cyflawni hyn, ac asesu'r anawsterau posibl wrth wneud hynny.</p>	Adroddiad ysgrifenedig.

Uned 3: Cyfathrebu Effeithiol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lefel: 1 a 2

Math o uned: **Gorfodol**

Oriau dysgu dan arweiniad: 30

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Hoffech chi gael gyrfa ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol? Os felly, pa mor dda yw eich sgiliau cyfathrebu? Mae sgiliau cyfathrebu'n hanfodol ar gyfer y rhai sy'n dewis gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cyfathrebu clir yn bwysig er mwyn galluogi defnyddwyr gwasanaeth i ddeall a chytuno i'r gofal y maen nhw'n ei dderbyn. Mae cyfathrebu da rhwng gweithwyr gofal proffesiynol yn golygu bod modd iddyn nhw gyflawni eu rolau'n effeithiol, gweithio ar y cyd â chydweithwyr a meithrin perthnasoedd cefnogol gyda defnyddwyr gwasanaeth.

Os ydych chi erioed wedi defnyddio gwasanaethau iechyd neu ofal cymdeithasol, byddwch chi wedi sylwi pa mor aml mae'r staff yn cyfathrebu â'i gilydd ac â defnyddwyr gwasanaeth.

Bydd yr uned hon yn rhoi cyfle i chi ymchwilio i'r gwahanol ddulliau cyfathrebu a sut maen nhw'n cael eu defnyddio'n effeithiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Byddwch chi'n edrych ar bwysigrwydd defnyddio lleferydd clir, iaith y corff sy'n dangos eich bod chi eisiau helpu pobl, a sgiliau gwranddo gweithredol sy'n dangos bod gennych ddi-ddordeb yn yr hyn mae pobl yn ei ddweud. Bydd yr uned hon hefyd yn darparu gwybodaeth am ddulliau cyfathrebu amgen, fel Braille, Iaith Arwyddion Prydain a Makaton.

Yn yr uned hon, byddwch hefyd yn ymchwilio i'r anawsterau mae rhai pobl yn eu hwynebu wrth gyrchu iechyd a gofal cymdeithasol, oherwydd rhwystrau i gyfathrebu. Byddwch yn dysgu sut mae goresgyn y rhain, fel bod pobl yn gallu cael mynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd yr uned hon yn eich helpu i archwilio'r sgiliau cyfathrebu sy'n angenrheidiol i ryngweithio gydag unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Byddwch yn rhoi'r sgiliau hyn ar waith mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn neu efelychiadau, ac mewn rhyngweithiadau un i un a grŵp. Bydd hyn yn sicrhau eich bod chi'n datblygu ystod o sgiliau cyfathrebu, ac yn gallu eu haddasu ar gyfer amrywiaeth o wahanol ddefnyddwyr gwasanaeth a grwpiau.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

A ymchwilio i wahanol ddulliau cyfathrebu

B ymchwilio i rwystrau i gyfathrebu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

C cyfathrebu'n effeithiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
Nod dysgu A: Ymchwilio i wahanol ddulliau cyfathrebu
<p>Rhaid i ddysgwyr fedru dangos sut gall gwahanol ddulliau cyfathrebu gael eu cymhwyso i ddefnyddwyr gwasanaeth sydd â gwahanol anghenion cyfathrebu mewn cyd-destunau iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid iddyn nhw wybod sut gall dulliau a sgiliau cyfathrebu wella'r cyfathrebu gyda defnyddwyr gwasanaeth.</p> <p>Testun A.1: Cyfathrebu effeithiol</p> <p>Cyfathrebu geiriol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • lleferydd clir – ynganu geiriau'n gywir, gan seinio diweddebau geiriau • dethol iaith briodol, e.e. defnyddio iaith ffurfiol ac anffurfiol, defnyddio neu osgoi iaith sathredig a geiriau rhanbarthol fel sy'n briodol, osgoi jargon, gan gynnwys defnydd diangen o dermau technegol ac acronymau • iaith oed-briodol • cyflymdra, goslef a thraw • defnydd o iaith nad yw'n camwahaniaethu • sgiliau gwranddo gweithredol. <p>Cyfathrebu di-eiriau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • osgo – cadarnhaol, heb fod yn amddiffynnol, e.e. peidio â phlethu'r breichiau • mynegiant yr wyneb, gan gyfateb i'r sgwrs, peidio â gwenu'n amhriodol • cyswllt llygad (defnydd cadarnhaol o gyswllt llygad) • defnydd priodol o gyffyrddiad a gofod personol – ymateb i'r unigolyn • ystumiau – dealltwriaeth o normau diwylliannol yng nghyswllt ystumiau, beth sy'n dderbyniol neu'n annerbyniol, peidio â pheri tramgwydd • defnydd heb fod yn fygythiol o iaith y corff • gofod personol, e.e. amrywiadau diwylliannol, unigolion â salwch meddwl, dewisiadau unigol. <p>Testun A.2: Dulliau cyfathrebu amgen</p> <p>Defnyddio dulliau cyfathrebu ar gyfer anghenion gwahanol, gan gynnwys: rhai â nam ar eu golwg, nam ar eu clyw ac anableddau dysgu, e.e. Braille a meddalwedd Braille, Iaith Arwyddion Prydain, sillafu â'r bysedd, negeseuon testun, dehonglwyr lleferydd, cyfieithwyr ar gyfer y gair ysgrifenedig/dogfennau, gwrthrychau cyfeiriadol, pasbortau cyfathrebu, symbolau bliss, Makaton, cymhorthion technolegol, defnyddio lluniau i gynorthwyo'r cyfathrebu, defnyddio eiriolwyr.</p>

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Ymchwilio i rwystrau i gyfathrebu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol****Testun B.1 Rhwystrau i gyfathrebu a sut mae eu goresgyn**

Rhwystrau a'u heffeithiau:

- rhwystrau amgylcheddol, e.e. goleuo, seddau, sŵn allanol, diffyg lle
- rhwystrau corfforol, e.e. amddifadedd synhwyraidd, salwch corfforol a meddyliol
- rhwystrau ieithyddol, e.e. Saesneg fel iaith ychwanegol, anawsterau lleferydd, iaith sathredig, acronymau, ymadroddion tafodieithol, jargon
- ynysu cymdeithasol, e.e. diffyg hyder; yn dilyn bygythiadau, camdriniaeth neu drawma
- effeithiau rhwystrau ar unigolion, e.e. lleihau mynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ansawdd gwael yr iechyd a'r gofal cymdeithasol a ddarperir, trallod, cynnydd yn y problemau cymdeithasol, mwy o afiechyd.

Goresgyn rhwystrau trwy ddefnyddio:

- dewis ddull cyfathrebu
- dewis iaith
- addasiadau i'r amgylchedd ffisegol – newidiadau i seddau a goleuo ystafelloedd/fffenestri a'u gallu i gyfyngu ar sŵn
- cyfathrebu di-eiriau effeithiol – osgo cadarnhaol, mynegiant yr wyneb, ystumiau priodol.

Y manteision i unigolion pan ddileir rhwystrau, er enghraifft:

- cynyddu mynediad i iechyd a gofal cymdeithasol
- gwell ansawdd i'r ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol
- lleihau trallod emosiynol
- mwy o ymwneud â rhyngweithiadau
- codi lefelau hunan-barch
- llai o rwystredigaeth.

Nod dysgu C: Cyfathrebu'n effeithiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Rhaid i ddysgwyr fedru dethol ac arddangos sgiliau cyfathrebu priodol mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol.

Testun C.1 Cyfathrebu gyda grwpiau ac unigolion trwy ddefnyddio'r canlynol:

- gwranddo gweithredol
- iaith y corff
- mynegiant yr wyneb
- cyswllt llygad
- defnyddio iaith briodol
- goslef y llais
- cyflymdra'r lleferydd
- agosrwydd
- egluro, ailadrodd.

Effeithiolrwydd cyfathrebu: myfyrio ar y sgiliau a ddefnyddiwyd, priodoldeb y dulliau cyfathrebu ar gyfer gwahanol ddefnyddwyr gwasanaeth, argymhellion ar gyfer gwelliant.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Ymchwilio i wahanol ddulliau cyfathrebu			
1A.1 Nodi gwahanol ddulliau cyfathrebu geiriol a di-eiriau.	2A.LI1 Disgrifio gwahanol ddulliau cyfathrebu geiriol a di-eiriau.	2A.T1 Esbonio manteision ac anfanteision y gwahanol ddulliau cyfathrebu a ddefnyddiwyd, gan gyfeirio at ryngweithio un i un a rhyngweithio grŵp.	2A.Rh1 Asesu effeithiolrwydd gwahanol ddulliau cyfathrebu ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sydd â gwahanol anghenion.
1A.2 Nodi dulliau cyfathrebu amgen ar gyfer gwahanol anghenion, gan ddefnyddio enghreifftiau o faes iechyd a gofal cymdeithasol.	2A.LI2 Disgrifio dulliau cyfathrebu amgen ar gyfer gwahanol anghenion, gan ddefnyddio enghreifftiau o faes iechyd a gofal cymdeithasol.		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu B: Ymchwilio i rwystrau i gyfathrebu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol			
1B.3 Amlinellu'r rhwystrau i gyfathrebu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.	2B.LI3 Disgrifio'r rhwystrau i gyfathrebu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, a'u heffeithiau ar ddefnyddwyr gwasanaeth.	2B.T2 Esbonio sut rhoddwyd mesurau ar waith i oresgyn rhwystrau i gyfathrebu, gan gyfeirio at achos dethol.	2B.Rh2 Gwerthuso effeithiolrwydd y mesurau a ddefnyddiwyd i ddileu rhwystrau i gyfathrebu, gan gyfeirio at achos dethol.
1B.4 Nodi ym mha ffyrdd y gellir goresgyn rhwystrau i gyfathrebu yn achos unigolion sydd â cholled synhwyaidd.	2B.LI4 Gan ddefnyddio enghreifftiau, esbonio ym mha ffyrdd gellir goresgyn rhwystrau i gyfathrebu, a manteision goresgyn y rhwystrau hynny i ddefnyddwyr gwasanaeth.		
Nod dysgu C: Cyfathrebu'n effeithiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol			
1C.5 Arddangos sgiliau cyfathrebu trwy un rhyngweithiad ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan nodi'r dulliau cyfathrebu a ddefnyddiwyd. #	2C.LI5 Arddangos sgiliau cyfathrebu trwy rhyngweithiadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddisgrifio'u heffeithiau. #	2C.T3 Dethol ac arddangos sgiliau cyfathrebu trwy rhyngweithiadau ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan esbonio'u heffeithiolrwydd. #	2C.Rh3 Dethol ac arddangos sgiliau cyfathrebu trwy rhyngweithiadau un i un a grŵp ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan werthuso'u heffeithiolrwydd a gwneud argymhellion ar gyfer gwella. #

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

Wrth gwblhau asesiadau, bydd angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o hierarchaeth y meini prawf asesu. Er enghraifft, oddi mewn i nod dysgu, mae meini prawf Lefel 2 Teilyngdod a Rhagoriaeth yn adeiladu'n uniongyrchol ar feini prawf Lefel 2 Llwyddo, ac yn cwmpasu'r dysgu a ddisgwylir yno. Lle ceir enghreifftiau o gymharu, adolygu, dadansoddi, trafod neu werthuso enghreifftiau dethol yn fanwl, rhaid i'r rhain adeiladu ar hyd a lled y ddealltwriaeth oedd yn ofynnol yn ôl y diffiniad o'r testunau yn yr adran gynnwys.

Gellir cyflawni'r uned hon naill ai trwy gwblhau un aseiniad cyfannol a luniwyd i asesu'r holl feini prawf asesu ar lefel benodol, neu trwy gyflawni nifer o aseiniadau llai. Er enghraifft, gellir gosod yr aseiniad oddi mewn i leoliad iechyd a gofal cymdeithasol penodol, ac archwilio'r defnydd o sgiliau cyfathrebu yn y lleoliad hwnnw. Fel arall, gellid gosod aseiniadau mewn gwahanol leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, er mwyn rhoi cyfle i'r dysgwyr gyfathrebu â gwahanol fathau o ddefnyddwyr gwasanaeth.

Yn achos nod dysgu A a nod dysgu B, gallai'r aseiniad gael ei seilio ar astudiaethau achos y gellid eu dylunio i gwmpasu gofynion y meini prawf asesu. Byddai hynny'n galluogi'r dysgwyr i gydnabod cymhwysiad ymarferol y sgiliau a gynhwyswyd yn yr uned. Gellir cael hyd i astudiaethau achos addas mewn cylchgronau iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, rhaglenni teledu, neu gyfryngau eraill.

Nid oes rhaid cyflwyno aseiniadau mewn fformat ysgrifenedig. Gallai dysgwyr, er enghraifft, roi cyflwyniad llafar. Dylai tystiolaeth a roddir ar lafar gael ei recordio. Dylid cwblhau cofnodion arsylwi/datganiadau tystion manwl, a'u cadw er mwyn eu dilysu'n fewnol ac yn allanol. Argymhellir defnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu wrth asesu'r uned hon er mwyn rhoi cyfle i'r dysgwyr ddatblygu a defnyddio ystod o sgiliau cyfathrebu.

Nodau dysgu A a B

Yn achos 2A.LI1, bydd disgwyl i'r dysgwyr ddisgrifio ffurfiau'r sgiliau cyfathrebu geiriol a di-eiriau, megis defnyddio iaith nad yw'n camwahaniaethu a iaith y corff, sy'n cael eu defnyddio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn 2A.LI2, rhaid i'r dysgwyr ddisgrifio'r dulliau cyfathrebu amgen y gellir eu defnyddio ar gyfer y rhai sydd â nam ar eu golwg, nam ar eu clyw, neu sydd ag anableddau dysgu. Gallai dysgwyr ddefnyddio enghreifftiau o'r gwahanol ddulliau cyfathrebu maen nhw wedi'u defnyddio mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol arbennig, neu o'r dulliau cyfathrebu a ddefnyddiwyd ar draws gwahanol leoliadau.

I gyflawni 2A.T1, rhaid i'r dysgwyr esbonio manteision ac anfanteision y gwahanol ddulliau cyfathrebu a ddefnyddiwyd (e.e. di-eiriau, geiriol, amgen), gan gyfeirio at ryngweithiad un i un a rhyngweithiad grŵp ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Gallai'r rhyngweithiadau hyn fod rhwng gweithiwr a defnyddiwr/defnyddwyr gwasanaeth, neu rhwng aelodau staff ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn achos 2A.Rh1, mae'n ofynnol i ddysgwyr ystyried o leiaf bum dull cyfathrebu gwahanol, ac mae'n rhaid i un o leiaf o'r rhain fod yn ddull cyfathrebu amgen.

Mae'n ofynnol iddynt asesu effeithiolrwydd dulliau cyfathrebu gwahanol i ddefnyddwyr gwasanaeth sydd â gwahanol anghenion wrth gyfathrebu mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Gallai'r cyfathrebu hwn fod rhwng defnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, neu rhwng defnyddiwr gwasanaeth a gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol.

Yn achos 1A.1 ac 1A.2, mae'n ofynnol i ddysgwyr nodi gwahanol ddulliau cyfathrebu geiriol, di-eiriau ac amgen a ddefnyddir ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Gallai hyn fod ar ffurf poster neu daflen.

Yn achos 2B.LI3, rhaid i ddysgwyr ddisgrifio pedwar math o rwystr i gyfathrebu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol (a restrir yng nghynnwys yr uned) ac effeithiau'r rhwystrau hyn ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Byddai cyfeirio at astudiaethau achos neu achosion go iawn yn y cyfryngau o fudd yma. I gyflawni 2B.LI4, mae'n ofynnol i ddysgwyr ddefnyddio enghreifftiau i esbonio sut gellir goresgyn pob math o rwystr, ac egluro'r manteision a ddaw i ddefnyddwyr gwasanaeth yn sgîl goresgyn y rhwystrau hyn. I gyflawni 2B.T2, dylai dysgwyr ddatblygu eu hymateb i esbonio sut rhoddwyd mesurau ar waith mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn goresgyn rhwystrau. Gallai dysgwyr adeiladu ar dystiolaeth a gyflwynwyd eisoes neu gyfeirio at astudiaeth achos leol, neu at fesurau a roddwyd ar waith ar lefel genedlaethol. I gyflawni 2B.Rh2, dylai dysgwyr wedyn werthuso i ba raddau y llwyddodd y mesurau i ddileu rhwystrau.

Yn achos 1B.3, mae angen i ddysgwyr amlinellu o leiaf dri rhwystr gwahanol i gyfathrebu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ac yna nodi ffyrdd o oresgyn y rhwystrau hyn ar gyfer unigolion sydd wedi colli eu golwg neu eu clyw (1B.4).

Nod dysgu C

Ar gyfer nod dysgu C, mae angen i ddysgwyr ddeall beth yw ystyr cyfathrebu effeithiol, a gallu adfyfrio ar y rhyngweithio maen nhw wedi'i wneud.

Dylid rhoi cyfle ac amser i ddysgwyr ddatblygu ac ymarfer sgiliau cyfathrebu a rhyngberonol i baratoi ar gyfer y rhyngweithiadau sy'n cael eu hasesu. Bydd recordio rhyngweithiadau (i alluogi'r broses adolygu), a derbyn adborth gan gyfoedion a'u hathro, yn eu cefnogi i wella eu sgiliau yn barod ar gyfer yr asesiad. Yn achos rhyngweithiadau yn y gwaith, dylai dysgwyr yn gyntaf drafod y rhain a chytuno arnynt gyda'u hathro a'u goruchwyliwr. Mae efelychiadau chwarae rôl wedi'u gosod mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol hefyd yn dderbyniol.

Dyma rai o'r enghreifftiau a awgrymir:

- mae'r dysgwyr yn derbyn astudiaeth achos ac yn trafod a chynllunio gofal unigolyn, gan chwarae rôl y gweithwyr gofal
- dethol dysgwyr i chwarae 'rôl' gweithiwr gofal sydd wedi colli diddordeb, fel eu bod yn cael cipolwg ar y profiad o dderbyn arfer gwael. Bydd hyn hefyd yn eu helpu i weld y cysylltiad annatod rhwng hunan-barch ac arferion cyfathrebu da
- mae'r dysgwyr yn derbyn cyllideb, ac yn cael cais i gynllunio sut bydden nhw'n gwario'r arian i adnewyddu cartref gofal, ystafell ddydd mewn ysbyty neu ganolfan ddydd i bobl hŷn
- gallai'r dysgwyr chwarae rôl defnyddwyr gwasanaeth yn trafod y gofal y maen nhw'n ei dderbyn a sut mae'n diwallu eu hanghenion, neu sut mae'n methu gwneud hynny.

Argymhellir bod athrawon yn creu fideo o'r sesiwn os oes cyfarpar ar gael. Fel arall, gallai cymheiriaid arsylwi'r grwpiau, er mwyn rhoi adborth ar y sgiliau cyfathrebu a rhyngweithio rhyngbersonol a ddefnyddiwyd. Gallai dysgwyr gynhyrchu rhestr wirio arsylwi fel rhan o weithgaredd dosbarth. Yn ogystal â'r rhestr wirio, gallai dysgwyr gynhyrchu nodiadau, a allai fod o gymorth iddynt wrth gynhyrchu eu tystiolaeth ar gyfer 2C.L15.

Ar gyfer 2C.T3, mae'n ofynnol i ddysgwyr ddethol a chymhwyso sgiliau cyfathrebu mewn o leiaf ddwy sefyllfa wahanol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Gallai'r rhain fod yn sefyllfaoedd un i un neu grŵp, ffurfiol neu anffurfiol, gyda chydweithwyr neu ddefnyddwyr gwasanaeth. Disgwylir i ddysgwyr esbonio effeithiolrwydd y sgiliau a ddangoswyd ganddynt. Ar gyfer 2C.Rh3, mae angen i ddysgwyr werthuso effeithiolrwydd y sgiliau cyfathrebu a ddangoswyd ganddynt mewn rhyngweithiadau un i un a grŵp mewn sefyllfa iechyd a gofal cymdeithasol. Fel rhan o'u gwerthusiad, mae angen i ddysgwyr wneud argymhellion ar gyfer gwella eu defnydd o sgiliau cyfathrebu.

I gyflawni 1C.5, mae'n ofynnol i ddysgwyr arddangos sgiliau cyfathrebu mewn naill ai cyd-destun un i un neu grŵp o fewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol, gan nodi'r ffurfiau cyfathrebu a ddefnyddiwyd ganddynt.

Mae'n hanfodol bod senarios galwedigaethol a gynhwysir yn yr asesiad yn cael eu llunio ar lefel sy'n golygu y gall dysgwyr uniaethu â nhw, er enghraifft gwirfoddolwyr neu gynorthwyywyr gofal yn hytrach na phenaethiaid adran.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 1A.2, 2A.LI1, 2A.LI2, 2A.Rh1, 1B.3, 1B.4, 2B.LI3, 2B.LI4, 2B.T2, 2B.Rh2	Sut mae Cyfathrebu ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol	<p>Mae'r rheolwr yn y cartref nyrsio lle rydych chi'n gweithio fel cynorthwy-ydd gofal wedi derbyn cwyn gan un o'r defnyddwyr gwasanaeth ynghylch sut mae'r staff yn cyfathrebu â hi yn feunyddiol. Mae hi'n teimlo nad yw ei hanhawster gyda'i chlyw yn cael ei ystyried, ac nid yw hi bob amser yn gwybod beth sydd ar fin digwydd iddi pan ddaw ei gofalwyr i mewn i'w hystafell. Mae'r rheolwr wedi galw cyfarfod i drafod sut dylai'r staff fod yn cyfathrebu yn y lleoliad, ac mae wedi gofyn i chi ddylunio deunyddiau sy'n trafod cyfathrebu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer y staff cyfredol ac unrhyw un sy'n ymuno â'r tîm yn y dyfodol.</p> <p>Fel rhan o'r deunyddiau, mae rhaid i chi gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • disgrifiad o'r gwahanol ddulliau cyfathrebu geiriol, di-eiriau ac amgen, gan ddefnyddio enghreifftiau yng nghyd-destun y cartref nyrsio • esboniad ar fanteision ac anfanteision y gwahanol ddulliau cyfathrebu a ddefnyddir, gan gyfeirio ar ryngweithiadau un i un a grŵp • asesiad o effeithiolrwydd gwahanol ddulliau cyfathrebu ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sydd â gwahanol anghenion yn y cartref nyrsio, er enghraifft y rhai sydd â nam ar eu clyw. 	Pecyn gwybodaeth yn cynnwys taflenni, posteri, erthyglau, sleidiau cyflwyniad.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
		<p>O fewn y cartref nyrsio, mae llawer o rwystrau i gyfathrebu effeithiol, er enghraifft, defnyddwyr gwasanaeth sydd yn dioddef amddifadedd synhwyrdd, Saesneg fel ail iaith a dementia. Mae eich rheolwr wedi gofyn i chi gynnwys y canlynol yn eich pecyn gwybodaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • disgrifiad o'r rhwystrau i gyfathrebu yn y cartref nyrsio ac effeithiau hynny ar ddefnyddwyr gwasanaeth • esboniad ar sut gellir goresgyn y rhwystrau hyn, a manteision gwneud hynny o safbwynt preswylwyr y cartref nyrsio • esboniad manwl ar sut mae mesurau wedi cael eu rhoi ar waith i oresgyn rhwystrau yn y cartref nyrsio, a gwerthusiad o effeithiolrwydd hynny. 	

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1C.5, 2C.LI5, 2C.T3, 2C.Rh3	Cyfathrebu'n Effeithiol ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol	<p>Fel gweithiwr gofal, mae angen i chi gyfathrebu'n effeithiol gyda'r staff eraill yn y cartref nyrsio a defnyddwyr gwasanaeth, a hynny mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol.</p> <p>Mae Mrs Johnson yn fenyw hyfryd, ac rydych chi'n hoff iawn ohoni. Rydych chi wedi bod yn gofalu amdani ers tair blynedd, ac mae hi bob amser yn ddiolchgar am eich gofal. Unig berthynas byw Mrs Johnson yw ei merch, sy'n byw dros 200 milltir i ffwrdd, felly anaml iawn y mae hi'n cael ymweliad. Yn ddiweddar mae Mrs Johnson wedi cael diagnosis o glefyd yr arennau, ac mae angen iddi fynd i'r ysbyty i gael profion. Mae hi'n ofni mynd i'r ysbyty, ac rydych chi'n gwybod y bydd hyn yn achosi trallod mawr iddi. Gan fod gennych chi berthynas dda gyda Mrs Johnson, mae eich rheolwr wedi gofyn i chi roi'r newyddion yma iddi, ac yna i'w merch, ac adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r sgwrs.</p> <p>Bydd angen i chi:</p> <ul style="list-style-type: none"> • ddethol ac arddangos sgiliau cyfathrebu yn eich sgysiau gyda Mrs Johnson ei hun, a chyda'i merch dros y ffôn, gan roi gwybod i'r ddwy ohonynt beth sy'n mynd i ddigwydd a pham • siarad â'ch rheolwr i roi gwybod iddi beth yw canlyniadau'r sgwrs, gan ddisgrifio'r effeithiau, gwerthuso effeithiolrwydd eich sgiliau cyfathrebu a gwneud argymhellion ynghylch sut gallech chi fod wedi gwella eich ffordd o ryngweithio â nhw. 	<p>Cofnodion arsylwi wedi'u llofnodi.</p> <p>Arddangos sgiliau cyfathrebu yn ymarferol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.</p> <p>Gallai'r dystiolaeth gynnwys tystiolaeth wedi'i llofnodi gan dystion, recordiadau digidol, ffotograffau wedi'u hanodi.</p>

Uned 4: Dylanwadau Cymdeithasol ar Iechyd a Llesiant

Lefel: 1 a 2

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Sut mae pobl yn datblygu eu barn ynghylch y gwahaniaeth rhwng da a drwg? Pam mae gan bobl eu credoau a'u hagweddau penodol eu hunain? Sut gall perthnasoedd, incwm neu addysg unigolion effeithio ar eu hiechyd a'u llesiant?

Yn yr uned hon, byddwch yn archwilio sut rydym ni'n dysgu ymddygiad derbyniol gan ein rhieni, ein gofalwyr, ein neiniau a'n teidiau a'n teuluoedd estynedig (cymdeithasoli cynradd). Byddwch hefyd yn archwilio sut rydym ni'n dysgu rheolau cymdeithasol gan bobl yn y gymdeithas ehangach, er enghraifft athrawon a chydweithwyr (cymdeithasoli eilaidd). Byddwch yn archwilio sut mae'r dulliau cymdeithasoli gwahanol hyn yn effeithio ar ein hiechyd a'n llesiant.

Trwy archwilio gwahanol fathau o berthnasoedd cymdeithasol, megis y rhai a geir mewn teuluoedd, a'r rhai sydd rhwng ffrindiau a chydweithwyr, byddwch yn datblygu dealltwriaeth o effeithiau'r ffactorau hyn ar iechyd a llesiant unigolion.

Byddwch hefyd yn ymchwilio i effaith gwahanol ffactorau cymdeithasol, megis incwm, addysg a dosbarth cymdeithasol ar iechyd a llesiant unigolion.

Bydd deall effaith perthnasoedd a ffactorau cymdeithasol ar iechyd a llesiant unigolion yn cael effaith ar y mathau o ofal a chefnogaeth y mae eu hangen ar unigolion, ac yn galluogi gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol i gynllunio a chyflwyno gofal a fydd yn ymateb i anghenion defnyddwyr gwasanaeth.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A archwilio effeithiau cymdeithasoli ar iechyd a llesiant unigolion
- B deall dylanwadau perthnasoedd ar iechyd a llesiant unigolion
- C ymchwilio i effeithiau ffactorau cymdeithasol ar iechyd a llesiant unigolion.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
Nod dysgu A: Archwilio effeithiau cymdeithasoli ar iechyd a llesiant unigolion
<p>Rhaid i ddysgwyr fod yn ymwybodol o'r gwahaniaethau rhwng cymdeithasoli cynradd ac eilaidd, y gwahanol gyfryngau sy'n ymwneud â'r ddau fath, ac effaith bosibl y rhain ar iechyd a llesiant unigolion.</p> <p>Testun A.1: Cymdeithasoli cynradd ac eilaidd</p> <p>Cymdeithasoli cynradd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfryngau e.e. rhieni, brodyr a chwiorydd, gofalwyr • dylanwad cyfryngau ar leferydd, credoau a gwerthoedd • Cyfryngau cymdeithasoli eilaidd a'u dylanwad: • ffrindiau a chyfoedion • y cyfryngau torfol, e.e. hysbysebu, rhwydweithio cymdeithasol, teledu, diwylliant sêr cyhoeddus, cerddoriaeth, papurau newydd/cylchgronau • cyfryngau eraill, e.e. gweithwyr blynyddoedd cynnar mewn meithrinfa/cylch chwarae, athrawon, gweithwyr ieuentid, cynrychiolwyr crefyddau, cydweithwyr, gweithwyr cymdeithasol. <p>Testun A.2: Effeithiau cymdeithasoli</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ffurio rolau rhywedd, e.e. disgwyliadau o ran ymddygiad gwrywod a benywod. • Ffurio agweddau, e.e. datblygiad goddefgarwch/rhagfarn, ffurfio dewisiadau moesol, credoau crefyddol a seciwlar, agwedd at awdurdod. • Datblygu normau a gwerthoedd cymdeithasol, e.e. barn ynghylch da a drwg, cwртеisi ac ymddygiad, defnydd o iaith. • Dylanwad ar ddewisiadau ffordd o fyw, e.e. cychwyn ar gyflogaeth/peidio â chychwyn ar gyflogaeth, dewisiadau gyrfa, defnyddio sylweddau anghyfreithlon, priodas a pherthnasoedd hirdymor, ffyrdd amgen o fyw, crefydd, defnyddio a dewis gofal meddygol a thriniaeth, smygu, cymeriant alcohol, cyfranogiad mewn chwaraeon neu ymarfer corff.

Beth sydd angen ei ddysgu
Nod dysgu B: Deall y dylanwadau sydd gan berthnasoedd ar iechyd a llesiant unigolion
<p>Testun B.1 Dylanwadau perthnasoedd ar unigolion</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylanwadau gwahanol fathau o berthnasoedd ar iechyd a llesiant unigolion, gan gynnwys effeithiau newidiadau mewn perthnasoedd, e.e. priodas, ysgariad, profedigaeth, gadael addysg. • Rhaid i ddysgwyr fedru cysylltu'r math o berthynas â'i dylanwadau posibl ar iechyd a llesiant. • Gwahanol fathau o berthnasoedd: <ul style="list-style-type: none"> ○ teulu, e.e. estynedig, niwclear, wedi'i ailffurfio, rhiant sengl ○ gwaith, e.e. athro/myfyriwr, cydweithwyr, rheolwyr llinell ○ cymdeithasol, e.e. ffrindiau, cyd-aelodau o grwpiau crefyddol a grwpiau seciwlar ○ perthnasoedd agos iawn a rhywiol. • Dylanwadau perthnasoedd ar iechyd a llesiant unigolion, e.e. hunan-barch, lefelau straen a phryder, effeithiau camweithrediad.
Nod dysgu C: Ymchwilio i effeithiau ffactorau cymdeithasol ar iechyd a llesiant unigolion
<p>Testun C.1 Sut mae ffactorau cymdeithasol yn dylanwadu ar iechyd a llesiant</p> <p>Dylanwad ffactorau cymdeithasol ar iechyd a llesiant unigolion, gan gynnwys eu dewisiadau cysylltiedig â iechyd.</p> <p>Rhaid i ddysgwyr fedru cysylltu ffactorau cymdeithasol a'u dylanwad ar ddewisiadau iechyd ac ar iechyd a llesiant unigolion.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ffactorau cymdeithasol sy'n dylanwadu ar iechyd a llesiant, e.e. incwm, addysg, galwedigaeth, dosbarth cymdeithasol, cyfoeth, gwerthoedd ac ymddygiad, teulu, cyfoedion, y cyfryngau, amodau byw, rhywedd, diwylliant. • Effeithiau ffactorau cymdeithasol ar ddewisiadau iechyd, e.e. deiet, smygu, llety byw, defnyddio cyffuriau adloniant, cymeriant alcohol, cyfranogiad mewn chwaraeon neu ymarfer corff, ceisio gofal meddygol. • Effeithiau ffactorau cymdeithasol ar iechyd a llesiant, e.e. o ran hunan-barch, lefelau straen a phryder, mynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, effaith ar iechyd a llesiant corfforol, effeithiau hirdymor ar iechyd a llesiant.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Archwilio effeithiau cymdeithasoli ar iechyd a llesiant unigolion			
1A.1 Nodi cyfryngau sy'n gysylltiedig â'r prosesau cymdeithasoli cynradd ac eilaidd.	2A.LI1 Esbonio dylanwad cyfryngau cymdeithasoli cynradd ac eilaidd.	2A.T1 Esbonio effeithiau cymdeithasoli cynradd ac eilaidd ar iechyd a llesiant unigolion, gan gyfeirio at enghreifftiau perthnasol.	2A.Rh1 Gwerthuso effaith cymdeithasoli cynradd ac eilaidd ar iechyd a llesiant unigolion, gan gyfeirio at enghreifftiau perthnasol.
1A.2 Amlinellu prif effeithiau cymdeithasoli ar iechyd a llesiant unigolion.	2A.LI2 Disgrifio effeithiau cymdeithasoli ar iechyd a llesiant unigolion.		
Nod dysgu B: Deall dylanwadau perthnasoedd ar iechyd a llesiant unigolion			
1B.3 Amlinellu'r gwahanol fathau o berthnasoedd sy'n cael effaith ar iechyd a llesiant unigolion.	2B.LI3 Disgrifio dylanwadau gwahanol fathau o berthnasoedd ar iechyd a llesiant unigolion.	2B.T2 Esbonio dylanwadau gwahanol fathau o berthnasoedd ar iechyd a llesiant unigolion.	2B.Rh2 Cymharu dylanwadau cadarnhaol a negyddol posibl gwahanol berthnasoedd ar iechyd a llesiant unigolion.
Nod dysgu C: Ymchwilio i effeithiau ffactorau cymdeithasol ar iechyd a llesiant unigolion			
1C.4 Nodi effeithiau ffactorau cymdeithasol ar ddewisiadau iechyd unigolion.	2C.LI4 Disgrifio sut gall ffactorau cymdeithasol effeithio ar iechyd a llesiant unigolion.	2C.T3 Esbonio sut gall ffactorau cymdeithasol effeithio ar iechyd a llesiant unigolion, gan gyfeirio at enghreifftiau perthnasol.	2C.Rh3 Gwerthuso'r cysylltiad rhwng ffactorau cymdeithasol a iechyd a llesiant unigolion, ac effaith hynny ar iechyd a llesiant, gan gyfeirio at enghreifftiau perthnasol.

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

Wrth gwblhau asesiadau, bydd angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o hierarchaeth y meini prawf asesu. Er enghraifft, oddi mewn i nod dysgu, mae meini prawf Lefel 2 Teilyngdod a Rhagoriaeth yn adeiladu'n uniongyrchol ar feini prawf Lefel 2 Llwyddo, ac yn cwmpasu'r dysgu a ddisgwylir yno. Lle ceir enghreifftiau o gymharu, adolygu, dadansoddi, trafod neu werthuso enghreifftiau dethol yn fanwl, rhaid i'r rhain adeiladu ar hyd a lled y ddealltwriaeth oedd yn ofynnol yn ôl y diffiniad o'r testunau yn yr adran gynnwys.

Gellir cyflawni'r uned hon naill ai trwy gwblhau un aseiniad cyfannol a luniwyd i asesu'r holl feini prawf asesu ar lefel benodol, neu trwy gyflawni nifer o aseiniadau llai. Er mwyn dod i werthfawrogi effaith ffactorau cymdeithasol ar iechyd a llesiant, gall fod yn fuddiol defnyddio siaradwr gwadd, megis gweithiwr ieuencid, ymwelydd iechyd neu rywun o grŵp rhoi'r gorau i smygu. Bydd hefyd yn ddefnyddiol edrych ar ddemograffeg a sut gall gwahaniaethau lleol gael effaith ar iechyd ac afiechydon, yn enwedig yng nghyswllt dosbarth cymdeithasol, er nad oes rhaid i'r dysgwyr feddu ar ddealltwriaeth fanwl o ddata lleol neu genedlaethol.

Gellir asesu'r uned hon mewn sawl ffordd, a gallai droi o amgylch astudiaeth achos, neu ymdrin â sut gellid defnyddio dealltwriaeth o ffactorau cymdeithasol i archwilio ffyrdd o wrthweithio risgiau iechyd.

Gallai'r dystiolaeth ar gyfer yr uned hon gael ei chyflwyno mewn fformat ysgrifenedig neu ar ffurf cyflwyniad. Dylai tystiolaeth a roddir ar lafar gael ei recordio. Dylid cwblhau cofnodion arsylwi/datganiadau tystion manwl, a'u cadw er mwyn eu dilysu'n fewnol ac yn allanol. Argymhellir defnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu yn ystod y cymhwyster, er mwyn ennyn diddordeb y dysgwyr a'u symbylu.

Nod dysgu A

I gyflawni 2A.LI1, mae disgwyl i'r dysgwyr esbonio dylanwad cyfryngau cymdeithasoli cynradd ac eilaidd, megis y teulu agos a'r cyfryngau torfol.

I gyflawni 2A.LI2, bydd y dysgwyr yn gallu disgrifio'n fanwl effeithiau cymdeithasoli ar iechyd a llesiant unigolion. I gyflawni 2A.T1, disgwylir i'r dysgwyr fedru esbonio'r effeithiau hyn, gan ddefnyddio naill ai dwy enghraifft fanwl neu ystod ehangach o enghreifftiau darluniadol. Fel rhan o werthuso effaith cymdeithasoli yn 2A.Rh1, disgwylir i'r dysgwyr ddod i benderfyniad ynghylch pwysigrwydd y ffactorau hyn, gan ddefnyddio o leiaf dair enghraifft fanwl i gynnal eu dadl. Gall dysgwyr ddod i gasgliad ynghylch ai cymdeithasoli cynradd neu eilaidd oedd fwyaf dylanwadol ar yr unigolyn a astudiwyd, neu pa fath ar gymdeithasoli gafodd effaith oedd yn bennaf gadarnhaol neu negyddol.

Yn achos 1A.1, mae'n hanfodol bod y dysgwyr yn gallu nodi o leiaf ddau gyfrwng yn un ar gyfer cymdeithasoli cynradd ac eilaidd.

I gyflawni 1A.2, mae'n ofynnol i ddysgwyr amlinellu prif effeithiau cymdeithasoli ar iechyd a llesiant unigolion, o ran: ffurfio rolau rhywedd, agweddau, datblygiad normau a gwerthoedd cymdeithasol, dylanwad ar ddewisiadau ffordd o fyw.

Nod dysgu B

Yn achos 2B.LI3, dylai dysgwyr fedru disgrifio dylanwad perthnasoedd dethol, a fydd yn cynnwys dylanwad newidiadau mewn perthnasoedd. I gyflawni 2B.T2, bydd y dysgwyr yn medru esbonio gan ddefnyddio tystiolaeth (megis ymchwil o erthyglau yn y cyfryngau, neu grynodedau o adroddiadau gwyddonol/sy'n trafod iechyd) a rhoi rhesymau i gynnal y pwynt(iau) y maent yn eu gwneud. I gyflawni 2B.Rh2, bydd yn ofynnol i ddysgwyr gymharu dylanwadau negyddol a chadarnhaol perthnasoedd, gan gysylltu pob un ohonynt yn glir â'r effeithiau dilynol ar iechyd a llesiant yr unigolyn.

Yn achos 1B.3, gallai dysgwyr greu coeden deulu neu berthnasoedd ar gyfer eu haseiniad, gan amlinellu'r gwahanol fathau o berthnasoedd sy'n gallu effeithio ar iechyd a llesiant unigolyn.

Nod dysgu C

Yn achos 2C.LI4, bydd disgwyl i ddysgwyr ddisgrifio sut gall ffactorau megis incwm ac addysg effeithio ar iechyd a llesiant unigolion. Rhaid i'r dysgwyr ddisgrifio o leiaf bedwar ffactor a'u heffeithiau ar iechyd a llesiant. Yn achos 2C.T3, rhaid i'r dysgwyr esbonio effeithiau ehangach y ffactorau cymdeithasol hyn ar iechyd a llesiant cyffredinol unigolion, a chefnogi hynny ag enghraifft fanwl o'r effeithiau yn achos pob ffactor cymdeithasol. I gyflawni 2C.Rh3, bydd y dysgwyr yn gallu gwerthuso'r cysylltiad rhwng ffactorau cymdeithasol ac ystyried yr effaith ar iechyd a llesiant yr unigolyn. Dylid annog dysgwyr i werthuso'r effaith gyffredinol ar iechyd a llesiant unigolion, o ran eu llesiant corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol, yn hytrach na'u hiechyd corfforol neu eu llesiant cymdeithasol yn unig. Yn achos 2C.Rh3, bydd yr ymatebion yn asesiad mwy cynhwysfawr o'r pedwar maes dan sylw.

Yn achos 1C.4, mae angen i'r dysgwyr nodi effeithiau o leiaf bedwar ffactor cymdeithasol, megis incwm, addysg, teulu a'r cyfryngau torfol ar iechyd a llesiant unigolion.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 1A.2, 1B.3, 1C.4, 2A.LI1, 2A.LI2, 2A.T1, 2A.Rh1, 2B.LI3, 2B.T2, 2B.Rh2, 2C.LI4, 2C.T3, 2C.Rh3	Effaith Dylanwadau Cymdeithasol Heddiw ar Iechyd a Llesiant	<p>Mae staff y ganolfan gofal iechyd leol am geisio lleihau nifer y problemau iechyd y gellid eu hatal. Maen nhw wedi penderfynu cynyddu ymwybyddiaeth o effeithiau cadarnhaol a negyddol dylanwadau cymdeithasol ar iechyd a llesiant pobl.</p> <p>Maen nhw wedi gofyn i chi lunio cyfres o daflenni sy'n trafod cymeriadau dychmygol. Dylai'r taflenni gael eu llunio i ddangos i rieni beth allai ddylanwadu ar eu plant wrth iddyn nhw dyfu i fyny, ac effeithiau hynny ar eu hiechyd a'u llesiant. Dylai eich taflenni amlygu'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • effeithiau cymdeithasoli cynradd ac eilaidd a sut gallai'r rhain ddylanwadu ar werthoedd, agweddau, ymddygiad a dewisiadau ffordd o fyw, a sut gallai hynny yn ei dro effeithio ar iechyd a llesiant, gan gyfeirio at enghreifftiau perthnasol • dylanwadau gwahanol fathau o berthnasoedd a sut gall y rhain ddylanwadu mewn ffyrdd cadarnhaol a negyddol ar iechyd a llesiant unigolion • effaith amrywiaeth o wahanol ffactorau cymdeithasol a'u cysylltiad â iechyd a llesiant cyffredinol, gan gyfeirio at enghreifftiau perthnasol. 	<p>Taflenni.</p> <p>Adroddiad ysgrifenedig, sleidiau cyflwyniad, cyflwyniad llafar gyda nodiadau cyflwyno a chofnodion arsylwi wedi'u llofnodi.</p>

Uned 5: Hybu Iechyd a Llesiant

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Sut gallwn ni wella iechyd a llesiant y genedl? Beth yw manteision gwneud hynny?

Gall bod yn iach olygu gwahanol bethau i wahanol bobl. Mae modd atal llawer o anafiadau ac afiechydon os bydd pobl yn gwneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw ac yn gwybod sut i leihau risgiau i'w hiechyd.

Hybu iechyd yw'r maes iechyd sy'n cynyddu ymwybyddiaeth o'r materion hyn, ac sy'n addysgu pobl sut i fod yn iach. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys hybu defnydd o sgrinio a brechiadau i atal afiechydon, neu gynnal ymgyrchoedd a luniwyd i ddarparu gwybodaeth am ddewisiadau iach o ran ffordd o fyw.

Mae'r uned hon yn archwilio rhai o'r rhesymau pam mae gweithgareddau hybu iechyd yn cael eu cynnal, a manteision gwaith hybu iechyd i unigolion ac i iechyd a llesiant y genedl gyfan. Byddwch hefyd yn archwilio'r gwahanol fathau o weithgareddau hybu iechyd y mae gweithwyr gofal iechyd yn eu defnyddio.

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i chi archwilio ac ymchwilio i faes lle ceir risg i iechyd. Wedyn byddwch yn creu deunyddiau ar gyfer gweithgaredd hybu iechyd i grŵp targed penodedig. Mae llawer o wahanol faterion iechyd a llesiant y gallech ddymuno ymchwilio iddynt, ac yn aml bydd cysylltiad rhwng y rhain a'r dewisiadau ffordd o fyw mae pobl yn eu gwneud.

Mae gweithgareddau hybu iechyd yn rhan bwysig o nifer o rolau yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys ymwelwyr iechyd, bydwagedd, nyrsys ysgol a nyrsys mewn practisau Meddygon Teulu. Bydd ymchwilio i risg iechyd a ddewiswyd a llunio deunyddiau cysylltiedig ar gyfer gweithgaredd hybu iechyd yn rhoi dealltwriaeth werthfawr i chi o'r agwedd bwysig hon ar waith iechyd a gofal cymdeithasol.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

A archwilio pwrpas, mathau a manteision hybu iechyd

B ymchwilio i sut gellir ymdrin â risgiau iechyd trwy hybu iechyd.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
Nod dysgu A: Archwilio pwrpas, mathau a manteision hybu iechyd
<p>Testun A.1: Hybu iechyd</p> <p>Beth yw hybu iechyd?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu gwybodaeth ac addysg, i unigolion ac i'r genedl, a fydd yn eu galluogi i wneud dewisiadau cadarnhaol ynghylch eu ffordd o fyw er mwyn gwella eu hiechyd a'u llesiant. <p>Pwrpas a nodau hybu iechyd</p> <ul style="list-style-type: none"> • pwrpas – hyrwyddo syniadau a chysyniadau iach er mwyn cymell pobl i newid eu hymddygiad a mabwysiadu dewisiadau iach o ran ffordd o fyw, gyda'r bwriad o fod yn rhagweithiol wrth fynd i'r afael â heriau a materion cysylltiedig â iechyd • nodau gweithgareddau hybu iechyd, e.e. cynyddu ymwybyddiaeth o iechyd, annog diogelwch a lleihau damweiniau, lleihau nifer y bobl sy'n smygu, annog arferion bwyta iach, lleihau cymeriant alcohol. <p>Mathau gwahanol o hybu iechyd a gweithgareddau hybu iechyd</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyngor ar risgiau iechyd – cynyddu ymwybyddiaeth o faterion cysylltiedig â iechyd ac addysgu unigolion i'w galluogi i ddewis ffyrdd iach o fyw <ul style="list-style-type: none"> ○ mathau o gyngor ar risgiau iechyd, e.e. addysg cyfoedion, tacteg sioc, cyngor gan weithwyr iechyd proffesiynol, cyngor gan yr heddlu a'r gwasanaeth tân, tystiolaeth pobl sydd wedi dioddef effaith yn bersonol ○ enghreifftiau o gyngor, e.e. arferion rhywiol diogel, cynlluniau bwyta'n iach, cynlluniau ymarfer corff, ymwybyddiaeth o gyffuriau, yfed diogel, diogelwch ar y ffyrdd, diogelwch personol, iechyd wrth deithio, ymwybyddiaeth o ganser y croen. • ymgyrchoedd hybu iechyd – mentrau lleol neu genedlaethol sy'n targedu cynulleidfaoedd mawr gyda'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth o faterion cysylltiedig â iechyd <ul style="list-style-type: none"> ○ mathau o ymgyrchoedd hybu iechyd, e.e. ymgyrchoedd cenedlaethol yr Adran Iechyd, ymgyrchoedd cenedlaethol a lleol gan y GIG, defnyddio gwahanol gyfryngau torfol • ymyrraeth feddygol – megis sgrinio neu frechiadau sy'n cael eu defnyddio i leihau neu ddileu clefydau'n rhagweithiol <ul style="list-style-type: none"> ○ mathau o ymyrraeth feddygol, e.e. imiwneiddio plant, brechiadau (Feirws Papiloma Dynol (HPV), ffliw, niwmonia), sgrinio (canser serfigol, diabetes, canser y fron, canser y coluddyn).

Beth sydd angen ei ddysgu**Testun A.2 Manteision hybu iechyd i iechyd a llesiant yr unigolyn a'r genedl**

Yr unigolyn:

- gwell dealltwriaeth o faterion iechyd
- mwy o gyfrifoldeb am eu hiechyd eu hunain, e.e. deall dulliau diogel o godi pethau, arferion gwaith diogel
- risg lai o afiechyd/anaf
- gwell ansawdd bywyd
- oes ddisgwyliedig hwy
- newid mewn ymddygiad personol o ran arferion a dewisiadau ffordd o fyw, e.e. patrymau bwyta, patrymau yfed, lefel ymarfer corff, golchi dwylo, smygu, cymryd cyffuriau, arferion rhywiol, diogelwch ar y ffyrdd, delio gyda straen, defnyddio amddiffyniad rhag yr haul, osgoi dod i gysylltiad â phelydrau UV.

Y genedl:

- lefelau is o salwch ac afiechyd
- effaith ar lefelau troseddu, e.e. diogelwch ar y ffyrdd, llai o droseddau cysylltiedig â chyffuriau adloniant, llai o droseddau treisgar cysylltiedig ag alcohol
- mwy o bobl yn manteisio ar raglenni brechiadau a sgrinio
- ymdrin â phryderon iechyd a llesiant proffil uchel, e.e. smygu, yfed, heintiau a drosglwyddir drwy ryw (STIs), lefelau gordewdra, diogelwch ar y ffyrdd, iechyd y galon, iechyd meddwl, defnyddio cyffuriau adloniant
- llai o gost ariannol i'r GIG a'r llywodraeth, e.e. am driniaeth gysylltiedig â gordewdra, smygu, defnyddio alcohol, llai o gost i'r heddlu a'r gwasanaeth carcharau.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Ymchwilio i sut gellir ymdrin â risgiau i iechyd trwy hybu iechyd****Testun B.1 Targeddu risgiau iechyd dethol**

Bydd y dysgwyr yn dewis risg i iechyd, ac yn ymchwilio i brif effeithiau'r risg honno ar iechyd a llesiant unigolion. Byddant yn ystyried sut gellir ymdrin â'r risgiau hyn trwy hybu iechyd, ac yn gwerthuso'r gwahanol strategaethau y gellir eu defnyddio i ymdrin â'r risg iechyd a ddewiswyd. Byddant hefyd yn cynhyrchu deunyddiau priodol ar gyfer y gweithgaredd hybu iechyd, ac yn ei deilwra ar gyfer y grŵp targed.

- testunau hybu iechyd a'u heffeithiau cysylltiedig ar iechyd, e.e. camddefnyddio sylweddau, pyliau o yfed trwm, rhyw diogel, bwyta'n iach, smygu, diogelwch ar y ffyrdd, golchi dwylo, cymryd rhan mewn chwaraeon ac ymarfer corff
- ymchwil gan ddefnyddio gwahanol ffynonellau, e.e. gwefannau, llyfrau, papurau newydd/cylchgronau, taflenni, cyfnodolion, DVDs a rhaglenni teledu, yr Adran Iechyd, gweithwyr iechyd proffesiynol a defnyddwyr gwasanaeth
- casglu data i ddeall y testun iechyd, e.e. ystadegau (cenedlaethol, lleol), astudiaethau achos
- deunyddiau hybu iechyd, e.e. posteri, taflenni, gêmâu, cyflwyniadau, arddangosfeydd ar waliau
- grwpiau targed, e.e. plant, pobl ifanc, gweithwyr, clybiau chwaraeon neu gymdeithasol, mathau o ddefnyddwyr gwasanaeth
- deunyddiau hybu iechyd sy'n briodol ar gyfer y grŵp targed, e.e. iaith, delweddau, gweithgaredd, lleoliad yr arddangosfa, amseriad, moeseg, y math o gyfryngau, sut gellid addasu deunyddiau ar gyfer gwahanol grwpiau targed
- gwerthuso'r strategaeth – dulliau priodol ar gyfer y grŵp targed, llwyddiant ymgyrchoedd sydd eisoes yn bodoli.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Archwilio pwrpas, mathau a manteision hybu iechyd			
1A.1 Pennu'r hyn a olygir gan hybu iechyd, gan nodi pwrpas a nod(au) un gweithgaredd hybu iechyd.	2A.LI1 Disgrifio hybu iechyd a phwrpas a nodau tri gweithgaredd hybu iechyd gwahanol.		
1A.2 Amlinellu sut defnyddir hybu iechyd er budd unigolion.	2A.LI2 Disgrifio sut defnyddir gwahanol fathau o hybu iechyd er budd i iechyd a llesiant unigolion a'r genedl.	2A.T1 Trafod sut defnyddir gwahanol fathau o hybu iechyd er budd i iechyd a llesiant unigolion a'r genedl, gan ddefnyddio enghreifftiau dethol. *	2A.Rh1 Dadansoddi manteision gwahanol fathau o hybu iechyd i unigolion a'r genedl, gan ddefnyddio enghreifftiau dethol. *

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu B: Ymchwilio i sut gellir ymdrin â risgiau i iechyd trwy hybu iechyd			
1B.3 Nodi prif effeithiau'r risg i iechyd a ddewiswyd ar unigolion.	2B.LI3 Disgrifio'r risg i iechyd a ddewiswyd a'r prif effeithiau ar unigolion, gan ddefnyddio canfyddiadau ymchwil o wahanol ffynonellau. #	2B.T2 Esbonio sut mae'r risg i iechyd a ddewiswyd yn effeithio ar unigolion a sut gellir ymdrin â'r effeithiau hyn trwy hybu iechyd, gan ddefnyddio canfyddiadau ymchwil o wahanol fathau o ffynonellau. #	2B.Rh2 Gwerthuso'r strategaethau a ddefnyddiwyd i ymdrin â'r risg i iechyd a ddewiswyd, gan ddefnyddio canfyddiadau ymchwil. #
1B.4 Cynhyrchu deunyddiau ar gyfer gweithgaredd hybu iechyd, gyda chyfarwyddyd. * #	2B.LI4 Cynhyrchu deunyddiau priodol ar gyfer gweithgaredd hybu iechyd, gan ddisgrifio'r risg i iechyd a'r cyngor ar iechyd. * #	2B.T3 Cynhyrchu deunyddiau ar gyfer gweithgaredd hybu iechyd sydd wedi'i deilwra ar gyfer grŵp targed, gan ddisgrifio'r risg i iechyd a'r cyngor ar iechyd. * #	2B.Rh3 Gwneud argymhellion ar gyfer sut gellid addasu'r deunyddiau hybu iechyd ar gyfer grŵp targed gwahanol. * #

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnlol*.

Wrth gwblhau asesiadau, bydd angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o hierarchaeth y meini prawf asesu. Er enghraifft, oddi mewn i nod dysgu, mae meini prawf Lefel 2 Teilyngdod a Rhagoriaeth yn adeiladu'n uniongyrchol ar feini prawf Lefel 2 Llwyddo, ac yn cwmpasu'r dysgu a ddisgwylir yno. Lle ceir enghreifftiau o gymharu, adolygu, dadansoddi, trafod neu werthuso enghreifftiau dethol yn fanwl, rhaid i'r rhain adeiladu ar hyd a lled y ddealltwriaeth oedd yn ofynnol yn ôl y diffiniad o'r testunau yn yr adran gynnwys.

Gall aseiniadau'r uned hon ganolbwyntio ar un risg benodol i iechyd, y gall dysgwyr ei harchwilio'n fanwl, gan edrych ar y cyngor a roddir ynghylch y risg i iechyd a ffurf yr ymyrraeth feddygol. Gellir pennu risg i iechyd ar gyfer y dysgwr, neu gallai'r dysgwyr gael cyfle i ymchwilio i risg i iechyd y mae ganddynt ddiddordeb penodol mewn gwybod mwy amdani. Bydd rhoi dewis i'r dysgwyr yn eu galluogi i ymgysylltu'n fwy â'r aseiniad(au). Fel arall, gellid gosod aseiniadau ar gyfer y dysgwyr lle mae pob nod dysgu'n canolbwyntio ar risg wahanol i iechyd, fel eu bod yn cael persbectif ehangach, ac yn gallu cymharu'r ddwy.

Er y gall aseiniadau ganolbwyntio ar un neu ddwy risg benodol i iechyd, mae angen hefyd iddynt gyfeirio at ystod ehangach o risgiau i iechyd ac ymgyrchoedd cysylltiedig. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r dysgwyr gael cyflwyniad eang, cadarn i hybu iechyd, a fydd yn eu cynnal i symud ymlaen i lefel 3.

Argymhellir bod yr uned hon yn cael ei chyflwyno a'i hasesu mewn modd ymarferol, er mwyn ennyn diddordeb y dysgwyr a'u symbylu. Byddai siaradwyr gwadd megis ymwelwyr iechyd a defnyddwyr gwasanaeth yn helpu'r dysgwyr i werthfawrogi perthnasedd galwedigaethol yr uned hon. Ymhlith y dulliau asesu addas mae trafodaethau yn y dosbarth ynghylch risgiau i iechyd a manteision gweithgareddau hybu iechyd sy'n targedu'r risgiau. Dylai tystiolaeth a roddir ar lafar gael ei recordio, a dylid cwblhau cofnodion arsylwi/datganiadau tystion manwl, a'u cadw er mwyn eu dilysu'n fewnol ac yn allanol. Gallai'r dysgwyr hefyd greu posteri, taflenni neu gyfryngau eraill megis clipiau fideo neu recordiadau digidol, yn rhan o'r gweithgaredd hybu iechyd, gan ddefnyddio cyfrwng sy'n addas ar gyfer y grŵp targed.

Nod dysgu A

I gyflawni 2A.LI1, mae disgwyl i'r dysgwyr ddisgrifio beth yw ystyr hybu iechyd. Rhaid i'r dysgwyr ddewis tair enghraifft wahanol o weithgareddau hybu iechyd, neu gael rheiny wedi'u darparu ar eu cyfer. Dylent ddisgrifio pwrpas a nodau pob gweithgaredd. Dylai'r dysgwyr dethol enghreifftiau amrywiol o weithgareddau hybu iechyd a fydd yn eu galluogi i arddangos hyd a lled eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o bwrsasau a nodau'r gweithgareddau hynny.

Yn achos 2A.LI2, mae disgwyl i'r dysgwyr ddefnyddio manylion enghreifftiau go iawn o hybu iechyd, ac ystyried nid yn unig fanteision cyngor ar risgiau i iechyd, ymgyrchoedd hybu iechyd ac ymyriadau meddygol i unigolion, ond hefyd y manteision ehangach i'r genedl gyfan. Bydd dysgwyr yn cael cyfle i ddisgrifio gwahanol weithgareddau hybu iechyd ar gyfer un risg benodol i iechyd y mae

ganddynt ddiddordeb mewn ymchwilio iddi, neu edrych ar enghreifftiau o hybu iechyd yng nghyswllt gwahanol risgiau i iechyd. Mae'n ofynnol i'r dysgwyr ddisgrifio gwahanol fathau o weithgaredd hybu iechyd, a gallent ddefnyddio enghreifftiau lleol neu genedlaethol. I gyflawni 2A.T1, mae'n rhaid i'r dysgwyr ddefnyddio tystiolaeth i gynnal eu dadl, er enghraifft o erthyglau yn y cyfryngau a chrynodebau o adroddiadau iechyd. Rhaid i'r dysgwyr gyfeirio at fanteision ehangach hybu iechyd, megis y manteision economaidd a chymdeithasol. I gyflawni 2A.Rh1, rhaid i'r dysgwyr ddadansoddi'r manteision, trwy ystyried amrywiol fanteision hybu iechyd, yn ogystal â'r cysylltiadau rhwng manteision i unigolion ac i'r genedl. Rhaid i'r dysgwyr gyfeirio naill ai at ambell enghraifft fanwl, er enghraifft cyngor ar risg i iechyd ac ymyrraeth feddygol, neu at ystod ehangach o enghreifftiau darluniadol os ydynt wedi edrych ar wahanol weithgareddau hybu iechyd.

I gyflawni 1A.1, mae disgwyl i'r dysgwyr nodi beth a olygir gan hybu iechyd. Rhaid i'r dysgwyr ddedol un enghraifft o weithgaredd hybu iechyd, neu gael un wedi'i darparu ar eu cyfer, ac egluro ei bwrpas a'i nod(au).

Yn achos 1A.2, mae disgwyl i'r dysgwyr amlinellu sut defnyddir hybu iechyd er budd i unigolion. Bydd yr ymatebion yn canolbwyntio ar sut defnyddir hybu iechyd yn gyffredinol er budd unigolion (gyda phwyslais ar y manteision i unigolion).

Nod dysgu B

Mae'r nod dysgu hwn yn gofyn bod y dysgwyr naill ai'n derbyn risg i iechyd i ymchwilio iddi, neu eu bod yn dewis risg i iechyd i ymchwilio iddi. Gellid dewis yr un risg i iechyd y canolbwyntiwyd arni yn nod dysgu A, gan y byddai hynny'n galluogi'r dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth. I gyflawni 2B.L13, rhaid i'r dysgwyr fedru disgrifio'n fanwl effeithiau'r risg i iechyd, gan ddefnyddio canfyddiadau ymchwil o ddwy ffynhonnell wahanol o leiaf (gallai hyn gynnwys yr Adran Iechyd, gwefan y GIG, y Comisiwn Ansawdd Gofal, cyfnodolion proffesiynol, cyfryngau cenedlaethol neu leol, gweithwyr iechyd proffesiynol neu unigolion sydd â phrofiad o'r risg i iechyd). I gyflawni 2B.T2, rhaid i'r dysgwyr fedru esbonio'r effeithiau a sut gellir ymdrin â hwy, gan ddefnyddio gwybodaeth o ddau fath gwahanol o ffynhonnell o leiaf (e.e. y rhynggrwyd, erthyglau papur newydd, cyfnodolion, adroddiadau iechyd, gweithwyr proffesiynol ac unigolion ym maes gofal iechyd, llyfrau). I gyflawni 2B.Rh2, rhaid i'r dysgwyr werthuso'r strategaethau a ddefnyddiwyd i ymdrin â'r risg i iechyd, gan ddod i gasgliad ynghylch pa strategaeth oedd fwyaf llwyddiannus.

I gyflawni 2B.L14, mae'n ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu deunyddiau sy'n disgrifio'r risg i iechyd ac yn darparu cyngor. Gallai hyn fod ar ffurf taflen, neu gallai'r dysgwyr gydweithio i greu arddangosfa (gyda phob dysgwr yn cynhyrchu tystiolaeth unigol o'r deunydd(iau) a gynhyrchwyd ganddynt fel rhan o'r arddangosfa). Mae'n hanfodol bod deunydd hyrwyddo'r dysgwyr yn disgrifio'r risg i iechyd a'r cyngor yn ei chylch. Mae'r dysgwyr yn cael eu hasesu ar sail eu gallu i ddefnyddio deunydd hyrwyddo fel offeryn i amlygu risg benodol i iechyd a darparu cyngor priodol ar iechyd, ac nid am gynhyrchu deunyddiau wedi'u cyflwyno'n dda sy'n methu â chyflawni'r pwrpas hwn. I gyflawni 2B.T3, bydd y dysgwyr yn dewis cyfrwng a fydd yn addas ar gyfer eu grŵp targed. Mae'n hanfodol bod y dysgwyr yn dewis grŵp targed addas yng nghyswllt y risg i iechyd a ddewiswyd. Gallai'r dysgwyr lunio pecyn offer (drwy weithio'n unigol neu mewn grŵp) sy'n debyg i'r 'Pecyn Offer Ysgolion Iach'. I gyflawni 2B.Rh3, rhaid i'r dysgwyr fedru argymhell sut gellid addasu'r deunyddiau hyrwyddo ar gyfer grŵp targed gwahanol. I sicrhau pwyslais mwy galwedigaethol, gallai'r deunyddiau fod yn rhan o weithgaredd hybu iechyd, a allai fod yn un go iawn neu'n efelychiad. Wedyn gallai'r dysgwyr ddefnyddio'r profiad hwn i lywio eu hawgrymiadau ynghylch sut i'w addasu ar gyfer grŵp targed arall.

Mae'n bwysig nodi, er bod disgwyl i'r dysgwyr gynhyrchu deunyddiau ar gyfer gweithgaredd hybu iechyd, nad oes rhaid iddynt gyfranogi mewn gweithgaredd hybu iechyd na chynnal un i gyflawni'r meini prawf asesu.

I gyflawni 1B.3, bydd y dysgwyr yn nodi prif effeithiau'r risg benodol i iechyd a ddewiswyd ar iechyd corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol unigolion, ond ni fydd tystiolaeth o ymchwil annibynnol.

I gyflawni 1B.4, mae'n ofynnol i ddysgwyr gynhyrchu deunyddiau ar gyfer gweithgaredd hybu iechyd. Bydd hyn yn eitha elfennol ei natur, megis poster A3 a fydd yn amlinellu risg i iechyd ac yn rhoi peth cyngor.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 1A.2, 2A.LI1, 2A.LI2, 2A.T1, 2A.Rh1	Manteision Hybu Iechyd i Bobl Ifanc yn eu Harddegau	<p>Mae'r gwasanaeth ieuencid lleol wedi dechrau pryderu ynghylch iechyd pobl ifanc yn yr ardal. Maen nhw wedi cysylltu â'ch adran iechyd a gofal cymdeithasol i weld a ddylid cynnal ymgyrch hybu iechyd yn lleol.</p> <p>Dylech gynhyrchu erthygl neu adroddiad ar y risgiau iechyd mae pobl ifanc yn eu harddegau yn eu hwynebu. Rhaid i'r gwaith gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyflwyniad yn disgrifio beth yw ystyr hybu iechyd. Rhaid i chi gynnwys manylion tair risg wahanol i iechyd a all effeithio ar bobl ifanc yn eu harddegau, ac un gweithgaredd hybu iechyd sy'n gysylltiedig â phob risg i iechyd, gan ddisgrifio pwrpas a nodau pob gweithgaredd • esboniad ar risg i iechyd a ddewiswyd a sut mae'n effeithio ar bobl ifanc yn eu harddegau, gan nodi sut gellid ymdrin â'r effeithiau hyn trwy hybu iechyd • gwerthusiad o'r strategaethau a ddefnyddiwyd i ymdrin â'r risg i iechyd a ddewiswyd • dadansoddiad o fanteision hybu iechyd i bobl ifanc yn eu harddegau ac i'r genedl, gan ddefnyddio enghreifftiau dethol. 	<p>Adroddiad ysgrifenedig/erthygl.</p> <p>Sleidiau cyflwyniad, cyflwyniad llafar gyda nodiadau cyflwyno a chofnodion arsylwi wedi'u llofnodi.</p>

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
		<p>Gallai'r erthygl neu'r adroddiad gynnwys cyfeiriadau at ymgyrchoedd sy'n berthnasol i bobl ifanc yn eu harddegau yn eich ardal neu eich ysgol/coleg, er enghraifft bwyta'n iach i atal gordewdra, ymwybyddiaeth o gyffuriau i addysgu pobl ifanc ynghylch y peryglon, neu yfed diogel i atal salwch neu anaf. Yn eich adroddiad, dylech gynnwys ymchwil o wahanol fathau o ffynonellau.</p>	

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
<p>1B.3, 1B.4, 2B.LI3, 2B.LI4, 2B.T2, 2B.T3, 2B.Rh2, 2B.Rh3</p>	<p>Arddegau Iach</p>	<p>Yn dilyn eich adroddiad llwyddiannus, mae'r gwasanaeth ieuentid lleol wedi penderfynu cynnal ymgyrch hybu iechyd.</p> <p>Gofynnwyd i chi gynhyrchu deunyddiau y gellid eu cynnwys mewn pecyn, a fydd yn cael ei ddsbarthu mewn clybiau ieuentid, llyfrgelloedd a chanolfannau meddygol, fel rhan o'r ymgyrch hybu iechyd.</p> <p>Bydd angen i chi ymchwilio a chasglu gwybodaeth sydd eisoes yn bodoli ynghylch y risg i iechyd. Unwaith y bydd gennych wybodaeth berthnasol ynghylch y risg i iechyd, gallwch ei defnyddio i gynhyrchu deunyddiau ar gyfer ymgyrch iechyd. Mae angen i'r deunyddiau hyn ddisgrifio'r risg i iechyd a'r cyngor i bobl ifanc yn eu harddegau.</p> <p>Cyflwynwch yr wybodaeth i'ch cyfoedion, gan argymhell sut gallai'r deunyddiau hybu iechyd gael eu haddasu ar gyfer grŵp targed gwahanol.</p>	<p>Pecyn gwybodaeth yn cynnwys: poster, taflenni, llyfrynnau, arddangosfeydd ar gyfer waliau.</p> <p>Tystiolaeth gan dystion.</p>

Uned 6: Effaith Maeth ar Iechyd a Llesiant

Lefel: 1 a 2

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Ydych chi wedi ystyried effeithiau beth rydych chi'n ei fwyta ar eich iechyd a'ch llesiant?

Mae'r uned hon yn rhoi rhai atebion i chi, ac yn estyn eich dealltwriaeth o bwysigrwydd deiet cytbwys i'ch iechyd.

Yn yr uned hon byddwch yn archwilio ystyr deiet cytbwys ac effeithiau hynny ar y corff, er enghraifft o ran cynyddu imiwnedd i heintiau a gwella'r gallu i ganolbwyntio. Byddwch hefyd yn archwilio ystyr deiet anghytwbys a sut gallai hynny arwain at amrywiol fathau o afiechyd. Bydd yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth a gewch yn yr uned hon yn hanfodol ar gyfer gyrfa ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan y bydd yn eich helpu i gefnogi unigolion i wneud y dewisiadau cywir er mwyn gwella eu hiechyd a'u llesiant.

Yn yr uned hon, byddwch yn archwilio anghenion maethol unigolion ar wahanol gyfnodau yn eu bywydau. Byddwch hefyd yn dysgu mwy am y deietau penodol y mae eu hangen ar rai unigolion, er enghraifft os bydd ganddynt alergeddau neu anghenion deietegol eraill arbennig. Bydd yr uned hefyd yn eich galluogi i ddeall rhai o'r dewisiadau personol y gall unigolion eu ffafrio yng nghyswllt eu deiet. Byddwch yn cymhwyso'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth yma i greu cynlluniau maeth ar gyfer unigolion sydd ag anghenion deiet arbennig, a bydd hynny'n datblygu eich sgiliau cynllunio maeth.

Bydd yr uned hon nid yn unig yn helpu i'ch paratoi ar gyfer gyrfa ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ond hefyd yn cefnogi eich dewisiadau maethol eich hun, ac yn cyfrannu at eich iechyd a'ch llesiant chithau.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

A archwilio effeithiau deiet cytbwys ac anghytwbys ar iechyd a llesiant unigolion

B deall anghenion maeth penodol unigolion, a'r dewisiadau y maen nhw'n eu ffafrio.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
Nod dysgu A: Archwilio effeithiau deiet cytbwys ac anghytwys ar iechyd a llesiant unigolion
<p>Testun A.1: Cymeriant deietegol a grwpiau bwyd</p> <p>Elfennau deiet cytbwys, gan gynnwys tarddiad sylfaenol, swyddogaeth ac effeithiau pob un:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Maetholion hanfodol: <ul style="list-style-type: none"> ○ carbohydradau: syml (siwgrau), cymhleth (polysacaridau starts a di-starts [ffeibr]) ○ proteinau: yn deillio o anifeiliaid a phlanhigion ○ braster ac olew: braster anifeiliaid, olew llysiâu, olew pysgod ○ fitaminau: A, B (cymhleth), C, D, E a K ○ mwynau: calsiwm, haearn, sodiwm ○ dŵr ● ffynonellau sy'n defnyddio pum grŵp bwyd (cig, pysgod a dewisiadau amgen; ffrwythau a llysiâu; bara, grawnfwyd arall a thatws; llaeth a chynnyrch llaeth; teisenod a melysion) ● swyddogaethau grwpiau bwyd, e.e. twf, egni, cynnal swyddogaethau'r corff ● Cymeriant Dyddiol a Argymhellir (RDI). <p>Testun A.2: Effeithiau hirdymor deiet cytbwys ac anghytwys</p> <p>Effeithiau deiet cytbwys, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● imiwnedd uwch i heintiau ● lefelau egni uwch, mwy o allu i ganolbwyntio ● croen, meinwe a philen ludiog sy'n gwella'n gynt <p>Effeithiau deiet anghytwys, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ● camfaethiad: <ul style="list-style-type: none"> ○ gorfaethiad, yn cynnwys clefyd coronaidd y galon, gordewdra, diabetes math 2, strôc, magu pwysau ○ tanfaethiad, e.e. diffyg maetholynnau penodol, methu canolbwyntio, pwysigrwydd deiet amrywiol i lysieuwyr/feiniaid ● diffyg fitaminau <ul style="list-style-type: none"> ○ fitamin A, e.e. dallineb nos, amharu ar gynhaliaeth y croen, y bilen ludiog, a'u gallu i wella, heneiddio cyflymach ○ fitamin B, e.e. beriberi ○ fitamin C, e.e. y llwg (scurvy) ○ fitamin D, e.e. y llech (rickets), osteoporosis colli asgwrn, lefel calsiwm isel yn y gwaed, esgyrn bregus, amharu ar ffurfiad y dannedd ○ fitamin E, e.e. syrthni, difaterwch, gwendid yn y cyhyrau ○ fitamin K, e.e. amharu ar allu'r gwaed i geulo ● diffyg mwynau, e.e. calsiwm (amharu ar ffurfiad yr esgyrn a'r dannedd), haearn (anaemia) ● gormodedd o faetholion, e.e. pydredd yn y dannedd.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Deall anghenion maeth penodol unigolion a'r dewisiadau y maen nhw'n eu ffafrio****Testun B.1 Ffactorau sy'n dylanwadu ar ddeiet unigolion a'u hanghenion deietegol cysylltiedig:**

- crefydd a diwylliant, e.e. Hindwâeth, Iddewiaeth, Islam, Bwdhaeth
- rhesymau moesegol, e.e. llysiuwyd, feganiaid
- amgylchedd, e.e. gallu cyrchu a storio bwyd, lleoliad, hinsawdd
- ffactorau sosio-economaidd, e.e. costau, incwm, tueddiadau, teulu, dosbarth, pwysau cyfoedion, y cyfryngau
- dewisiadau personol a ffafrir
- salwch, e.e. effeithiau ar archwaeth, effeithiau ar ofynion deietegol
- cyflwr iechyd gwaelodol sy'n creu anghenion maeth penodol, e.e. alergeddau, anoddefedd lactos, clefyd Coeliac, Diabetes, Syndrom Coluddyn Llidus, Clefyd Crohn.

Testun B.2 Amrywiadau maethol yn ystod datblygiad cyfnodau bywyd

Cyfnodau bywyd:

- babandod 0–2 oed: bwydo ar y fron, bwydo â fformwla, diddyfnu
- plentyndod cynnar 3–8 oed: i gynnal twf ac anghenion egni uwch, osgoi ychwanegion a siwgwr
- glasoed 9–18 oed: i gynnal twf ac anghenion egni uwch
- oedolaeth gynnar a chanol 19–65: lefelau gweithgaredd, amrywiadau yn ôl galwedigaeth a ffordd o fyw, beichiogrwydd, mamau sy'n cynhyrchu llaeth
- oedolaeth hwyr 65+: lefelau gweithgaredd, ffordd o fyw, anghenion egni'n lleihau.

Testun B.3 Ystyriaethau wrth gynllunio maeth

Disgwylir i'r dysgwyr gymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gymeriant deietegol, effeithiau hirdymor deiet cytbwys ac anghytwys, ac anghenion maeth penodol a dewisiadau a ffafrir i greu cynlluniau maeth ar gyfer unigolion.

Ystyriaethau wrth gynllunio maeth:

- ffactorau sy'n dylanwadu ar ddeiet unigolion a'u hanghenion deietegol cysylltiedig (fel y rhestrir yn Nhestun B.1)
- cyfnod bywyd yr unigolyn a'r gofynion maethol cysylltiedig, e.e. babandod, plentyndod cynnar, glasoed, oedolaeth gynnar a chanol, oedolaeth hwyr.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Archwilio effeithiau deiet cytbwys ac anghytwys ar iechyd a llesiant unigolion			
1A.1 Nodi elfennau deiet cytbwys, gan roi enghreifftiau o bob un.	2A.LI1 Disgrifio elfennau deiet cytbwys, a'u swyddogaethau, eu tarddiad a'u heffeithiau.	2A.T1 Cymharu effeithiau deiet cytbwys ac anghytwys ar iechyd a llesiant dau unigolyn.	2A.Rh1 Asesu effeithiau hirdymor deiet cytbwys a deiet anghytwys ar iechyd a llesiant unigolion.
1A.2 Nodi tair effaith y mae deiet anghytwys yn eu cael ar iechyd a llesiant unigolion.	2A.LI2 Disgrifio effeithiau deiet anghytwys ar iechyd a llesiant unigolion, gan roi enghreifftiau o'u hachosion.		
Nod dysgu B: Deall anghenion maeth penodol unigolion a'r dewisiadau y maen nhw'n eu ffafrio			
1B.3 Nodi anghenion deiet penodol unigolyn.	2B.LI3 Disgrifio anghenion deiet penodol dau unigolyn ar wahanol gyfnodau yn eu bywyd.	2B.T2 Esbonio'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewisiadau deietegol dau unigolyn sydd ag anghenion deiet penodol ar wahanol gyfnodau yn eu bywyd.	2B.Rh2 Trafod sut mae ffactorau'n dylanwadu ar ddewisiadau deietegol dau unigolion sydd ag anghenion deiet penodol ar wahanol gyfnodau yn eu bywyd.
1B.4 Creu cynllun maeth ar gyfer unigolyn a ddewiswyd, gyda chyfarwyddyd. #	2B.LI4 Creu cynllun maeth ar gyfer dau unigolyn sydd ag anghenion maeth penodol gwahanol. #	2B.T3 Cymharu cynlluniau maeth ar gyfer dau unigolyn sydd ag anghenion maeth gwahanol.	

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

Wrth gwblhau asesiadau, bydd angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o hierarchaeth y meini prawf asesu. Er enghraifft, oddi mewn i nod dysgu, mae meini prawf Lefel 2 Teilyngdod a Rhagoriaeth yn adeiladu'n uniongyrchol ar feini prawf Lefel 2 Llwyddo, ac yn cwmpasu'r dysgu a ddisgwylir yno. Lle ceir enghreifftiau o gymharu, adolygu, dadansoddi, trafod neu werthuso enghreifftiau dethol yn fanwl, rhaid i'r rhain adeiladu ar hyd a lled y ddealltwriaeth oedd yn ofynnol yn ôl y diffiniad o'r testunau yn yr adran gynnwys.

Gellid defnyddio astudiaeth achos gyfannol i gyfuno'r holl themâu ar draws y nodau dysgu. Byddai hyn yn annog dull cyfannol o ymdrin ag asesu'r uned, ac yn cefnogi'r dysgwyr i gynnwys tystiolaeth a allai fodloni'r holl feini prawf. Er mwyn cyflawni'r graddau uwch, byddai'r dysgwyr yn darparu mwy o ddyfnder a manyldeb mewn elfennau o'r astudiaeth achos, yn hytrach na chwblhau tasgau ychwanegol.

Er mwyn ennyn diddordeb y dysgwyr a'u symbylu, argymhellir defnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu wrth asesu'r uned hon. Mae'n bwysig bod y dysgwyr yn gwerthfawrogi y gall materion sy'n ymwneud â maeth (fel llawer o feysydd eraill sy'n ymwneud â iechyd a gofal cymdeithasol) fod yn bwnc emosiynol, ac y dylid ymdrin ag ef mewn modd sensitif. Yn unol â'r egwyddorion moesegol a ddefnyddir ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, dylid newid enwau, a sicrhau caniatâd ysgrifenedig i ddefnyddio gwybodaeth lle bo hynny'n briodol.

Nod dysgu A

Gallai'r asesiad ar gyfer nod dysgu A ofyn bod y dysgwyr yn cyflwyno gwybodaeth i unigolion sy'n mynychu canolfan gymunedol yn ardal gartref y dysgwyr.

Yn achos 2A.L11, mae angen i'r dysgwyr ddisgrifio elfennau deiet cytbwys, er enghraifft carbohydradau, eu swyddogaethau, o ble y deuant (e.e. bara, pasta), a'u prif effeithiau. Gellid darparu tystiolaeth o hyn ar ffurf tabl mewn taflen lawn gwybodaeth, i helpu i hysbysu eraill ynghylch yr elfennau hyn a phwysigrwydd deiet cytbwys. Bydd manylu ar effeithiau deiet anghytwys, a rhoi enghreifftiau o'u hachosion yn y daflen, yn galluogi'r dysgwyr i gyflawni 2A.L12 yn ogystal.

Er mwyn cyflawni 2A.T1, byddai'r dysgwyr ar eu hennill petai'r ganolfan yn darparu astudiaethau achos, fel bod modd iddynt gymharu effeithiau deiet cytbwys ac anghytwys ar iechyd a llesiant dau unigolyn: un unigolyn ar gyfer pob un o'r ddau fath o ddeiet. Gallai'r asesu fod ar ffurf taflen neu lyfryn. Gellid estyn hyn i gynnwys asesiad o effeithiau hirdymor deiet cytbwys neu anghytwys.

Yn achos 1A.1, gofynnir i'r dysgwyr nodi elfennau deiet cytbwys, a dylent roi enghreifftiau o bob un ohonynt. Gellid gwneud hyn ar ffurf taflen neu lyfryn sy'n hysbysu unigolion ynghylch elfennau deiet cytbwys ac anghytwys. Wrth archwilio deiet anghytwys, rhaid i'r dysgwyr nodi tair o effeithiau deiet anghytwys ar iechyd a llesiant unigolyn (1A.2).

Nod dysgu B

Gellid asesu nod dysgu B ar sail astudiaethau achos a roddwyd i'r dysgwyr. Gellid tynnu'r astudiaethau hynny o gylchgrawn iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol. YouTube, BBC Learning Zone Class Clips neu bapurau newydd cyfoes. Fel arall, gallai'r dysgwyr seilio'r dystiolaeth arnynt eu hunain ac ar aelod o'u teulu. Dylai'r ddau unigolyn fod mewn cyfnodau bywyd gwahanol, a meddu ar ofynion maeth gwahanol.

Yn unol ag egwyddorion moesegol iechyd a gofal cymdeithasol, dylid cyflwyno caniatâd ysgrifenedig i ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd gan aelodau'r teulu ochr yn ochr â gwaith y dysgwyr. Dylid newid pob enw.

Mae nod dysgu B yn edrych ar anghenion maeth penodol unigolion a'r dewisiadau a ffafrir ganddynt. Er y bydd angen i'r dysgwyr ddisgrifio anghenion penodol dau unigolyn i fodloni 2B.LI3, dylent ddatblygu hyn ymhellach ar gyfer 2B.T2 drwy esbonio pa ffactorau y gallai fod angen eu cymryd i ystyriaeth, er enghraifft, y bwyd sydd ar gael, cyllideb, diwylliant neu grefydd. Yn achos 2B.Rh2, gallai'r drafodaeth ar y ffactorau hyn gynnwys archwilio eu heffeithiau ar ddau unigolyn sydd ag anghenion maeth penodol. Er enghraifft, sut gall cyllideb gyfyngedig ar gyfer bwyd leihau dewisiadau unigolyn, sut gallai hyn effeithio ar eu dewisiadau, a sut gallai'r unigolyn oresgyn unrhyw anawsterau. Mae'n hanfodol bod unrhyw astudiaeth achos y mae'r ganolfan yn ei darparu i'r dysgwyr yn darparu digon o fanylion am y ffactorau sy'n effeithio ar anghenion maeth penodol unigolion.

I gyflawni 2B.LI4, mae'n rhaid i'r dysgwyr greu cynllun maeth ar gyfer dau unigolyn sydd ag anghenion maeth penodol ar wahanol gyfnodau yn eu bywydau, megis baban a pherson ifanc (gall hyn ddilyn ymlaen yn naturiol o 2B.LI3, lle bydd eu hanghenion deiet penodol wedi cael eu disgrifio). Bydd angen i'r dysgwyr gymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gymeriant deietegol, effeithiau hirdymor deiet cytbwys ac anghytwys, ac anghenion maeth penodol y ddau unigolyn, a'r dewisiadau a ffafrir ganddynt, i greu cynlluniau maeth priodol ar gyfer y ddau unigolyn. Bydd 2B.T3 yn galw am estyn hyn i gymharu eu cynlluniau maeth gwahanol.

Yn achos 1B.3, mae'n ofynnol i'r dysgwyr nodi anghenion deietegol unigolyn, ac yn achos 1B.4, mae'n ofynnol i'r dysgwyr greu cynllun maeth ar gyfer unigolyn penodol. Yn wahanol i Lefel 2, ni fydd disgwyl i'r dysgwyr greu cynlluniau maeth ar gyfer unigolion sydd ag anghenion maeth penodol gwahanol.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 1A.2, 2A.LI1, 2A.LI2, 2A.T1, 2A.Rh1, 1B.3, 2B.LI3, 2B.T2, 2B.Rh2	Effaith Deiet Cytbwys ac Anghytwys ar Iechyd a Llesiant	<p>Rydych yn gweithio mewn practis Meddyg Teulu ochr yn ochr â Nyrs y Practis, sydd wedi gofyn i chi roi sylw i sut gellir cefnogi dau ddefnyddiwr gwasanaeth (person ifanc yn yr arddegau a dyn hŷn sydd wedi ymddeol yn ddiweddar) i wella'u deiet. Mae ganddyn nhw anghenion maethol gwahanol oherwydd salwch ac alergeddau, ac mae'r Meddyg Teulu wedi'u cyfeirio at y nyrs i gael rhagor o gyngor a gwybodaeth ynghylch eu deiet. Gofynnwyd i chi edrych ar ddeiet y defnyddwyr gwasanaeth gyda nhw, a llunio llyfryn y gallan nhw gyfeirio ato wedyn. Ar ôl dangos y llyfryn i'r nyrs a'r Meddyg Teulu yn y practis, byddwch yn cyflwyno'r wybodaeth i'r defnyddwyr gwasanaeth.</p> <p>Dylech wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • disgrifio wrth y defnyddwyr gwasanaeth beth yw elfennau deiet cytwys, eu swyddogaethau a'u tarddiad • esbonio a dadansoddi effeithiau posibl agweddau iach ac afiach ar ddeiet y defnyddwyr gwasanaeth ar eu hiechyd a'u llesiant • disgrifio'u hanghenion deiet penodol, gan drafod sut mae ffactorau'n dylanwadu ar eu dewisiadau deietegol, e.e. cost, cyfleustra, crefydd neu ddewisiadau personol. 	<p>Llyfryn ysgrifenedig.</p> <p>Gallai'r dystiolaeth gynnwys: chwarae rôl a chofnodion arsylwi wedi'u llofnodi, recordiadau digidol, ffotograffau wedi'u hanodi.</p>

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1B.4, 2B.LI4, 2B.T3	Anghenion Maeth Unigolion	<p>Mae'r ddau ddefnyddiwr gwasanaeth y buoch chi'n cwrdd â nhw wedi gofyn i chi greu cynllun maeth ar eu cyfer, yn amlinellu eu hanghenion penodol.</p> <p>Lluniwch y cynlluniau maeth yn unol â'r cais, a dangoswch nhw i'r nyrs a'r Meddyg Teulu yn y practis, er mwyn iddyn nhw eu cymeradwyo. Dylech roi sylw i'r gwahanol gyfnodau bywyd a'r anghenion deiet penodol.</p>	<p>Cynlluniau maeth ysgrifenedig.</p> <p>Gallai'r dystiolaeth gynnwys: sleidiau cyflwyniad, adroddiad ysgrifenedig.</p>

Uned 7: Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Rydym ni'n byw mewn cymdeithas amlddiwylliannol, ac mae gan unigolion anghenion amrywiol. Mae'n bwysig bod pob unigolyn yn cael mynediad cyfartal i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a bod modd diwallu eu hanghenion amrywiol.

Yn yr uned hon byddwch yn archwilio pwysigrwydd arfer nad yw'n camwahaniaethu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol trwy edrych ar beth yw arfer camwahaniaethol ac arfer nad yw'n camwahaniaethu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, ac effaith y ddau fath o arfer yng nghyswllt defnyddwyr gwasanaeth a'r rhai sy'n gweithio yn y sector.

Byddwch hefyd yn archwilio sut gall arferion iechyd a gofal cymdeithasol hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan edrych ar ffyrdd o addasu gwasanaethau i ddiwallu anghenion amrywiol unigolion a manteision hynny i ddefnyddwyr gwasanaeth.

Wrth weithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol byddwch yn cwrdd â phobl sy'n edrych ac yn swnio'n wahanol i chi, ac sy'n dod o gefndir cwbl wahanol i chi. Bydd yr uned hon yn rhoi cyfle i chi archwilio rhai o anghenion amrywiol defnyddwyr gwasanaeth y gallech ddod ar eu traws wrth weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A deall pwysigrwydd arfer nad yw'n camwahaniaethu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- B archwilio sut gall arferion iechyd a gofal cymdeithasol hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
Nod dysgu A: Deall pwysigrwydd arfer nad yw'n camwahaniaethu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
<p>Testun A.1: Arfer camwahaniaethol ac nad yw'n camwahaniaethu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol</p> <ul style="list-style-type: none"> • diffiniad o arfer nad yw'n camwahaniaethu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol: peidio â thrin rhai unigolion neu grwpiau'n llai teg nag eraill, gosod gwerth ar amrywiaeth, addasu gofal i ymateb i anghenion amrywiol • enghreifftiau o gamwahaniaethu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, e.e. rhagfarn, stereoteipio, labelu, gwrthod triniaeth feddygol, cynnig triniaeth neu ofal amhriodol, rhoi llai o amser nag sydd ei angen wrth ofalu am unigolyn • enghreifftiau o arfer nad yw'n camwahaniaethu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, e.e. darparu iechyd a gofal cymdeithasol priodol i ddiwallu anghenion unigolion, addasu gofal i ddiwallu anghenion amrywiol gwahanol unigolion, darparu mynediad cyfartal i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. <p>Testun A.2: Effaith arfer camwahaniaethol ac nad yw'n camwahaniaethu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol</p> <ul style="list-style-type: none"> • effeithiau camwahaniaethu ar ddefnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys colli hunan-barch, straen, amharoddrwydd i geisio cefnogaeth a thriniaeth, effaith ar amserau aros i wahanol grwpiau • arfer nad yw'n camwahaniaethu wrth ddiwallu anghenion amrywiol unigolion • pwysigrwydd cyflawni gofynion cyfreithiol a gofynion y gweithle, gan gynnwys cadw at y deddfwriaeth gyfredol a pherthnasol, e.e. Deddf Cydraddoldeb (2010) • pwysigrwydd dilyn codau ymarfer cenedlaethol a rhai'r gweithle ar arfer nad yw'n camwahaniaethu, e.e. gan y corff rheoliadol perthnasol (y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol, Cyngor Gofal Cymru, Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon) • sut mae deddfwriaeth a chodau ymarfer yn cefnogi arfer nad yw'n camwahaniaethu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, e.e. sut mae'r fframwaith cyfreithiol yn amddiffyn y gofalwr a'r defnyddiwr gwasanaeth, gorfodi arferion nad ydynt yn camwahaniaethu, cyfrifoldebau'r cyflogwr a'r cyflogai, awydd i osgoi achos cyfreithiol/dadgofrestru, diogelu.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Archwilio sut gall arferion iechyd a gofal cymdeithasol hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth**

Rhaid i'r dysgwyr ystyried sut gall y ffactorau a restrir isod effeithio ar anghenion amrywiol defnyddwyr gwasanaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Testun B.1 Ffactorau a all effeithio ar anghenion gofal unigolion

- rhywedd – cydnabod dewisiadau personol, e.e. wardiau un rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol – parch at gyfeiriadedd rhywiol
- ailbennu rhywedd – cael parchu dewis rhywedd, defnyddio dulliau cyfarch cywir
- oed – defnyddio iaith briodol, dulliau cyfarch cywir
- anabled, e.e. mynediad cyfartal i wasanaethau
- priodas a phartneriaeth sifil, e.e. parch at ddewis y defnyddiwr gwasanaeth ynghylch ymwneud partneriaid neu'r teulu â'u gofal
- beichiogrwydd a mamolaeth, e.e. dewis cynllun geni, partner rhoi genedigaeth, gofal cyn geni, bwydo ar y fron
- hil – mynediad cyfartal i wasanaeth, beth bynnag yw tarddiad ethnig neu genedlaethol pobl
- crefydd a chred – gwahanol anghenion sy'n ymwneud â chredoau ac arferion unigolion o ystod o wahanol grwpiau crefyddol a seciwlar
 - grwpiau crefyddol, e.e. Cristnogaeth, Islam, Iddewiaeth, Hindwâeth, Bwdhaeth – credoau, gwyliau a diwrnodau sanctaidd, bwyd a deiet, ffyrdd o addoli, gwisg, symbolau, iechyd/credoau meddygol
 - grwpiau seciwlar, e.e. dyneiddiaeth, anffyddiaeth – parch at gredoau seciwlar
- dosbarth cymdeithasol – mynediad cyfartal i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, beth bynnag yw dosbarth cymdeithasol pobl
- strwythur y teulu – effaith strwythur y teulu ar anghenion gofal, e.e. unig riant, niwclear, estynedig, dim teulu
- lleoliad daearyddol – mynediad cyfartal i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, e.e. mewn ardaloedd gwledig, mewn ardaloedd trefol

Testun B.2 Sut mae addasu gwasanaethau i ddiwallu anghenion amrywiol defnyddwyr gwasanaeth yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

Rhaid i'r dysgwyr fedru uniaethu â sut gellir addasu gwasanaethau i ddiwallu anghenion amrywiol defnyddwyr gwasanaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan eu cysylltu â'r categorïau yn Nhestun B.1.

- addasiadau i wasanaethau er mwyn diwallu anghenion amrywiol defnyddwyr gwasanaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, e.e. mynediad i wasanaethau, darparu cefnogaeth, gofynion deietegol, darparu gofal personol, darparu cyfleusterau gweddio, mynediad at gyfleusterau ymolchi a thŷ bach, cadw defodau crefyddol, trefniadau ymweld, darparu dull person-ganolog, gofalwyr o'r un rhyw, darparu cyfle a lleoedd i addoli, wardiau cymysg, gwyliau a diwrnodau sanctaidd, ymwybyddiaeth o arferion gwisg/dillad, lefel y gwasanaeth a ddarperir, darparu llety addas ar gyfer cyplau, cynnwys partneriaid mewn cynlluniau gofal, hawl i gael eiriolwr annibynnol, defnyddio iaith briodol, defnyddio dulliau cyfarch priodol, cydnabod dewisiadau personol a ffafrir, parchu dewisiadau personol
- manteision addasu gwasanaethau o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys cael eu parchu, eu trin yn gyfartal, peidio â dioddef camwahaniaethu, cynnal urddas/preifatrwydd, teimlo'n ddiogel, gwell ansawdd gofal, gofal wedi'i bersonoli, hygyrchedd gofal.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Deall pwysigrwydd arfer nad yw'n camwahaniaethu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol			
1A.1 Diffinio arfer nad yw'n camwahaniaethu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio dwy enghraifft.	2A.LI1 Disgrifio arfer nad yw'n camwahaniaethu ac arfer camwahaniaethol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio enghreifftiau.	2A.T1 Esbonio pwysigrwydd deddfwriaeth a chodau ymarfer wrth hybu arfer nad yw'n camwahaniaethu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio enghreifftiau.	2A.Rh1 Asesu effaith arfer camwahaniaethol o ran gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, gan gyfeirio at enghreifftiau dethol.
1A.2 Nodi sut mae un côd ymarfer neu ddarn o ddeddfwriaeth yn hybu arfer nad yw'n camwahaniaethu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.	2A.LI2 Disgrifio sut mae codau ymarfer a deddfwriaeth yn hybu arfer nad yw'n camwahaniaethu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu B: Archwilio sut gall arferion iechyd a gofal cymdeithasol hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth			
1B.3 Nodi gwahanol anghenion unigolion yng nghyswllt darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol.	2B.LI3 Disgrifio gwahanol anghenion defnyddwyr gwasanaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gyfeirio at enghreifftiau.		
1B.4 Nodi ffyrdd o addasu darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn diwallu anghenion amrywiol unigolyn dethol.	2B.LI4 Disgrifio sut gellir addasu darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol i ddiwallu anghenion amrywiol gwahanol unigolion, gan gyfeirio at enghreifftiau.	2B.T2 Esbonio manteision addasu darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol i ddiwallu anghenion amrywiol gwahanol unigolion, gan gyfeirio at ddwy enghraifft ddethol.	2B.Rh2 Asesu effeithiolrwydd darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol i wahanol unigolion sydd ag anghenion amrywiol, gan gyfeirio at ddwy enghraifft ddethol.

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

Wrth gwblhau asesiadau, bydd angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o hierarchaeth y meini prawf asesu. Er enghraifft, oddi mewn i nod dysgu, mae meini prawf Lefel 2 Teilyngdod a Rhagoriaeth yn adeiladu'n uniongyrchol ar feini prawf Lefel 2 Llwyddo, ac yn cwmpasu'r dysgu a ddisgwylir yno. Lle ceir enghreifftiau o gymharu, adolygu, dadansoddi, trafod neu werthuso enghreifftiau dethol yn fanwl, rhaid i'r rhain adeiladu ar hyd a lled y ddealltwriaeth oedd yn ofynnol yn ôl y diffiniad o'r testunau yn yr adran gynnwys.

Mae trafodaeth yn y dosbarth yn werthfawr ar gyfer yr uned hon, a gall profiadau unigol a'r cyfryngau fod yn ffynhonnell ddefnyddiol o ddeunydd a fydd yn annog syniadau a thrafodaeth. Gallai ymweliadau â sefydliadau perthnasol neu gan siaradwyr gwadd helpu i roi sail i'r dysgwyr ar gyfer eu haseiniadau a'u galluogi i ddod i ddeall gwahanol anghenion unigolion mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Gallai'r siaradwyr posibl gynnwys defnyddwyr gwasanaeth sydd ag anghenion amrywiol yn trafod profiadau bywyd go iawn, arweinwyr crefyddol lleol, cynrychiolwyr o grwpiau anabled a gofalwyr, a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

Gellid cyflawni'r uned naill ai trwy un aseiniad cyfannol a luniwyd i asesu'r holl feini prawf asesu ar lefel benodol, neu trwy nifer o aseiniadau llai. Er enghraifft, gallai'r dysgwyr gynhyrchu llawlyfr neu gyflwyniad/arddangosfa yn hysbysu eraill, megis defnyddwyr gwasanaeth, am gydraddoldeb ac amrywiaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Rhaid i aseiniadau dysgwyr gael eu seilio ar enghreifftiau o wahanol leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn galluogi'r dysgwyr i arddangos dealltwriaeth o anghenion amrywiol gwahanol fathau o ddefnyddwyr gwasanaeth. Nid oes rhaid cyflwyno aseiniadau mewn fformat ysgrifenedig. Gallai'r dysgwyr, er enghraifft, roi cyflwyniad llafar. Dylid recordio unrhyw dystiolaeth a gyflwynir ar lafar. Dylid cwblhau cofnodion arsylwi manwl/datganiadau tystion a'u cadw ar gyfer dilysu mewnol ac allanol.

Nod dysgu A

I gyflawni 2A.LI1, bydd disgwyl i'r dysgwyr ddisgrifio arferion camwahaniaethol a rhai nad ydynt yn camwahaniaethu, a rhoi enghreifftiau o arferion nad ydynt yn camwahaniaethu neu rai camwahaniaethol yn achos tri o'r categorïau (a restrir yng nghynnwys yr uned) i ddangos eu dealltwriaeth. I gyflawni 2A.LI2, bydd y dysgwyr yn disgrifio o leiaf ddau gôd ymarfer ac yn gallu disgrifio ym mha ffyrdd mae'r rhain yn hybu arfer nad yw'n camwahaniaethu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd angen i'r dysgwyr fedru cyrchu codau ymarfer cyfredol a pherthnasol, sy'n berthnasol i ymarferwyr gofal cymdeithasol neu iechyd. Fodd bynnag, ar Lefel 2, nid oes disgwyl i'r dysgwyr fod yn gyfarwydd â manylion cymhleth codau ymarfer ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

I gyflawni 2A.T1, bydd angen i'r dysgwyr estyn y gwaith hwn i esbonio pwysigrwydd arfer nad yw'n camwahaniaethu i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, gan gyfeirio at o leiaf ddwy enghraifft berthnasol. Rhaid i hyn gynnwys cyfeiriad at ddeddfwriaeth a chodau ymarfer cyfredol a pherthnasol, a sut maent yn hybu arfer nad yw'n camwahaniaethu. Gallai'r enghreifftiau hyn fod naill ai'n achosion o arfer nad yw'n camwahaniaethu, neu'n arferion camwahaniaethol, gan amlygu'r manteision neu'r canlyniadau negyddol o ganlyniad iddynt.

I gyflawni 2A.Rh1, gallai'r dysgwyr ddefnyddio dwy enghraifft i ddarparu asesiad o effaith arfer camwahaniaethol o ran gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.

I gyflawni 1A.1, rhaid i'r dysgwyr ddiffinio arfer nad yw'n camwahaniaethu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio dwy enghraifft. Yn achos 1A.2, rhaid i'r dysgwyr nodi sut mae un côd ymarfer neu ddarn o ddeddfwriaeth yn hybu arfer nad yw'n camwahaniaethu. Nid oes disgwyl i ddysgwyr Lefel 1 fod yn gyfarwydd â manylion codau ymarfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Nod dysgu B

I gyflawni 2B.LI3, bydd disgwyl i'r dysgwyr roi disgrifiad clir o'r anghenion unigol posibl sy'n gysylltiedig â'r holl ffactorau a restrir yng nghynnwys yr uned (er enghraifft rhywedd), gan ddefnyddio o leiaf un enghraifft ar gyfer pob categori o anghenion amrywiol. Dylai'r enghreifftiau hyn ddod o amrywiaeth o leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, fel bod y dysgwyr yn gallu dod i ddeall yr ystod eang o anghenion amrywiol sydd gan wahanol fathau o ddefnyddwyr gwasanaeth.

I gyflawni 2B.LI4, rhaid i'r dysgwyr fynd ymlaen i ddisgrifio beth gall staff/leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol ei wneud i addasu'r gwasanaethau a ddarperir. Defnyddir enghreifftiau i gefnogi'r disgrifiad. Gallai'r dysgwyr naill ai ddarparu enghraifft fer ar gyfer pob categori neu gyfeirio at ambell enghraifft fanwl.

I gyflawni 2B.T2, bydd y dysgwyr yn esbonio manteision addasu darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol i ddiwallu anghenion amrywiol, gan gyfeirio at ddau unigolyn sydd â gwahanol anghenion y mae'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth.

I gyflawni 2B.Rh2, rhaid i'r dysgwyr estyn y gwaith hwn i asesu effeithiolrwydd darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol i unigolion sydd ag anghenion amrywiol (yn unol â diffiniad y categorïau a restrwyd yng nghynnwys yr uned), gan ddod i benderfyniad a oedd yn gyffredinol briodol a digonol.

I gyflawni 1B.3, bydd disgwyl i'r dysgwyr adnabod gwahanol anghenion defnyddwyr gwasanaeth a nodi ym mha ffyrdd y gellir addasu darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol i ddiwallu anghenion amrywiol un unigolyn penodol (1B.4).

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n eu darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 1A.2, 2A.LI1, 2A.LI2, 2A.T1, 2A.Rh1	Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol	<p>Rydych wedi cael cais i helpu i gynhyrchu deunyddiau ar gyfer rhaglen sefydlu i gynorthwyr gofal newydd yng Nghartref Gofal Buttercup. Daw'r trigolion o groestoriad eang o'r gymdeithas.</p> <p>Dylech gynhyrchu pennod ar gyfer llawlyfr sefydlu i'r staff i'w cefnogi i ddeall pwysigrwydd arfer nad yw'n camwahaniaethu a sut mae codau ymarfer a deddfwriaeth yn gwella ymarfer gofal ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn eich llawlyfr, mae angen i chi gynnwys y canlynol, gan gyfeirio at enghreifftiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • disgrifiad o arfer nad yw'n camwahaniaethu ac arfer camwahaniaethol • disgrifiad o sut mae codau ymarfer a deddfwriaeth gyfredol a pherthnasol yn hybu arfer nad yw'n camwahaniaethu, gan egluro eu pwysigrwydd o ran hybu arfer nad yw'n camwahaniaethu • asesiad o effaith bosibl arfer camwahaniaethol o ran gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. 	Pennod o lawlyfr sefydlu

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
<p>1B.3, 1B.4, 2B.LI3, 2B.LI4, 2B.T2, 2B.Rh2.</p>	<p>Diwallu Anghenion Amrywiol Defnyddwyr Gwasanaeth ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol</p>	<p>Mae cwpl o'r cynorthwywyr gofal newydd yng Nghartref Gofal Buttercup wedi darllen y bennod y gwnaethoch chi ei chynhyrchu ar gyfer y llawlyfr. Maen nhw'n gofyn i chi sut gellir addasu darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol i ddiwallu anghenion amrywiol y trigolion y maen nhw'n gofalu amdanynt.</p> <p>Gofynnwyd i chi gyflwyno syniadau i helpu'r ddau gynorthwy-ydd gofal newydd i ofalu am ddau ddefnyddiwr gwasanaeth. Bydd angen i chi ddisgrifio anghenion amrywiol y defnyddwyr gwasanaeth a sut gellid addasu darpariaeth y gwasanaeth i ddiwallu'r anghenion hyn.</p> <p>Gofynnwyd i chi esbonio sut bydd eich syniadau arfaethedig ynghylch addasu gwasanaethau o fudd i'r defnyddwyr gwasanaeth. Mae angen i chi asesu pa mor effeithiol mae'r newidiadau arfaethedig hyn yn debygol o fod o ran diwallu eu hanghenion amrywiol.</p>	<p>Senario chwarae rôl. Cofnod arsylwi wedi'i lofnodi. Nodiadau/sleidiau cyflwyniad. Gallai'r dystiolaeth gynnwys: tystiolaeth wedi'i llofnodi gan dystion, recordiadau digidol.</p>

Uned 8: Hawliau Unigolion ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lefel: 1 a 2

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Pa hawliau sydd gennych chi fel unigolyn? Oes gennym ni i gyd yr un hawliau? Pa hawliau sydd gan ddefnyddwyr gwasanaeth? Oes gan bobl sydd mewn gofal yr un hawliau â chi?

Mae'r uned hon yn ymchwilio i hawliau unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys yr hawl i gael eu parchu, yr hawl i gael triniaeth gyfartal a theg, a'r hawl i beidio â dioddef camwahaniaethu yn eu herbyn.

Mae'r uned hefyd yn ystyried cyfrifoldebau cyflogwyr a chyflogeion i gynnal hawliau defnyddwyr gwasanaeth, a sut mae'r cyfrifoldebau hyn yn effeithio ar hawliau defnyddwyr unigol.

Mae gwelliannau diweddar o ran deddfwriaeth a chodau ymarfer wedi llywio arfer iechyd a gofal cymdeithasol, er budd i ddefnyddwyr gwasanaeth. Yn yr uned hon byddwch yn archwilio'r gwelliannau hyn, a sut maen nhw'n effeithio ar gyflwyno iechyd a gofal cymdeithasol.

Trwy gwblhau'r uned hon, byddwch yn cael cipolwg ar sut mae hawliau unigolion yn sail ar gyfer holl arfer iechyd a gofal cymdeithasol.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

A ymchwilio i hawliau unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

B archwilio cyfrifoldebau cyflogwyr a chyflogeion i gynnal hawliau defnyddwyr gwasanaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
Nod dysgu A: Ymchwilio i hawliau unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
<p>Testun A.1: Hawliau unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol</p> <ul style="list-style-type: none"> • i gael eu parchu • i gael eu trin fel unigolion • i gael eu trin ag urddas • i gael triniaeth gyfartal, heb gamwahaniaethu yn eu herbyn • i dderbyn preifatrwydd a chyfrinachedd • i gael cyrchu gwybodaeth amdanynt eu hunain • i gael eu dewisiadau eu hunain wedi'u cymryd i ystyriaeth, e.e. i gyfathrebu yn y dull/yr iaith a ffafrir • i gael bod yn annibynnol • i fod yn ddiogel • i fedru cymryd risgiau • i ymwneud â'u gofal eu hunain • deddfwriaeth gyfredol a pherthnasol a sut mae'n amddiffyn hawliau defnyddwyr gwasanaeth, e.e. Deddf Hawliau Dynol (1998), Deddf Cydraddoldeb (2010), Deddf Iechyd Meddwl (1983). <p>Testun A.2: Sut gall gweithwyr gofal gynnal hawliau defnyddwyr gwasanaeth</p> <p>Rhaid i ddysgwyr fedru rhoi enghreifftiau o sut gellir cynnal hawliau defnyddwyr gwasanaeth mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys anawsterau gwneud hynny. Rhaid i'r dysgwyr hefyd ddeall manteision cysylltiedig cynnal hawliau defnyddwyr gwasanaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> • arferion gwrthwahaniaethol • sicrhau preifatrwydd yn ystod gofal personol • cynnig dull person-ganolog • dangos empathi • bod yn onest.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Archwilio cyfrifoldebau cyflogwyr a chyflageion i gynnal hawliau defnyddwyr gwasanaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol**

Mae gan gyflogwyr a chyflageion gyfrifoldebau a all effeithio ar hawliau defnyddwyr gwasanaeth unigol.

Testun B.1 Cyfrifoldebau cyflogwyr a chyflageion i sicrhau diogelwch

Ffyrdd o sicrhau diogelwch:

- asesu risg (cymhwyso asesu risg i leoliad iechyd a gofal cymdeithasol a'i bwysigrwydd, gan roi sylw i'r hawl i gymryd risgiau derbyniol)
- diogelu (pwysigrwydd atal niwed)
- ffyrdd eraill, e.e. rheoli sylweddau niweidiol i iechyd, defnyddio cyfarpar amddiffynol a rheoli heintiau, adrodd a chofnodi damweiniau a digwyddiadau, gweithdrefnau cwynion, darparu toiledau, cyfleusterau ymolchi a dŵr yfed, darparu cyfleusterau cymorth cyntaf
- deddfwriaeth gyfredol a pherthnasol, e.e. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974.

Testun B.2 Cyfrifoldebau cyflogwyr a chyflageion i sicrhau cyfrinachedd:

- cofnodi cywir a storio ac adalw gwybodaeth yn briodol (gan gynnwys dulliau electronig), cofnodion ysgrifenedig, defnyddio ffotograffau, ffonau symudol a chyfryngau cymdeithasol)
- datgelu
- pwysigrwydd cynnal cyfrinachedd, gan gynnwys er mwyn diogelu defnyddwyr gwasanaeth, er mwyn cyflawni gofynion y gweithle a rhai cyfreithiol, ac er mwyn parchu hawliau defnyddwyr gwasanaeth
- achosion lle bo torri cyfrinachedd yn briodol, gan gynnwys er mwyn diogelu unigolyn/unigolion eraill, er mwyn diogelu defnyddiwr gwasanaeth, er mwyn rhoi gwybod am weithgareddau troseddol
- deddfwriaeth gyfredol a pherthnasol, e.e. Deddf Diogelu Data 1998, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2005.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Ymchwilio i hawliau unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol			
1A.1 Nodi hawliau unigol defnyddwyr gwasanaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.	2A.LI1 Crynhoi hawliau unigol defnyddwyr gwasanaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.	2A.T1 Esbonio ffyrdd o gynnal hawliau unigol defnyddwyr gwasanaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio enghreifftiau dethol.	2A.Rh1 Asesu manteision ac anawsterau posibl cynnal hawliau defnyddwyr gwasanaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio enghreifftiau dethol.
1A.2 Nodi sut mae deddfwriaeth gyfredol a pherthnasol yn amddiffyn hawliau defnyddwyr gwasanaeth, gan gyfeirio at un enghraifft.	2A.LI2 Disgrifio sut mae deddfwriaeth gyfredol a pherthnasol yn amddiffyn hawliau defnyddwyr gwasanaeth, gan ddefnyddio enghreifftiau.		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu B: Archwilio cyfrifoldebau cyflogwyr a chyflogeion i gynnal hawliau defnyddwyr gwasanaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol			
1B.3 Nodi sut gall cyflogai gynllunio i wneud defnyddwyr gwasanaeth mor ddiogel â phosibl.	2B.LI3 Disgrifio sut gall cyflogai gynllunio i wneud defnyddwyr gwasanaeth mor ddiogel â phosibl.	2B.T2 Esbonio pam mae asesu risg yn bwysig ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.	2B.Rh2 Gwerthuso pwysigrwydd defnyddio asesiadau risg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio enghreifftiau dethol.
1B.4 Nodi sut mae'r hawl i gyfrinachedd yn cael ei hamddiffyn ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.	2B.LI4 Disgrifio sut mae'r hawl i gyfrinachedd yn cael ei hamddiffyn ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.	2B.T3 Esbonio pam mae'r hawl i gyfrinachedd yn cael ei amddiffyn ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio enghreifftiau.	2B.Rh3 Cyfiawnhau achlysuron pan fo angen i gyflogai dorri cyfrinachedd, gan ddefnyddio enghreifftiau.

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

Wrth gwblhau asesiadau, bydd angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o hierarchaeth y meini prawf asesu. Er enghraifft, oddi mewn i nod dysgu, mae meini prawf Lefel 2 Teilyngdod a Rhagoriaeth yn adeiladu'n uniongyrchol ar feini prawf Lefel 2 Llwyddo, ac yn cwmpasu'r dysgu a ddisgwylir yno. Lle ceir enghreifftiau o gymharu, adolygu, dadansoddi, trafod neu werthuso enghreifftiau dethol yn fanwl, rhaid i'r rhain adeiladu ar hyd a lled y ddealltwriaeth oedd yn ofynnol yn ôl y diffiniad o'r testunau yn yr adran gynnwys.

Argymhellir bod yr aseiniadau ar gyfer yr uned hon yn cynnwys edrych ar ffyrdd ymarferol lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol o ymdrin â hawliau unigolion a'r ddeddfwriaeth gyfredol a pherthnasol sy'n sail i'r hawliau hynny. Lle bo modd, gallai siaradwyr gwadd sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol drafod eu gwaith. Bydd hyn yn galluogi'r dysgwyr i gymhwyso'r theori i'r ymarfer. Mae trafodaeth yn y dosbarth, cyflwyniadau ac erthyglau papur newydd i gyd yn ddulliau asesu addas ar gyfer yr uned hon.

Gellir cyflawni'r uned hon naill ai trwy un aseiniad cyfannol a luniwyd i asesu'r holl feini prawf asesu ar lefel benodol, neu trwy nifer o aseiniadau llai. Er enghraifft, gellir gosod yr aseiniad mew lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol penodol, ac archwilio hawliau unigol defnyddwyr gwasanaeth mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol arbennig. Fel arall, gellir gosod aseiniadau mewn gwahanol leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol, i roi cyfle i'r dysgwyr archwilio hawliau unigol gwahanol fathau o ddefnyddwyr gwasanaeth.

Nod dysgu A

Yn achos 2A.LI1, bydd disgwyl i'r dysgwyr grynhoi'r holl hawliau unigol a restrir yng nghynnwys yr uned, gan gysylltu pob un â maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn achos 2A.LI2, disgwylir i'r dysgwyr gyfeirio at ddeddfwriaeth gyfredol a pherthnasol, megis Deddf Cydraddoldeb (2010) a disgrifio o leiaf ddwy ffordd y mae'r ddeddfwriaeth yn amddiffyn hawliau unigol defnyddwyr gwasanaeth. Gallai dysgwyr gymhwyso hawliau unigol i grŵp arbennig o ddefnyddwyr gwasanaeth, megis cleifion mewn canolfan gofal dydd. Yn achos 2A.T1, rhaid i'r dysgwyr esbonio ffyrdd o gynnal hawliau defnyddwyr gwasanaeth unigol, y gellir eu cymhwyso hefyd i grŵp, neu grwpiau, arbennig o ddefnyddwyr gwasanaeth. Gall y dysgwyr naill ai roi eglurhad manwl ar dair enghraifft, neu ddefnyddio ystod ehangach o enghreifftiau eglurhaol o wahanol leoliadau i gynnal eu hesboniad. Bydd angen iddyn nhw sicrhau bod eu hateb yn cyfeirio at sut gellir gwneud hyn yn ymarferol, a hefyd at y ddeddfwriaeth gyfredol a pherthnasol sy'n cynnal yr hawliau hynny. I gyflawni 2A.Rh1, mae angen i'r dysgwyr fedru asesu manteision ac anawsterau posibl cynnal hawliau defnyddwyr gwasanaeth. Gallai hyn gynnwys edrych ar astudiaethau achos lle ceir tensiwn rhwng cynnal hawl defnyddiwr gwasanaeth a chyfrifoldebau cyflogai, neu pan fyddai cynnal hawliau un defnyddiwr gwasanaeth yn effeithio ar ddefnyddiwr gwasanaeth arall.

I gyflawni 1A.1, bydd yn ofynnol i'r dysgwyr adnabod o leiaf bum hawl sydd gan ddefnyddwyr gwasanaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Gellir cyflwyno hyn mewn amrywiol fformatau, o boster i sleid ar gyfer cyflwyniad. I gyflawni 1A.2, bydd angen i'r dysgwyr nodi'r ddeddfwriaeth berthnasol a defnyddio o leiaf un enghraifft o sut mae'r ddeddfwriaeth honno'n amddiffyn hawliau defnyddwyr gwasanaeth.

Nod dysgu B

Mae'r nod dysgu hwn yn archwilio cyfrifoldebau'r cyflogwr a'r cyflogai a hefyd, yn benodol, eu dyletswydd gofal i ddefnyddwyr gwasanaeth o ran eu diogelwch. Bydd yn canolbwyntio ar sut caiff hawliau eu cynnal a'r cyfrifoldebau penodol sydd ar leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol i ddiogelu'r defnyddiwr gwasanaeth.

I gyflawni 2B.LI3, bydd disgwyl i'r dysgwyr fedru disgrifio ym mha brif ffyrdd y gall cyflogai ym maes iechyd a gofal cymdeithasol gynllunio i wneud defnyddwyr gwasanaeth mor ddiogel â phosibl, a chymhwyso hynny i leoliad iechyd a gofal cymdeithasol arbennig.

I gyflawni 2B.T2, bydd y dysgwyr yn cyfeirio at ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch, er enghraifft, Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, ac yn esbonio pwysigrwydd asesu risg. Bydd yr ymatebion yn ymwneud yn uniongyrchol â lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol, yn hytrach na bod yn esboniad cyffredinol ar ei bwysigrwydd. Er enghraifft, gellid canolbwyntio ar egluro pwysigrwydd cynnal asesiad risg ar gyfer taith diwrnod cyn mynd â'r trigolion allan am y dydd.

I gyflawni 2B.Rh2, mae angen i'r dysgwyr werthuso pwysigrwydd defnyddio asesiadau risg. Byddant yn gallu defnyddio enghreifftiau i roi gwybodaeth fanwl gywir ynghylch defnyddio asesiadau risg, a sut gellir eu defnyddio i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth mor ddiogel â phosibl. Byddant hefyd yn gallu cydbwysu hynny â gwendidau megis y gwrthdaro â hawl y defnyddiwr gwasanaeth i gymryd risgiau. Er enghraifft, mae marchogaeth yn weithgaredd sy'n cynnwys risg, ond mae hefyd yn weithgaredd buddiol, therapiwtig, sy'n galluogi pobl i ennyn parch, ac sy'n meithrin eu hyder ac yn gwella'u symudedd.

I gyflawni 2B.LI4, disgwylir i'r dysgwyr ddisgrifio'n fanwl sut mae'r hawl i gyfrinachedd yn cael ei amddiffyn, a chymhwyso hynny i faes iechyd a gofal cymdeithasol. I gyflawni 2B.T3, bydd y dysgwyr yn esbonio pam mae'r hawl i gyfrinachedd yn cael ei hamddiffyn ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio enghreifftiau, o bosibl o astudiaethau achos neu'r cyfryngau. Disgwylir i'r dysgwyr gyfeirio at ddeddfwriaeth diogelu data i ategu eu hateb. Byddai cyfeirio at ddeddfwriaeth diogelu data yn berthnasol i arddangos pwysigrwydd cynnal cofnodion, cadw a storio gwybodaeth yn ddiogel, a hawl defnyddwyr gwasanaeth i gyfrinachedd. Byddai hefyd yn dangos i'r dysgwyr sut mae deddfwriaeth yn cael ei chymhwyso i sefyllfaoedd pob dydd. I gyflawni 2B.Rh3, bydd y dysgwyr yn defnyddio enghreifftiau i gyfiawnhau'r achlysuron pryd y gall staff dorri cyfrinachedd, er enghraifft er mwyn diogelu eraill.

I gyflawni 1B.3, rhaid i'r dysgwyr nodi'r prif ffyrdd y gall cyflogai ym maes iechyd a gofal cymdeithasol gynllunio i wneud defnyddwyr gwasanaeth mor ddiogel â phosibl. Rhaid i'r dysgwyr gyfeirio at o leiaf bedair ffordd ymarferol y gall gwasanaeth wneud hyn.

I gyflawni 1B.4, mae angen i'r dysgwyr nodi sut mae'r hawl i gyfrinachedd yn cael ei hamddiffyn ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Gellid cyflwyno hyn ar ffurf poster, yn dangos i ddefnyddwyr gwasanaeth sut mae eu hawliau'n cael eu hamddiffyn.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
<p>1A.1, 1A.2, 2A.LI1, 2A.LI2, 2A.T1, 2A.Rh1, 1B.3, 1B.4, 2B.LI3, 2B.LI4, 2B.T2, 2B.T3, 2B.Rh2, 2B.Rh3</p>	<p>Hawliau Unigolion ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol</p>	<p>Rydych ar fin cyflawni lleoliad profiad gwaith mewn lleoliad gofal. Oherwydd sylw diweddar yn y cyfryngau i driniaeth wael a gafodd defnyddwyr gwasanaeth mewn canolfan ofal arbennig, rydych am gasglu gwybodaeth am hawliau defnyddwyr gwasanaeth a chyfrifoldebau'r staff sy'n gofalu amdanynt cyn ymweld â'r lleoliad.</p> <p>I baratoi ar gyfer y lleoliad, rydych yn penderfynu llunio llawlyfr i'ch hunan, yn cynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • hawliau unigol defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys deddfwriaeth gyfredol a pherthnasol • cyfrifoldebau staff gofal wrth ddelio â defnyddwyr gwasanaeth • cynnal cyfrinachedd defnyddwyr gwasanaeth <p>Wrth edrych ar hawliau unigol defnyddwyr gwasanaeth, gan gynnwys pwysigrwydd deddfwriaeth gyfredol a pherthnasol, mae'n rhaid i chi gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • crynodeb manwl o hawliau unigol defnyddwyr gwasanaethau gofal, gan gyfeirio at ddeddfwriaeth gyfredol a pherthnasol lle bo hynny'n briodol 	<p>Llawlyfr (mewn llawysgrifen neu wedi'i gynhyrchu â TG).</p> <p>Gallai'r dystiolaeth gynnwys: sleidiau cyflwyniad, adroddiad ysgrifenedig, erthygl i bapur newydd/gylchgrawn.</p>

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
		<ul style="list-style-type: none"> • esboniad manwl, gan ddefnyddio tair enghraifft, ar ffyrdd o gynnal hawliau defnyddwyr gwasanaeth mewn canolfannau gofal • asesiad o fanteision cynnal eu hawliau i ddefnyddwyr gwasanaeth, ac unrhyw anawsterau a allai ddeillio o hynny i staff gofal. <p>Wrth edrych ar gyfrifoldebau staff gofal i ddelio â defnyddwyr gwasanaeth, rhaid i chi gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • disgrifiad o un enghraifft, o leoliad gofal arbennig, sy'n dangos sut gall cyflogai gynllunio i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth gofal mor ddiogel â phosibl • esboniad ar pam mae'n bwysig asesu risg er lles defnyddwyr gwasanaeth mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol • gwerthusiad, gan ddefnyddio dwy enghraifft, o pam mae'n bwysig cynnal asesiadau risg mewn lleoliadau gofal. <p>Wrth edrych ar gynnal cyfrinachedd, mae'n rhaid i chi gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • disgrifiad o sut mae cyfrinachedd defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei hybu mewn lleoliad gofal arbennig • esboniad ar pam mae'r hawl i gyfrinachedd yn bwysig mewn lleoliadau gofal • dwy enghraifft, o leoliad gofal, lle gellid cyfiawnhau torri cyfrinachedd. 	

Uned 9: Byw'n Iach

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Gorfodol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Allanol**

Cyflwyniad i'r Uned

Mae'r uned hon yn rhoi cyfle i chi archwilio sut mae dewisiadau iach ac afiach o ran ffordd o fyw yn effeithio ar iechyd a llesiant.

Mae amrywiaeth o ffactorau biolegol a ffordd o fyw yn dylanwadu ar iechyd a llesiant. Gall rhai o'r dewisiadau mae pobl yn eu gwneud gael effaith gadarnhaol ar eu bywydau, yn y tymor byr a'r tymor hir. Gall ymarfer corff, er enghraifft, gael effaith yn y tymor byr trwy greu 'teimlad braf' i unigolyn, ond gall gyfrannu hefyd at reoli pwysau a iechyd y galon yn y tymor hir.

Fodd bynnag, mae'r dewisiadau negyddol mae pobl yn eu gwneud yn eu bywydau pob dydd hefyd yn dylanwadu ar iechyd a llesiant. Er enghraifft, os bydd rhywun yn dewis smygu'n drwm ac yfed mwy o unedau o alcohol na'r terfynau dyddiol ac wythnosol a argymhellir, bydd hynny'n cael effaith ar eu hiechyd a'u llesiant yn y tymor byr a'r tymor hir.

Yn yr uned hon, byddwch yn archwilio sut mae ystod o ffactorau'n cyfrannu at iechyd a llesiant da, a sut gall ffactorau eraill arwain at iechyd a llesiant gwael.

Mae llawer o weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn helpu pobl i adolygu a dadansoddi eu hiechyd a'u llesiant cyfredol. Y math hwn o ddadansoddiad yw'r sail ar gyfer llunio cynlluniau gwella iechyd.

Yn yr uned hon, byddwch yn datblygu eich sgiliau dadansoddi gwybodaeth ac yn archwilio strategaethau personol y gellir eu rhoi ar waith i wella iechyd a llesiant. Byddwch hefyd yn ystyried y rhwystrau a'r cyfyngiadau a all gael effaith ar lwyddiant camau a gymerir i wella iechyd a llesiant.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

A archwilio'r ffactorau sy'n cyfrannu at ffyrdd iach ac afiach o fyw, a'u heffeithiau ar iechyd a llesiant

B archwilio ffyrdd o wella iechyd a llesiant.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu

Nod dysgu A: Archwilio'r ffactorau sy'n cyfrannu at ffyrdd iach ac afiach o fyw, a'u heffeithiau ar iechyd a llesiant

Testun A.1 Diffinio ffordd iach o fyw

- Diffiniad Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) o iechyd – sefyllfa o lesiant corfforol, meddyliol a chymdeithasol cyfan, nid dim ond absenoldeb afiechyd neu gyflwr bregus (yng nghyd-destun yr uned hon, 'iechyd a llesiant'):
 - effeithiau corfforol: llai o debygolrwydd dioddef salwch, systemau iach yn y corff, cynnal pwysau iach, gwell ffitrwydd, lefelau egni uwch
 - effeithiau deallusol: gwell canolbwytio, meddwl cliriach, gallu i ddysgu
 - effeithiau emosiynol: lefelau uwch o hapusrwydd, gwell hwyliu, gwell hunan-hyder, gwell hunan-barch, hunan-ddelwedd gadarnhaol, datblygu a chynnal perthnasoedd personol agos a rhywiol, mwy o wytnwch emosiynol, gwell lefelau cymhelliant, llai o straen, iechyd meddwl da
 - effeithiau cymdeithasol: bywyd cymdeithasol o ansawdd gwell, cyfeillgarwch agosach, patrymau perthnasoedd cymdeithasol estynedig.

Testun A.2 Diffinio effeithiau ffordd afiach o fyw

- Effeithiau corfforol: afiechyd a salwch, ennill/colli pwysau, cyfansoddiad braster y corff, problemau iechyd tymor byr, problemau iechyd tymor hir.
- Effeithiau deallusol: llai o lwyddiant o bosibl ym myd addysg, effaith negyddol a ragolygon gyrfa hirdymor, anallu i feddwl yn glir.
- Effeithiau emosiynol: teimladau cyffredinol o anhapusrwydd a diffyg gwerth, hunan-barch isel, hunan-ddelwedd negyddol, teimladau o straen a phryder, anawsterau wrth ddatblygu a chynnal perthnasoedd agos, personol a rhywiol, dibyniaeth seicolegol.
- Effeithiau cymdeithasol: colli ffrindiau, mwy o bwysau ar grwpiau presennol o ffrindiau, effaith negyddol ar berthnasoedd teuluol, lefelau is o ymwneud â gweithgareddau cymdeithasol, ynysu cymdeithasol, mwy o bosibilrwydd cael damweiniau, anafiadau neu gofnod troseddol.

Testun A.3 Ffactorau sy'n cyfrannu at ffyrdd iach neu afiach o fyw a'u heffeithiau

Yn achos pob ffactor, dylai'r dysgwyr fedru creu cysylltiad ag effeithiau corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol. Isod ceir unrhyw elfennau penodol a gwmpasir dros ben yr effeithiau uchod yn Nhestunau A.1 ac A.2.

- Deiet a maeth: deiet cytbwys/anghydbwys, grwpiau bwyd a ffynonellau cyffredin (braster, carbohydradau, proteinau, fitaminau, mwynau, ffeibr a dŵr), cydbwysedd/diffyg cydbwysedd maetholion (fitaminau a mwynau), cymeriant dyddiol a argymhellir (RDI):
 - effeithiau corfforol: cynnal pwysau iach, colli pwysau priodol, lefelau egni uwch, salwch cyffredinol cysylltiedig â deiet (gan gynnwys gordewdra, diabetes, clefyd coronaidd y galon), colli pwysau gormodol.
- Ymarfer corff: amllder yr ymarfer corff, y mathau o ymarfer corff, lefelau priodol o ymarfer corff ar gyfer eu cyfnod bywyd:

parhad

Beth sydd angen ei ddysgu

- effeithiau corfforol: cynnal pwysau iach, colli pwysau, lefelau egni, effaith ar ystwythder, dygnwch, cryfder, stamina, tebygolrwydd gordewdra, clefyd coronaidd y galon, cyflyrau resbiradol, effeithiau ar Indecs Mas y Corff (BMI), cyfrifo a dehongli BMI, arwyddocâd a chyfyngiadau.
- Amgylchedd y cartref: y math o lety a geir yn y cartref, cyflwr amgylchedd y cartref, lleoliad, gofod personol, dylanwad partneriaid a theulu, lefel y gwrthdaro, mynediad i wasanaethau:
 - effeithiau corfforol: y posibilrwydd y daw salwch/afiechyd/problemau iechyd yn sgîl amodau byw, cyflyrau iechyd presennol.
- Amgylchedd y gwaith: gwaith llaw/arall, boddhad/diffyg boddhad yn y swydd, llwyddiant/diffyg llwyddiant gyrfa, symbyliad meddyliol, cefnogaeth gan gydweithwyr a chyflogwyr, cydbwysedd gwaith/bywyd, lefel y gwrthdaro:
 - effeithiau corfforol: effaith y math o waith ar iechyd, salwch neu anaf, effaith swyddi gwaith llaw a swyddi eisteddol.
- Cymeriant alcohol: patrymau yfed diogel ac anniogel (pyllau o oryfed, yfed o dan oed, lefelau cymeriant wythnosol a argymhellir), alcoholiaeth:
 - effeithiau corfforol: risgiau iechyd cysylltiedig â chymeriant alcohol gormodol (canser, problemau iechyd meddwl, magu pwysau, clefyd yr afu), manteision iechyd symiau bychain o alcohol yn ystod oedolaeth ganol a hwyr, amharu ar y gallu i benderfynu, gan arwain at ddamwain/anaf/arfer rhywiol anniogel
 - effeithiau emosiynol a chymdeithasol: dibyniaeth, effaith ar iechyd meddwl.
- Smygu: faint sy'n cael eu smygu a'r patrwm smygu, achos y smygu:
 - effeithiau corfforol: risgiau iechyd cysylltiedig â smygu (canser yr ysgyfaint, bronchitis, clefyd coronaidd y galon, emphysema)
 - effeithiau emosiynol a chymdeithasol: dibyniaeth.
- Defnyddio cyffuriau adloniadol: lefelau defnydd, oed defnyddio, cyfansoddiad anhysbys sylwedddau:
 - effeithiau corfforol: marwolaeth, salwch ac afiechyd damweiniol, amharu ar y gallu i benderfynu, gan arwain at ddamwain/anaf/arfer rhywiol anniogel
 - effeithiau emosiynol a chymdeithasol: dibyniaeth, effeithiau ar iechyd meddwl.
- Arferion rhywiol diogel ac anniogel: defnyddio dulliau atal cenhedlu, nifer y partneriaid rhywiol, hysbysu partneriaid rhywiol ynghylch haint rhywiol neu statws iechyd sydd eisoes yn bodoli, defnyddio dulliau rhwystro, cyfranogi mewn sgrinio iechyd rhywiol:
 - effeithiau corfforol: dal a lledaenu heintiau a drosglwyddir trwy ryw (STIs) (clamidia, gonorea, HIV/AIDS, herpes), datblygu canser serfigol, beichiogrwydd
 - effeithiau emosiynol a chymdeithasol: datblygu a chynnal perthnasoedd personol agos a rhywiol.
- Hylendid personol: cael bath/cawod (yn aml ac ar ôl ymarfer corff), golchi dwylo, amllder newid dillad:
 - effeithiau corfforol: dal a lledaenu afiechyd a salwch, arogl y corff
 - effeithiau emosiynol a chymdeithasol: colli ffrindiau, ynysu cymdeithasol, bwlio, diweithdra.
- Patrymau cysgu: pwysigrwydd cwsg rheolaidd, nifer yr oriau o gwsg, ffactorau cysylltiedig ag oedran, ffactorau cysylltiedig â chyflogaeth (shifftiau gwaith, straen):
 - effeithiau corfforol: blinder, effaith ar lefelau egni, risg damwain.

parhad

Beth sydd angen ei ddysgu**Testun A.4 Dylanwadau ar fabwysiadu ffyrdd iach ac afiach o fyw**

Mae angen i'r dysgwyr fod yn ymwybodol y gall rhai ffactorau fod y tu allan i reolaeth unigolion, a bod amrywiaeth o ddylanwadau a all effeithio ar ddewisiadau ffordd o fyw. Dylai'r dysgwyr wybod sut gall pob un o'r ffactorau isod effeithio ar ddewisiadau ffordd o fyw unigolion.

- partneriaid a theulu
- diwylliant a chrefydd
- pwysau grŵp cyfoedion
- modelau rôl
- dylanwad y cyfryngau
- lefelau hunan-barch
- addysg a dealltwriaeth
- cyllid personol a theuluol
- etifeddiaeth genetig (gan gynnwys rhagdueddiad)
- iechyd a salwch meddwl.

Beth sydd angen ei ddysgu

Nod dysgu B: Archwilio ffyrdd o wella iechyd a llesiant

Testun B.1 Ffyrdd o wella iechyd a llesiant

- Nodi meysydd y gellid eu gwella: deiet, ymarfer corff, amgylchedd y cartref/gwaith, cymeriant alcohol, smygu, defnydd o gyffuriau adloniadol, arferion rhywiol a hylendid personol.
- Gwella iechyd a llesiant – gweithredu.
- Asesu'r anawsterau y gellid eu hwynebu wrth gychwyn ar ffordd iach o fyw a chadw ati:
 - cychwyn arni: pennu nodau realistig, ceisio cefnogaeth, cyrchu cyngor proffesiynol
 - ymrwymiad amser: neilltuo amser rheolaidd i wneud ymarfer corff, gan gydbwysu ymarfer corff ag ymrwymadau bywyd y cartref, cydbwysu ymarfer corff ag ymrwymadau gwaith, cadw rheolaeth ar adegau pan fo cadw at y cynllun yn anodd
 - symbyliad: symbyliad i gychwyn, cadw at y cynlluniau wedi i'r diddordeb cychwynnol bylu, bwrw ati yn y cyfnodau anodd pan ymddengys nad oes fawr ddim cynnydd.
- Gosod targedau realistig ar gyfer gwella iechyd a llesiant mewn gwahanol feysydd: deiet, ymarfer corff, pwysau, amgylchedd y cartref/gwaith, cymeriant alcohol, smygu, defnydd o gyffuriau adloniadol, arferion rhywiol a hylendid personol.
- Strategaethau ymyrraeth a'u heffaith ar wella iechyd: cynllun ffordd iach o fyw, strategaethau cefnogi (hypnotherapi, aciwbigo), technegau rhoi'r gorau i smygu, lleihau cymeriant alcohol a defnydd o gyffuriau adloniadol (cefnogaeth wyneb yn wyneb, therapi amnewid nicotîn).

Testun B.2 Y mathau a'r ffynonellau o gefnogaeth sydd ar gael i helpu i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw

Mathau o gefnogaeth: gwrando, empathi, anogaeth, cyngor ac arweiniad:

- cefnogaeth ffurfiol: meddygon, arbenigwyr iechyd, cwyselwyr, gweithwyr ieuenctid, athrawon, ymgynghorwyr gyrfa, adran adnoddau dynol, grwpiau cefnogi
- cefnogaeth anffurfiol: teulu, ffrindiau, partneriaid, cydweithwyr
- cefnogaeth i gynnal newid cadarnhaol: cadw at y cynllun, cynnal agwedd gadarnhaol.

parhad

Beth sydd angen ei ddysgu

Testun B.3 Y rhwystrau i gyflawni ffordd iach o fyw

Cyfyngiadau – cyfyngiadau ariannol, mynediad i adnoddau a chefnogaeth, ffactorau genetig, cyfyngiadau amser, cyflwr corfforol presennol, nodau afrealistig:

- symbyliad i newid
- dylanwad partneriaid a theulu
- pwysau grŵp cyfoedion
- dylanwad y cyfryngau
- lefelau hunan-barch
- yr amser sydd ar gael
- diffyg addysg a dealltwriaeth
- caethiwed i rywbeth
- rhwystrau ariannol
- argaeledd dewisiadau ffordd o fyw negyddol
- diffyg mynediad i gefnogaeth.

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n allanol trwy arholiad a fydd yn cael ei osod yn allanol.

Fformat yr arholiad

Bydd y dysgwr yn cwblhau arholiad 60 munud sy'n werth 50 marc. Caiff yr uned hon ei hasesu'n allanol trwy bapur arholiad a fydd yn cael ei farcio gan Pearson.

Bydd y dysgwyr yn cwblhau prawf ar bapur a fydd yn cynnwys amrywiaeth o fathau o gwestiynau, gan gynnwys cwestiynau gwrthrychol, cwestiynau atebion byr, a chwestiynau ysgrifennu estynedig.

Bydd angen i'r dysgwyr arddangos a chymhwyso eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, yn ogystal â sgil gwerthuso.

Uned 10: Systemau'r Corff Dynol a Gofal am Anhwyldeuau

Lefel: 1 a 2

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Oeddech chi'n gwybod bod systemau'r corff dynol yn cydweithio i gynnal iechyd? Mae amrywiol rannau'r corff dynol yn dibynnu ar ei gilydd – rhaid i bob rhan fod yn gweithredu'n gywir os yw'r corff i barhau'n sefydlog. Beth am gydrannau penodol y systemau hyn a'r organau? Ble maen nhw? Beth maen nhw'n ei wneud?

Yn yr uned hon byddwch yn archwilio prif organau a systemau'r corff dynol, a bydd hynny'n rhoi dealltwriaeth i chi o anatomeg a ffisioleg sylfaenol. Byddwch yn edrych ar ffurf, swyddogaeth a lleoliad yr organau hyn a systemau'r corff, a sut maent yn cydweithio i gynnal y corff cyfan.

Byddwch hefyd yn ymchwilio i anhwylderau cyffredin sy'n gysylltiedig â systemau'r corff a sut mae'r anhwylderau hynny'n effeithio ar systemau unigol y corff, gan gynnwys y symptomau posibl a brofir gan yr unigolyn. Byddwch yn cymhwyso eich dealltwriaeth o hyn i archwilio'r gofal dilynol y mae unigolion yn ei dderbyn pan eiff rhywbeth o'i le. Byddwch hefyd yn datblygu rhai sgiliau ymarferol i fedru cynnal profion rheolaidd sy'n gysylltiedig â mesur rhai anhwylderau cyffredin.

Mae'n hanfodol bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn deall sut mae'r corff dynol yn gweithio, fel bod modd rhoi gofal priodol i unigolion sy'n dioddef o salwch neu gyflwr arbennig.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A deall ffurf a swyddogaeth y prif organau a systemau pwysig y corff, a'r berthynas rhyngddynt a'i gilydd
- B archwilio'r gofal arferol yn achos anhwylderau sy'n gysylltiedig â systemau'r corff.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
<p>Nod dysgu A: Deall ffurf a swyddogaeth y prif organau a systemau pwysig y corff, a'r berthynas rhyngddynt a'i gilydd</p>
<p>Testun A.1: Ffurf a swyddogaeth prif organau'r corff</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y croen, y galon, yr ysgyfaint, y stumog, y bledren, yr ymennydd, y llygaid, y clustiau, y pancreas, y coluddion, yr afu, yr arenau, yr ofariau a'r testes, yr wterws.
<p>Testun A.2: Ffurf systemau pwysig y corff</p> <ul style="list-style-type: none"> • System cylchrediad y gwaed: y galon, y gwaed, y pibellau gwaed. • Y system resbiradol: y llwybrau anadlu uchaf ac isaf. • Y system nerfol: yr ymennydd, y nerfau, y system nerfol awtonomig, y synhwyrau. • Y system arenol: yr arenau, yr wretrau, y bledren, yr wrethra. • Y system dreulio: y geg, yr esoffagws, y stumog, y coluddyn mawr a'r coluddyn bach, y rectwm. • Y system endocrin: glandiau, hormonau. • Systemau eraill, e.e. systemau atgenhedlu (ffurf systemau atgenhedlu gwryw a benyw), y system gyhyrsgerbydol (esgyrn, cymalau, gewynnau, cyhyrau).
<p>Testun A.3: Swyddogaethau systemau pwysig y corff</p> <ul style="list-style-type: none"> • System cylchrediad y gwaed: cyflenwi ocsigen i feinwe'r corff, gwaredu cynnyrch gwastraff, dargludiad electronig y galon. • Y system resbiradol: cynnal y cyflenwad ocsigen, ysgarthu carbon deuocsid ac anwedd dŵr. • Y system nerfol: prosesu ac ymateb i wybodaeth am newidiadau yn y corff, gan gynorthwyo canfyddiad trwy'r pum synnwyr. • Y system dreulio: amlyncu, treulio, amsugno a gwaredu bwyd. • Y system arenol: hidlo'r gwaed, cydbwysedd halen, cydbwysedd pH, cydbwysedd hylif. • Y system endocrin: secretu hormonau i gynnal cydbwysedd yn y corff. • Systemau eraill, e.e. systemau atgenhedlu (cynhyrchu celloedd rhyw arbenigol, ffrwythloni, datblygiad yr embryo y ffetws, a geni baban), y system gyhyrsgerbydol (rheoli symudiadau a chydysymud).
<p>Testun A.4: Y berthynas rhwng systemau pwysig y corff</p> <ul style="list-style-type: none"> • System cylchrediad y gwaed a'r system resbiradol: cludo ocsigen a anadlir i mewn a charbon deuocsid a anadlir allan i bob rhan o'r corff ac oddi yno yn y gwaed • Y system gyhyrsgerbydol a'r system nerfol: galluogi symudiadau corfforol • Y system dreulio a'r system endocrin: secretu inswlin fel bod modd amsugno glwcos o'r gwaed i'r celloedd • Y system endocrin a'r system atgenhedlu: secretu hormonau, cylch y mislif • Cydlynu systemau trwy homeostasis, e.e. cynnal tymheredd y corff, swyddogaeth y system endocrin o ran cynnal yr amgylchedd mewnol gorau posibl.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Archwilio'r gofal arferol yn achos anhwylderau sy'n gysylltiedig â systemau'r corff****Testun B.1 Anhwylderau sy'n gysylltiedig â systemau'r corff**

- Anhwylderau system cylchrediad y gwaed, e.e. gorbwysedd, clefyd coronaidd y galon, thrombosis gwythiennau dwfn.
- Anhwylderau'r system resbiradol, e.e. bronchitis, asthma.
- Nerfol, e.e. strôc, Clefyd Parkinson, sglerosis ymledol, namau synhwyaidd.
- Anhwylderau'r system dreulio, e.e. canser y coluddyn, colecystitis, syndrom coluddyn llidus.
- Anhwylderau'r system arenol, e.e. haint llwybr yr wrin, methiant yr arenau.
- Anhwylderau'r system endocrin, e.e. Diabetes Math 1 a Math 2, chwarren thyroid danweithredol/orweithredol.
- Anhwylderau sy'n gysylltiedig â systemau eraill y corff, e.e. atgenhedlol (canser serfigol, canser y ceilliau, anffrwythlondeb, heintiau a drosglwyddir drwy ryw), cyhydysgerbydol (osteoarthritis, osteoporosis).

Testun B.2 Gofal arferol am anhwylderau

Rhaid i'r dysgwyr feddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o fathau cyffredin o ofal rheolaidd y gellir eu cymhwyso i'r anhwylderau a restrir yn Nhestun B.1

- Monitro rheolaidd a chefnogaeth broffesiynol ar gyfer anhwylderau: e.e. profion, darparu a defnyddio cymhorthion, rhagnodi triniaeth a meddyginiaeth, cefnogaeth i weinyddu meddyginiaeth eich hun.
- Monitro anhwylderau eich hunan yn rheolaidd: e.e. profion, newidiadau i ffordd o fyw, gweinyddu meddyginiaeth eich hun, amgylchedd priodol (e.e. tymheredd, rheoli risgiau haint).
- Effaith gofal ar bobl sydd ag anhwylderau: effeithiau cadarnhaol gofal, e.e. mwy o symudedd, lleihau poen, lliniaru anawsterau anadlu, gwelliannau cysylltiedig â rheoli diabetes; manteision emosiynol a chymdeithasol i'r unigolyn, e.e. gwell hwyliau, mwy o allu i gymdeithasu; effeithiau negyddol gofal, e.e. cost triniaeth, yr amser a gymerir i gyflawni rhai gweithredoedd megis dialysis, cost triniaeth, sgîl-ffeithiau triniaeth.
- Cynnal a chofnodi arsylwadau rheolaidd sy'n cefnogi'r gofal, e.e. cymryd tymheredd, cymryd pwls, mesur cyfraddau resbiradu, mesur pwysedd y gwaed; Dehongli'r canlyniadau yng nghyswllt gwerthoedd normal.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Deall ffurf a swyddogaeth y prif organau a systemau pwysig y corff, a'r berthynas rhyngddynt a'i gilydd			
1A.1 Nodi ffurf a swyddogaeth tri o brif organau'r corff dynol.	2A.LI1 Disgrifio ffurf a swyddogaeth prif organau'r corff dynol.		
1A.2 Nodi ffurf un o systemau pwysig y corff.	2A.LI2 Disgrifio ffurf systemau pwysig yn y corff dynol.		
1A.3 Nodi swyddogaeth un o systemau pwysig y corff.	2A.LI1 Disgrifio swyddogaethau systemau pwysig y corff dynol.	2A.T1 Esbonio swyddogaeth cydrannau un o systemau pwysig y corff dynol.	
1A.4 Amlinellu'r berthynas rhwng tair o'r systemau pwysig yn y corff.	2A.LI2 Disgrifio'r berthynas rhwng systemau pwysig y corff.	2A.T2 Esbonio beth yw'r berthynas rhwng dwy system bwysig yn y corff.	2A.Rh1 Dadansoddi'r berthynas rhwng systemau'r corff er mwyn cynnal un enghraifft o homeostasis yn y corff dynol.

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu B: Archwilio'r gofal arferol yn achos anhwylderau sy'n gysylltiedig â systemau'r corff			
1B.5 Nodi un anhwylder cyffredin sy'n gysylltiedig â phob un o blith tair system bwysig a ddewiswyd yn y corff.	2B.LI5 Disgrifio un anhwylder cyffredin sy'n gysylltiedig â phob un o systemau pwysig y corff.	2B.T3 Esbonio'n fanwl beth yw effeithiau tri anhwylder cyffredin ar systemau pwysig y corff.	
1B.6 Nodi'r gofal arferol a roddir yn achos un anhwylder cyffredin ar gyfer pob un o'r tair system bwysig a ddewiswyd yn y corff.	2B.LI6 Disgrifio'r gofal arferol a roddir yn achos un anhwylder cyffredin sy'n gysylltiedig â phob un o systemau pwysig y corff.	2B.T4 Trafod effaith y gofal arferol a roddir i unigolion, gan gyfeirio at enghraifft ddedhol.	2B.Rh2 Argymhell a chyfiawnhau gofal arferol priodol ar gyfer unigolyn dethol sydd ag anhwylder cyffredin
1B.7 Cwblhau a chofnodi dros gyfnod o amser un arsylwad rheolaidd y gellir ei ddefnyddio i gefnogi gofal.	2B.LI7 Cwblhau a chofnodi dros gyfnod o amser un arsylwad rheolaidd y gellir ei ddefnyddio i gefnogi gofal, gan ddehongli eich canlyniadau yng nghyswllt gwerthoedd norm.		

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Yn dibynnu ar yr arsylwi rheolaidd a fydd yn digwydd ar gyfer nod dysgu B, bydd peth cyfarpar yn ofynnol, fel a ganlyn:

- Tymheredd: Gwahanol fathau o thermomedrau
- Pwls: Wats amseru neu wats â bys eiliadau
- Pwysedd gwaed: Sffrygmomanomedrau llaw ac electronig (peiriannau pwysedd gwaed) – mae rhai meysydd clinigol yn mynnu bod gofalwyr yn gallu mesur pwysedd gwaed â llaw gan y bernir bod hynny'n fwy cywir.

Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

Wrth gwblhau asesiadau, bydd angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o hierarchaeth y meini prawf asesu. Er enghraifft, oddi mewn i nod dysgu, mae meini prawf Lefel 2 Teilyngdod a Rhagoriaeth yn adeiladu'n uniongyrchol ar feini prawf Lefel 2 Llwyddo, ac yn cwmpasu'r dysgu a ddisgwylir yno. Lle ceir enghreifftiau o gymharu, adolygu, dadansoddi, trafod neu werthuso enghreifftiau dethol yn fanwl, rhaid i'r rhain adeiladu ar hyd a lled y ddealltwriaeth oedd yn ofynnol yn ôl y diffiniad o'r testunau yn yr adran gynnwys.

Gellir casglu'r dystiolaeth ar gyfer yr uned hon mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae'n hanfodol ymgorffori'r berfau gorchmynnol/mynegol a gynhwyswyd yn y meini prawf asesu yn y dasg a osodir ar gyfer y dysgwyr, a defnyddio aseiniadau wedi'u gosod mewn cyd-destun galwedigaethol sy'n ennyn diddordeb y dysgwyr ac yn eu symbylu.

Gellir cyflawni'r uned hon naill ai trwy un aseiniad cyfannol a luniwyd i asesu'r holl feini prawf asesu ar lefel benodol, neu trwy nifer o aseiniadau llai. Er enghraifft, gallai un aseiniad gwmpasu anatomeg a ffisioleg dynol, megis arddangosfa i'w rhoi ar y wal neu lawlyfr ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth, a gallai aseiniad arall gwmpasu anhwylderau cyffredin a'u gofal arferol ar gyfer grŵp arbennig o ddefnyddwyr gwasanaeth ar ffurf llawlyfr ar gyfer cynorthwyr gofal iechyd newydd. Fel arall, bydd un aseiniad cyfannol sy'n cwmpasu anatomeg a ffisioleg, yn ogystal â gofal yn achos anhwylderau cyffredin, yn sicrhau bod aseiniadau'n alwedigaethol eu natur, a bod y dysgwyr yn creu cysylltiad rhwng ymarfer gofal a theori gweithrediad y corff dynol.

Nid oes rhaid cyflwyno aseiniadau mewn fformat ysgrifenedig. Gallai'r dysgwyr fynd ati i chwarae rôl neu roi cyflwyniad. Dylid recordio dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno ar lafar. Dylid cwblhau cofnodion arsylwi/datganiadau tystion manwl a'u cadw er mwyn eu dilysu'n fewnol ac yn allanol.

Nod dysgu A

Yn achos 2A.LI1, dylai'r dysgwyr fedru rhoi disgrifiad clir o ffurf a swyddogaeth prif organau'r corff dynol. Dylai'r dysgwyr roi sylw i'r holl brif organau a nodir yng nghynnwys yr uned. Yn achos 2A.LI2 a 2A.LI3, bydd y dysgwyr yn disgrifio ffurf a swyddogaethau systemau pwysig y corff. Bydd y dysgwyr yn rhoi sylw i gyfanswm o saith brif system, er mwyn cyflawni gradd Llwyddo. Dylid cynnwys hefyd yr holl brif systemau y manylwyd arnynt yng nghynnwys yr uned, yn ogystal ag o leiaf un system arall.

I gyflawni 2A.T1, mae angen i'r dysgwyr drafod yn fanylach i esbonio swyddogaeth cydrannau penodol un system bwysig yn y corff dynol. Er enghraifft, os bydd y dysgwyr yn dewis system cylchrediad y gwaed, rhaid iddynt esbonio sut mae'r galon, y gwaed a'r pibellau gwaed (capilarïau, rhydweliâu a gwythiennau) yn cydweithio er mwyn i'r system fedru gweithredu'n iawn. Rhaid iddynt hefyd esbonio swyddogaethau pob cydran unigol a sut mae'r galon a'r pibellau gwaed yn cydweithio i symud y gwaed o gwmpas y corff.

Er mwyn rhoi dealltwriaeth dda i'r dysgwyr o'r berthynas rhwng systemau'r corff, gellid defnyddio gweithgareddau ymarferol megis profion camu ac ymarferion ar y felin draed i helpu i ddangos y perthnasoedd hyn.

Yn achos 2A.LI4, dylai'r dysgwyr fedru rhoi disgrifiad clir o'r berthynas rhwng systemau pwysig y corff. Gallai'r dysgwyr gyflwyno'r disgrifiad hwn ar ffurf diagram wedi'i anodi neu arddangosfa wal, yn dangos y rhyngberthynas ar gyfer pob un o systemau'r corff. Rhaid anodi'r diagram yn ddigon manwl i fodloni'r meini prawf asesu.

I gyflawni 2A.T2, rhaid i'r dysgwyr ddarparu mwy o fanylion er mwyn esbonio'r berthynas rhwng dwy o systemau pwysig y corff. Rhaid i'r dysgwyr ddangos dealltwriaeth glir o pam mae'r rhyngberthynas hon yn bodoli. Rhaid i'r dysgwyr roi enghreifftiau o achosion pryd y bydd perthynas rhwng y ddwy system – er enghraifft, sut mae system cylchrediad y gwaed a'r system resbiradol yn cydweithio wrth wneud ymarfer corff.

Yn achos 2A.Rh1, rhaid i'r dysgwyr fedru dangos eu dealltwriaeth o homeostasis. Rhaid iddynt fedru dadansoddi gallu rhai o systemau'r corff i greu perthynas â'i gilydd er mwyn cynnal un achos penodol o homeostasis – er enghraifft, rheoleiddio tymheredd, neu gydbwysedd hormonau.

Disgwylir i'r dysgwyr fedru adnabod ffurf a swyddogaeth tri o brif organau'r corff er mwyn cyflawni 1A.1. Yn achos 1A.2 ac 1A.3, rhaid iddynt nodi ffurf un o systemau pwysig y corff a nodi ei swyddogaeth.

Yn achos 1A.4, bydd y dysgwyr yn amlinellu beth yw'r berthynas rhwng tair o systemau'r corff a'i gilydd, er enghraifft system cylchrediad y gwaed, y system resbiradol a'r system dreulio. Gallai asesiad nod dysgu A ofyn bod y dysgwyr yn cyflwyno gwybodaeth ar ffurf arddangosfa wal fanwl neu lawlyfr, gan hysbysu defnyddwyr gwasanaeth sut mae'r corff dynol yn gweithio.

Nod dysgu B

Gallai nod dysgu B gael ei asesu ar ffurf chwarae rôl. Er enghraifft, gallai'r dysgwr chwarae rôl gweithiwr gofal sy'n esbonio wrth un o'r cleifion pa fath o ofal y byddant yn ei dderbyn ar gyfer anhwylder penodol. Rhaid iddynt hefyd arddangos y profion arferol ar gyfer anhwylder dethol.

Yn achos 2B.LI5, dylai'r dysgwyr fedru disgrifio un anhwylder cyffredin sy'n gysylltiedig â phob un o systemau pwysig y corff a restrir yng nghynnwys yr uned. Dylai'r dysgwyr fedru cyfeirio at brif nodweddion yr anhwylderau. Fel yn achos nod dysgu A, rhaid i'r dysgwyr roi sylw i o leiaf saith o brif systemau'r corff (cylchrediad y gwaed, resbiradol, nerfol, arenol, treulio, endocrin ac un arall o gynnwys yr uned). Yn achos 2B.T3, rhaid i'r dysgwyr fedru esbonio'n fanwl effaith tri anhwylder cyffredin ar unigolion a systemau eu cyrff. Rhaid i'r dysgwyr ddarparu manylion a rhoi rhesymau a/neu dystiolaeth i gefnogi eu hesboniad yn glir. Er enghraifft, gallai'r dysgwyr ddisgrifio prif nodweddion clefyd Parkinson, a rhoi esboniad manwl ar sut mae'n effeithio ar y system nerfol a pham mae unigolion yn dechrau profi cryndod.

I gyflawni 2B.T4, rhaid i'r dysgwyr drafod effeithiau gofal arferol a roddir i unigolion, gan edrych ar yr effaith gadarnhaol a negyddol fel sy'n briodol, megis sgîl-effeithiau, cost neu effaith afiechydon neu alergeddau sy'n bodoli ochr yn ochr. Dylid gwneud hyn yng nghyswllt anhwylder dethol sy'n effeithio ar un o systemau pwysig y corff. Gellid rhoi astudiaethau achos go iawn i'r dysgwyr. Dylid dewis astudiaethau achos fel bod modd i'r dysgwyr weld cysylltiad clir rhwng y gofal arferol a roddir a'r effeithiau posibl ar system y corff.

I gyflawni 2B.Rh2, rhaid i'r dysgwyr argymhell a chyfiawnhau gofal arferol priodol ar gyfer unigolyn dethol sydd ag anhwylder cyffredin cysylltiedig ag un o systemau pwysig y corff. Rhaid iddynt ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol y gofal a roddir, megis sgîl-effeithiau, cost neu effaith afiechydon neu alergeddau sy'n bodoli ochr yn ochr. Rhaid gwneud hyn yng nghyswllt un o systemau pwysig y corff a ddewiswyd eisoes er mwyn arddangos lefel ddyfnach o ddealltwriaeth. Gellid gwneud hynny ar ffurf astudiaeth achos.

I gyflawni 2B.LI6, gallai'r dysgwyr ddisgrifio'r gofal arferol a roddir yn achos yr anhwylder y maent eisoes wedi rhoi sylw iddo yn 2B.LI5. Bydd hyn yn rhoi cyfle i'r dysgwyr estyn eu gwybodaeth am yr anhwylder a ddewiswyd.

I gyflawni 2B.LI7, rhaid i'r dysgwyr gwblhau un arsylwad rheolaidd y gellir ei ddefnyddio i gefnogi gofal. Mae angen i'r dysgwyr ddangos eu bod yn medru gwneud yr arsylwi'n ddiogel ac mewn modd addas ar o leiaf dri achlysur, er enghraifft, defnyddio'r geg, neu'r clustiau, i brofi tymheredd. Diben hyn yw sicrhau bod ganddyn nhw ddigon o dystiolaeth i'w dehongli. Gall y dysgwyr gyflawni'r gwaith arsylwi o dan amodau wedi'u hefelychu, gan gyflawni arsylwadau ar ei gilydd. Rhaid goruchwyllo'r dysgwyr wrth iddynt wneud hyn.

Mae'n hanfodol bod y dysgwyr yn gwybod sut i gofnodi mesuriadau'n gywir, a'u bod yn gwerthfawrogi pwysigrwydd y mesuriad sydd ganddynt (yng nghyswllt gwerthoedd normal). Fodd bynnag, rhaid i'r dysgwyr beidio â cheisio rhoi diagnosis o gyflyrau, os na fydd y canlyniadau'n cyfateb i'r gwerthoedd normadol. Rhaid rhoi sylw i reoli heintiau yng nghyswllt glanhau'r offer.

Os ydynt i brofi pwysedd gwaed, doeth fyddai rhoi cyfle i'r dysgwyr ymarfer defnyddio dyfeisiau llaw a rhai electronig. Mae rhai meysydd clinigol yn dychwelyd i beiriannau llaw er mwyn sicrhau cywirdeb. Byddai'n ddoeth gwahodd arbenigwr i arddangos y dechneg hon, gan y gall fod yn anodd ei meistroli, a bydd yn cymryd amser.

Nid yw'n briodol caniatáu i'r dysgwyr brofi lefelau glwcos yn y gwaed, gan y bernir bod hon yn weithred ymwithiol, gyda risg gysylltiedig o haint.

Lle bo gan ganolfannau offer priodol i'r dysgwyr fedru cyflawni'r profion dethol (megis thermomedrau i brofi tymheredd y corff neu sffymomanomedrau i fesur pwysedd y gwaed), gellir cyflawni'r profion hyn mewn lleoliad addas ar y safle. Fel arall, gallai canolfannau edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio unrhyw gyfleusterau sydd ar gael yn lleol, megis rhai mewn canolfan iechyd a ffitrwydd leol neu fferyllfa leol.

I gyflawni 1B.5, mae angen i'r dysgwyr nodi un anhwylder cyffredin ar gyfer pob un o'r tair system bwysig a ddewiswyd yn y corff. I gyflawni 1B.6, rhaid i'r dysgwyr nodi'r gofal arferol a fyddai'n cael ei awgrymu wrth drin yr anhwylderau hyn. Gellid asesu hyn hefyd trwy chwarae rôl neu trwy gynhyrchu taflen wybodaeth. I gyflawni 1B.7, rhaid i'r dysgwyr gyflawni un arsylwad rheolaidd y gellir ei ddefnyddio ar gyfer anhwylder cyffredin sy'n gysylltiedig ag un o systemau pwysig y corff ar o leiaf dri achlysur. Ar lefel 1, ni ddisgwylir i'r dysgwyr fedru dehongli canlyniadau'r prawf a gwblhawyd.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 1A.2, 1A.3, 2A.LI1, 2A.LI2, 2A.LI3, 2A.T1	Rhyfeddod y Corff Dynol	<p>Mae grŵp o ddisgyblion Blwyddyn 8 yn dod i ymweld â'ch dosbarth iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gan y disgyblion hyn ddi-ddordeb mewn astudio iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae eich athro wedi gofyn i chi roi cyflwyniad byr ar yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu ynghylch y corff dynol, er mwyn rhoi rhagflas iddyn nhw o wers iechyd a gofal cymdeithasol.</p> <p>Yn eich cyflwyniad, mae'n rhaid i chi ddisgrifio ffurf a swyddogaeth prif organau'r corff a systemau pwysig y corff.</p> <p>Mae eich athro wedi gofyn i chi ganolbwyntio ar un o systemau pwysig y corff, gan ddarparu rhagor o fanylion ac egluro swyddogaeth y cydrannau.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyniad (yn cynnwys nodiadau a/neu recordiad) • Taflenni gwybodaeth
1A.4, 2A.LI4, 2A.T2, 2A.Rh1	Sut mae Systemau'r Corff yn Cydweithio?	<p>Mae eich athro wedi gofyn i chi ddylunio arddangosfa wal ar gyfer y dosbarth ar y berthynas rhwng systemau'r corff dynol. Maen nhw am arddangos y gwaith fel cymorth adolygu ar gyfer y dosbarth cyfan.</p> <p>Dyluniwch arddangosfa sy'n dangos sut mae holl brif systemau'r corff yn cydweithio.</p> <p>Rhaid i'r arddangosfa hefyd gynnwys archwiliad mwy manwl o'r berthynas rhwng dwy o systemau pwysig y corff, gan esbonio sut maen nhw'n cydweithio ac yn effeithio ar ei gilydd, a sut caiff homeostasis ei gynnal.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Arddangosfa wal fanwl • Taflen • Cyflwyniad • Astudiaeth achos

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1B.5, 1B.6, 2B.LI5, 2B.LI6	Anhwylderau Cyffredin a'r Gofal a roddir ar eu cyfer	Rydych yn gynorthwy-ydd gofal iechyd sy'n gweithio mewn ysbyty. Rydych wedi cael cais i grynhoi'r anhwylderau cyffredin sy'n ymwneud â systemau pwysig y corff ar gyfer rhywun sy'n cychwyn yn eich tîm. Rhaid i chi hefyd ddisgrifio'r gofal arferol a roddir yn achos pob un o'r anhwylderau hyn.	<ul style="list-style-type: none"> • Llyfryn gwybodaeth • Taflen • Arddangos poster manwl
1B.7, 2B.LI5, 2B.LI6, 2B.LI7, 2B.T3, 2B.T4, 2B.Rh2	Pwysedd Gwaed Uchel: Effeithiau a Gofal Arferol	<p>Rydych wedi cael cais i siarad ag un o berthnasau claf sydd newydd gael diagnosis o bwysedd gwaed uchel. Maen nhw eisiau gwybod sut mae'n effeithio ar gorff eu perthynas, y math o ofal rheolaidd sy'n ofynnol, a pham.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Siaradwch â'r perthynas am ystyr pwysedd gwaed uchel ac effaith hynny ar systemau'r corff. • Siaradwch am y gofal arferol a'r monitro sy'n ofynnol er mwyn rheoli'r cyflwr yn effeithiol, ac effaith y gofal hwn, gan gyfiawnhau'r rhesymau am y gofal arferol hwn. <p>Oherwydd bod y claf wedi cael diagnosis o bwysedd gwaed uchel yn ddiweddar, mae angen dangos iddo/iddi sut mae monitro pwysau gwaed yng nghyswllt gwerthoedd y normau. Mae'r claf wedi cael cyngor gan Feddyg Teulu i geisio gwella'i (d)deiet er mwyn helpu i ostwng pwysedd y gwaed. Bydd angen i chi arsylwi'r pwysedd gwaed ar dri achlysur gwahanol, dros gyfnod o amser, er mwyn monitro'r cynnydd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Arsylwi/recordio chwarae rôl

Uned 11: Gwasanaethau ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Pa faes yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd o ddiddordeb arbennig i chi? Efallai eich bod chi'n mwynhau gweithio gyda phobl hŷn, plant neu bobl ag anableddau. Neu efallai eich bod chi heb benderfynu eto ble rydych am gychwyn ar eich gyrfa ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn yr uned hon, byddwch yn archwilio'r ystod eang o wasanaethau a gynigir gan y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn anffodus, ni all llawer o bobl gyrchu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn hwylus, yn sgîl eu sefyllfa bersonol neu eu lleoliad daearyddol. Fodd bynnag, gall gweithwyr proffesiynol a darparwyr gwasanaeth gefnogi'r defnyddwyr gwasanaeth hyn mewn sawl ffordd. Byddwch yn archwilio'r rhwystrau niferus sy'n bodoli, yn ogystal â'r systemau cefnogi a ddefnyddir i wella mynediad i wasanaethau hanfodol.

Mae gwaith partneriaeth yn hanfodol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, fel bod modd teilwra'r gwasanaeth a gynigir yn unol ag anghenion unigolyn. Gallai gweithwyr proffesiynol o wahanol wasanaethau gydweithio i roi 'pecyn' o iechyd a gofal i ddefnyddiwr gwasanaeth. Yr enw ar hyn yw 'gofal amlasiantaeth'. Fel arall, gallai gweithwyr proffesiynol gwahanol o'r un gwasanaeth (er enghraifft, Ymarferydd Cyffredinol neu Feddyg Teulu (GP) ac ymwelydd iechyd) gydweithio i gefnogi unigolion y mae angen math arbennig o wasanaeth arnynt. Yr enw ar hyn yw 'gofal amlddisgyblaeth'.

Yn yr uned hon, byddwch hefyd yn archwilio'r cysyniadau hyn a pham mae rhai unigolion yn elwa o'r dulliau tebyg, ond gwahanol, hyn o roi gofal.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A deall darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- B archwilio ffactorau sy'n effeithio ar fynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
- C archwilio gwaith partneriaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
Nod dysgu A: Deall darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol
<p>Testun A.1: Darpariaeth Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol</p> <p>Strwythur Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofal sylfaenol: e.e. Meddyg Teulu, optegydd, deintydd, ymwelydd iechyd, bydwragedd. • Gofal eilaidd: e.e. gofal ysbyty, therapyddion, cwnselwyr, gweithwyr cymdeithasol. • Gofal trydyddol: e.e. gofal dydd, cartrefi nyrsio, cartrefi gofal preswyl, trefniadau maethu, hosbisau, unedau gofal arbenigol (e.e. unedau arenol, unedau oncoleg). • Gofal anffurfiol: e.e. teulu, ffrindiau, gofalwyr yn y cartref <p>Mathau o Ddarpariaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darpariaeth statudol: y GIG, gwasanaethau cymdeithasol • Darpariaeth breifat ac annibynnol, e.e. deintyddion, cartrefi gofal, ysbytai, ffisiotherapyddion, gofal cartref, clinigau cosmetig • Gwasanaethau gwirfoddol: elusennau cenedlaethol a lleol, e.e. Byddin yr Iachawdwriaeth, y Samariaid <p>Gwahaniaethau yn y mathau o ddarpariaeth: cost, ffynonellau cyllido (cyhoeddus, preifat, rhoddion), amserau aros, argaeledd/hygyrchedd gwasanaeth.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sefydliadau cenedlaethol: e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol, y Comisiwn Ansawdd Gofal, y GIG, yr Adran Iechyd. • Sefydliadau lleol: e.e. ymddiriedolaethau plant, ymddiriedolaethau ambiwlans, ymddiriedolaethau iechyd meddwl • Effaith gwahanol fathau o ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol – rhaid i'r dysgwyr fedru cymharu effaith gwahanol fathau o ddarpariaeth. <p>Testun A.2: Deddfwriaeth Gyfredol a Pherthnasol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Deddfwriaeth a rheoliadau cyfredol a pherthnasol, e.e. Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, Deddf Iechyd Meddwl 1983, Rheoliadau'r Comisiwn Ansawdd Gofal 2009 • Effaith deddfwriaeth ar ddarpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol: argaeledd gwasanaethau, yr adnoddau y mae'n rhaid eu darparu i ddefnyddwyr gwasanaeth, hawliau defnyddwyr gwasanaeth o fewn y gwasanaethau, cytundebau lefel gwasanaeth sylfaenol.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Archwilio ffactorau sy'n effeithio ar fynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol****Testun B.1 Ffactorau sy'n effeithio ar fynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol**

- Lleoliad daearyddol: agosrwydd at wasanaethau, cysylltiadau trafndiaeth, trefniadau cyllido lleol, lefelau amrywiol o alw am y gwasanaeth.
- Sosio-economaidd: addysg, ymwybyddiaeth o iechyd a dewisiadau ffordd o fyw.
- Cydraddoldeb ac amrywiaeth: anabledd (synhwyrdd, corfforol a meddyliol), diwylliannol/crefyddol (e.e. apwyntiadau y tu allan i amserau gweddi, gofalwyr o'r un rhyw), ffactorau eraill perthnasol, e.e. cyfeiriadedd rhywiol, rhywedd, hil, oedran.
- Cyfathrebu: e.e. Saesneg fel iaith ychwanegol, iaith oed-briodol gan weithwyr proffesiynol, defnydd o jargon ac acronymau gan weithwyr proffesiynol, peidio â defnyddio'r teitlau a ffafrir, dulliau cyfathrebu amgen.
- Ariannol: cost cludiant, cost gwasanaeth, argaeledd cyllid (e.e. trefniadau cyllido lleol a phreifat), colli incwm yn sgîl derbyn triniaethau.
- Ansawdd y ddarpariaeth gofal: parch gan weithwyr proffesiynol, cynnal urddas.
- Sut gellir addasu'r ddarpariaeth i wella mynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol: e.e. taflenni mewn ieithoedd eraill, fformatau amgen, gwasanaethau cartref, cefnogaeth gan wirfoddolwyr.

Nod dysgu C: Archwilio gwaith partneriaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol**Testun C.1 Gwaith partneriaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol**

Mathau o waith partneriaeth:

- Gwaith amlasiantaeth e.e. Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Plant yn gweithio gyda'r system Gyfiawnder.
- Gwaith amlddisgyblaeth e.e. ymwelydd iechyd yn gweithio gyda Meddyg Teulu, nyrs seiciatrig gyda therapydd galwedigaethol.
- Manteision gwaith partneriaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol – cyfuniad effeithiol o sgiliau, defnydd gorau o arbenigedd, dilyniant gofal, gwasanaeth di-fwlch, lleihau cost.
- Anawsterau posibl gwaith partneriaeth, e.e. gelyniaeth broffesiynol rhwng asiantaethau a gweithwyr proffesiynol, cyfathrebu gwael rhwng gweithwyr proffesiynol o wahanol sefydliadau, manipwleiddio gan ddefnyddwyr gwasanaeth, logisteg, cyfyngiadau ariannol, gwasanaethau'n torri i lawr.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Deall darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol			
1A.1 Amlinellu darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.	2A.LI1 Disgrifio darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.	2A.T1 Trafod y gwahaniaethau rhwng y gwahanol fathau o ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, gan gyfeirio at enghreifftiau.	2A.Rh1 Cymharu darpariaeth genedlaethol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol â'r ddarpariaeth leol.
1A.2 Amlinellu un o effeithiau deddfwriaeth gyfredol a pherthnasol ar ddarpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. #	2A.LI2 Amlinellu sut mae deddfwriaeth gyfredol a pherthnasol yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. #		
Nod dysgu B: Archwilio ffactorau sy'n effeithio ar fynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol			
1B.3 Nodi ffactorau sy'n cael effaith gadarnhaol ar fynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.	2B.LI3 Disgrifio ffactorau sy'n cael effaith gadarnhaol ar fynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.	2B.T2 Asesu sut mae ffactorau'n effeithio ar fynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.	2B.Rh2 Gwneud argymhellion ynghylch sut mae gwella mynediad unigolyn dethol i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
1B.4 Nodi ffactorau sy'n cael effaith negyddol ar fynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.	2B.LI4 Disgrifio ffactorau sy'n cael effaith negyddol ar fynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu C: Archwilio gwaith partneriaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol			
1C.5 Nodi gweithwyr proffesiynol a allai weithio mewn partneriaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.	2B.LI5 Disgrifio sut gallai gweithwyr proffesiynol gydweithio mewn partneriaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio enghreifftiau dethol.	2B.T3 Esbonio manteision posibl gwaith partneriaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i ddefnyddwyr gwasanaeth.	2B.Rh3 Asesu anawsterau posibl gwaith partneriaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Nid oes angen unrhyw adnoddau arbennig ar gyfer yr uned hon.

Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

Wrth gwblhau asesiadau, bydd angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o hierarchaeth y meini prawf asesu. Er enghraifft, oddi mewn i nod dysgu, mae meini prawf Lefel 2 Teilyngdod a Rhagoriaeth yn adeiladu'n uniongyrchol ar feini prawf Lefel 2 Llwyddo, ac yn cwmpasu'r dysgu a ddisgwylir yno. Lle ceir enghreifftiau o gymharu, adolygu, dadansoddi, trafod neu werthuso enghreifftiau dethol yn fanwl, rhaid i'r rhain adeiladu ar hyd a lled y ddealltwriaeth oedd yn ofynnol yn ôl y diffiniad o'r testunau yn yr adran gynnwys.

Gellir casglu'r dystiolaeth ar gyfer yr uned hon mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae'n hanfodol ymgorffori'r berfau gorchmynnol/mynegol a gynhwyswyd yn y meini prawf asesu yn y dasg a osodir ar gyfer y dysgwyr. Mae hefyd yn hanfodol dilysu'n fewnol unrhyw awgrymiadau ar gyfer aseiniadau a gymerir o'r rhestr aseiniadau.

Gellir cyflawni'r uned hon naill ai trwy un aseiniad cyfannol a luniwyd i asesu'r holl feini prawf asesu ar lefel benodol, neu trwy nifer o aseiniadau llai. Er enghraifft, gallai'r dysgwyr lunio adroddiad sy'n archwilio gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn yr ardal leol, gan roi sylw i'r ddarpariaeth, ffactorau sy'n effeithio ar fynediad a gwaith partneriaeth. Trwy ganolbwyntio ar yr ardal leol, bydd yr aseiniadau'n berthnasol i'r dysgwyr, a fydd yn gallu arsylwi gwasanaethau'n cael eu darparu'n uniongyrchol, a bydd hefyd yn helpu i sicrhau bod yr uned yn gyfoes.

Nid oes rhaid cyflwyno aseiniadau mewn fformat ysgrifenedig. Gallai'r dysgwyr fynd ati i chwarae rôl neu roi cyflwyniad. Dylid recordio dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno ar lafar. Dylid cwblhau cofnodion arsylwi/datganiadau tystion manwl a'u cadw er mwyn eu dilysu'n fewnol ac yn allanol.

Nod dysgu A

Lluniwyd y nod dysgu hwn i asesu dealltwriaeth y dysgwyr o ba wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael a sut mae deddfwriaeth yn effeithio ar hyn. Cyn yr asesiad, bydd y dysgwyr yn elwa o ymweld â gwahanol leoliadau iechyd neu ofal cymdeithasol lleol, defnyddio astudiaethau achos a chyfleoedd i drafod er mwyn sicrhau dealltwriaeth eglur.

Gellid cyflwyno'r dystiolaeth ar gyfer y nod dysgu hwn ar ffurf pecyn gwybodaeth sy'n manylu ar ddarpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ardal leol y dysgwr.

Gallai'r adran gyntaf gwmpasu'r gwahanol fathau o ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol. I gyflawni 2A.L11, bydd angen i'r dysgwyr roi disgrifiad o'r gwasanaethau yn eu hardal leol, gan roi sylw i'r ystod a geir yng nghynnwys yr uned – h.y. gofal sylfaenol, eilaidd, trydyddol ac anffurfiol. Yn achos 2A.T1, rhaid i'r dysgwyr drafod y gwahaniaethau rhwng y mathau o ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol (h.y. statudol, preifat ac annibynnol, gwirfoddol), gan gyfeirio at enghreifftiau penodol megis o fewn yr ardal leol. Yn achos 2A.Rh1, rhaid i'r dysgwyr gymharu dau fath gwahanol ar ddarpariaeth sy'n cefnogi unigolion â'r un anghenion,

mewn gwahanol ffyrdd. Yn achos yr holl feini prawf, rhaid i'r dysgwyr ystyried darpariaeth ffurfiol ac anffurfiol (h.y. a roddir gan deulu, ffrindiau neu ofalwyr yn y cartref).

Yn achos 2A.LI2, mae angen i'r dysgwyr amlinellu sut mae deddfwriaeth gyfredol a pherthnasol yn effeithio ar y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys sut mae'r gwasanaethau hyn yn cael eu cyllido ar amrywiol lefelau ac o amrywiol ffynonellau.

Ar gyfer 1A.1, gofynnir i'r dysgwyr amlinellu gwahanol fathau o ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn eu hardal leol, gan gynnwys y gwahanol fathau o sefydliadau gwasanaeth a nodir yng nghynnwys yr uned. Ar gyfer 1A.2, gofynnir i'r dysgwyr amlinellu un o effeithiau deddfwriaeth gyfredol a pherthnasol ar ddarpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Gallai'r dysgwyr gynhyrchu'r dystiolaeth ar gyfer y meini prawf asesu hyn ar ffurf poster neu ddiagram darluniadol. Dylai'r tiwtoriaid sicrhau bod yr wybodaeth yn glir, ac nad yw'n cael ei chuddio gan waith celf diangen.

Nod dysgu B

Lluniwyd y nod dysgu hwn i asesu dealltwriaeth dysgwyr o'r ffactorau hynny sy'n cyfrannu at fynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol neu yn ei atal. Cyn yr asesiad, byddai'r dysgwyr yn elwa o gyrchu astudiaethau achos mewn cylchgronau proffesiynol megis *Community Care* neu'r *Nursing Times*, sy'n disgrifio rhai o'r materion cymwys.

Gall y dysgwyr ddarparu tystiolaeth ar gyfer y nod dysgu hwn trwy gynhyrchu erthygl papur newydd sy'n archwilio'r ffactorau sy'n effeithio ar fynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. I gyflawni 2B.LI3 a 2B.LI4, rhaid iddynt roi disgrifiad o ffactorau sy'n effeithio ar fynediad mewn modd cadarnhaol a negyddol. Rhaid i'r dysgwyr roi sylw i o leiaf un ffactor o bob categori sydd wedi'i nodi yng nghynnwys yr uned, h.y. lleoliad daearyddol, sefyllfa sosio-economaidd, cydraddoldeb ac amrywiaeth, cyfathrebu a sefyllfa ariannol. Yn achos 2B.T3, rhaid i'r dysgwyr gynnwys asesiad o sut mae'r ffactorau hyn yn effeithio ar fynediad. I gyflawni 2B.Rh2, rhaid i'r dysgwyr fedru cyflwyno argymhellion ar sut mae gwella mynediad unigolyn dethol i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Gallai hon fod yn astudiaeth achos ddiennw, wedi'i seilio ar ddefnyddiwr gwasanaeth yn yr ardal leol. Bydd hyn yn gofyn bod y dysgwyr yn gwneud rhywfaint o ymchwil i'r gwasanaethau lleol a all fod yn profi problemau mynediad. Ar ben hynny, bydd yn ddefnyddiol i'r dysgwyr fod yn ymwybodol o hygyrchedd darpariaethau iechyd a gofal cymdeithasol mewn ardaloedd eraill er mwyn canfod sut maent yn ymdrin â phryderon ynghylch mynediad.

Yn achos 1B.3 ac 1B.4, mae'n rhaid i'r dysgwyr nodi'r ffactorau sy'n cael effaith gadarnhaol a negyddol ar fynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Gellid gwneud hynny ar ffurf cyflwyniad PowerPoint syml.

Nod dysgu C

Bwriad y nod dysgu hwn yw asesu dealltwriaeth y dysgwyr o wahanol ffyrdd o weithio mewn partneriaeth yn y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Cyn yr asesiad, byddai'r dysgwyr yn elwa o ymchwilio i enghreifftiau lleol o bartneriaethau – er enghraifft, y Meddyg Teulu, nyrs y practis a'r ymwelydd iechyd yn ffurfio partneriaeth amlddisgyblaeth. Ar gyfer y nod dysgu hwn, gallai'r dysgwyr gynhyrchu erthygl i gylchgrawn, er enghraifft.

Mae 2C.LI5 yn galw am ddisgrifiad o sut gallai tri gweithiwr proffesiynol gydweithio mewn partneriaeth amlddisgyblaeth. Mae angen i hon fod yn sefyllfa bartneriaeth berthnasol sy'n adlewyrchu arfer cyfredol. Mae esboniad ar fanteision posibl p

artneriaethau o'r fath i unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn ofynnol ar gyfer 2C.T4, a bydd asesiad o'r anawsterau posibl a allai godi i unigolion sy'n cael eu cefnogi gan bartneriaethau o'r fath yn bodloni 2C.Rh3.

Yn achos 1C.5, gofynnir i'r dysgwyr nodi tri gweithiwr proffesiynol a allai weithio mewn sefyllfa bartneriaeth. Gallai'r dystiolaeth ar gyfer hyn gael ei chyflwyno ar ffurf e-bost wedi'i gyfeirio at olygydd y cylchgrawn gofal cenedlaethol sy'n nodi'r gweithwyr proffesiynol y bydd y dysgwr yn eu defnyddio'n sail ar gyfer yr erthygl.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 1A.2, 2A.LI1, 2A.LI2, 2A.T1, 2A.Rh1	Pwy sy'n gofalu amdanom ni i gyd?	<p>Rydych chi'n gwirfoddoli yn y feddygfa leol. Mae'r rheolwr wedi clywed eich bod yn astudio cymhwyster iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae wedi gofyn am eich help.</p> <p>Hoffai'r rheolwr i chi gynhyrchu pecyn gwybodaeth ar y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael yn yr ardal leol ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth lleol. Defnyddir y pecyn yn rhan o'r gwaith i hyrwyddo gwasanaethau lleol. Yn eich pecyn mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • disgrifio darpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol • amlinellu sut mae deddfwriaeth gyfredol a pherthnasol yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol • trafod y gwahaniaethau rhwng y mathau o ddarpariaeth • cymharu darpariaeth genedlaethol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol â'r ddarpariaeth leol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Pecyn gwybodaeth, poster

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1B.3, 1B.4, 2B.LI3, 2B.LI4, 2B.T2, 2B.Rh2	Pam rwy'n methu mynd i mewn?	<p>Mae eich papur newydd lleol yn cynnig gwobr o £50 am yr erthygl orau ar rwystrau i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.</p> <p>Fe hoffai'r uwch-olygydd gyhoeddi hyn fel rhan o ymgyrch i dynnu sylw at y rhwystrau mae pobl leol wedi'u hwynebu wrth geisio defnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a sut gellir eu goresgyn. Yn eich erthygl, mae'n rhaid i chi gynnwys y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • disgrifiad o'r ffactorau sy'n cael effaith gadarnhaol a negyddol ar fynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn yr ardal leol • asesiad o sut mae ffactorau'n effeithio ar fynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio enghreifftiau o'r defnyddwyr gwasanaeth y cynhaliwyd cyfweiliadau â hwy • argymhellion ar gyfer gwella mynediad i unigolyn dethol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl bapur newydd
1C.5, 2C.LI5, 2C.T3, 2C.Rh3	Partneriaethau Amlddisgyblaeth	<p>Mae golygydd y cylchgrawn gofal cenedlaethol yn fodlon ar eich ymchwil hyd yma, ac fe hoffai eich comisiynu i ysgrifennu erthygl yn edrych ar sut mae gweithwyr proffesiynol yn cydweithio i ddarparu gofal, esboniad ar fanteision hynny, ac asesiad o anawsterau gweithio mewn partneriaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Erthygl i gylchgrawn

Uned 12: Gweithgareddau Creadigol a Therapiwtig ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lefel: **1 a 2**

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **60**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Sut byddwch chi'n teimlo wrth wneud rhywbeth rydych chi'n ei fwynhau? Ydy eich hobi yn eich helpu i ymlacio, neu ydych chi'n cael teimlad o gyflawniad ar ôl cwblhau rhywbeth? Mae gweithgareddau creadigol a therapiwtig yn cynnwys manteision niferus i bawb, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Weithiau mae'n hawdd canolbwyntio ar y materion neu'r problemau a all fod yn effeithio ar y bobl rydych chi'n gofalu amdanynt nhw, heb feddwl am agweddau eraill ar eu bywydau. Mae agwedd gyfannol at ofalu am bobl yn golygu eich bod yn gofalu am unigolion trwy roi sylw i bob agwedd ar eu bywydau. Gall rhoi cyfle iddyn nhw gymryd rhan mewn gweithgaredd neu greu rhywbeth helpu i gynnal gallu corfforol a deallusol, gwella'u hunan-barch ac weithiau eu helpu i ymadfer.

Yn yr uned hon, byddwch yn dysgu am wahanol fathau o weithgareddau creadigol a therapiwtig y gellir eu defnyddio mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol er budd i unigolion gwahanol o ran oed a gallu. Mae hyn yn golygu dod i adnabod yr unigolion rydych chi'n gofalu amdanynt a darganfod beth yw eu diddordebau. Wedyn gallwch chi eu hannog i ddal ati gyda hobiau a diddordebau, neu ddysgu sgiliau newydd, a allai greu manteision corfforol, gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol.

Byddwch hefyd yn dysgu am rôl y gweithiwr proffesiynol o ran cefnogi unigolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau, a'r egwyddorion a'r gwerthoedd sydd wedi'u bwriadu i rymuso pob unigolyn i gael cyfle cyfartal i gyfranogi mewn gweithgareddau creadigol a therapiwtig.

Yn yr uned hon byddwch yn cael cyfle i roi cynnig ar rai gweithgareddau gwahanol, cyn dethol, cynllunio a chyflawni a gwerthuso o leiaf un gweithgaredd addas gydag unigolyn neu grŵp, gan gadw at y rheoliadau a'r canllawiau iechyd, diogelwch a diogeldd perthnasol.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A archwilio gwahanol weithgareddau creadigol a therapiwtig a ddefnyddir ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a'u manteision
- B deall sut mae gweithwyr proffesiynol yn cefnogi ac yn annog unigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol a therapiwtig
- C gallu cynllunio gweithgareddau creadigol a therapiwtig priodol a'u rhoi ar waith mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
Nod dysgu A: Archwilio gwahanol weithgareddau creadigol a therapiwtig a ddefnyddir ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a'u manteision
<p>Testun A.1: Gwahanol weithgareddau creadigol a therapiwtig a ddefnyddir ym maes iechyd a gofal cymdeithasol</p> <p>Gweithgareddau creadigol a therapiwtig:</p> <ul style="list-style-type: none"> • celf, crefftau a'r celfyddydau perfformio: e.e. tynnu lluniau, peintio, ffotograffiaeth, gweu, gwnïo, brodwaith, tapestri, drama, canu, cerddoriaeth • chwaraeon ac ymarfer corff: e.e. nofio, cerdded, rhedeg, ioga, marchogaeth, dawnsio, pilates • gêmiau a chwisiau: e.e. croeseiriau, gêmiau bwrdd, posau jigsô, Sudoku, cwisiau gwybodaeth gyffredinol • gweithgareddau eraill: e.e. garddio, coginio, TGCh, darllen, tylino, symbylu amlsynhwyraidd, therapi rhyngweithio ag anifeiliaid • lleoliadau priodol: e.e. cyn-ysgol, gofal dydd, ysbytai, gofal preswyl, gofal cartref, grwpiau cymundol, byw â chymorth, ysgolion anghenion arbennig a chanolfannau hyfforddi. <p>Testun A.2: Manteision gweithgareddau creadigol a therapiwtig</p> <ul style="list-style-type: none"> • Corfforol: cynnal neu wella symudedd, gwella cryfder a chydsymud (gan gynnwys cydsymud llaw-llygad), lleihau symptomau. • Deallusol: cynnal y cof, datrys problemau, gwella cyfathrebu, gwella trefnusrwydd. • Emosiynol: gwell symbyliad, gwell hunan-gysyniad a hunan-barch, mwy o ymdeimlad o gyflawniad, datblygu diddordebau newydd. • Cymdeithasol: rhyngweithio ag eraill, datblygu a chynnal perthnasoedd newydd, rhannu nodau a chyflawniadau, gwell hyder.
Nod dysgu B: Deall sut mae gweithwyr proffesiynol yn cefnogi ac annog unigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol a therapiwtig
<p>Testun B.1 Rôl gweithwyr proffesiynol wrth gefnogi ac annog unigolion</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithwyr proffesiynol: e.e. cydlynwyr gweithgareddau, ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a therapyddion iaith a lleferydd, cynorthwywyr gofal iechyd, cynorthwywyr gofal cymdeithasol. • Sut mae gweithwyr proffesiynol yn cefnogi gweithgareddau: e.e. cynllunio a chynnal gweithgareddau creadigol a therapiwtig, dethol gweithgareddau priodol, rhoi adnoddau, cynnig help a chynghor ymarferol, cynnig arbenigedd, symbylu unigolion a grwpiau, addasu gweithgareddau i ddiwallu anghenion unigol. • Egwyddorion a gwerthoedd: arfer gwrthwahananiaethol, parch at amrywiaeth diwylliannol a chredoau, cyfle cyfartal, grymuso, sicrhau urddas, hybu annibyniaeth, cyfrinachedd. • Sut mae gweithwyr proffesiynol yn cefnogi cynhwysiad: datblygu perthnasoedd, defnyddio dulliau cyfathrebu a ffafrir, annog cyfranogiad, annog profiadau newydd.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu C: Gallu cynllunio gweithgareddau creadigol a therapiwtig priodol a'u rhoi ar waith mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol****Testun C.1 Cynllunio gweithgareddau priodol a'u rhoi ar waith**

- Cydymffurfio ag adrannau cyfredol a pherthnasol o ddeddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau wrth gynllunio gweithgareddau creadigol a therapiwtig a'u rhoi ar waith, e.e. Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974, Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Peryglu Iechyd 2002 (COSHH), Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus 1995 (RIDDOR), polisiau'r sefydliad, Codau Ymarfer, Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Anghenion yr unigolyn neu'r grŵp: corfforol, gwybyddol, cymdeithasol, emosiynol.
- Ffactorau sy'n effeithio ar y dewis o weithgaredd: lleoliadau, mantais bosib, oedran, gallu deallusol, gallu corfforol, sgiliau cyfathrebu, diwylliant, rhywedd, iechyd a ffitrwydd yr unigolyn/unigolion, argaeledd adnoddau a chyfleusterau, cyfyngiadau amser a chost.
- Cynllunio: asesu risg (gan gynnwys nodi peryglon a risgiau posibl, cwblhau ffurflen asesu risg, priodoldeb y gweithgaredd ar gyfer y defnyddiwr gwasanaeth, canfod ffyrdd o leiafu'r risgiau), amser gosod, cwblhau a chlirio, yr adnoddau y mae eu hangen (gan gynnwys ymwybyddiaeth o'r gost), argaeledd y lleoliad, dewis lle priodol, argaeledd cynorthwywyr os bydd angen.
- Adnoddau: offer priodol, e.e. cynorthwywyr arbenigol, deunyddiau celf a chreffft, offerynnau cerdd, chwaraewyr crynoddsgiau, camerâu, cyfrifiaduron, llyfrau posau a gêmâu, cynhwysion a chyfarpar coginio, offer garddio, dillad priodol a chyfarpar amddiffynnol.
- Adnoddau arbenigol: e.e. eitemau print bras, siswrn llaw chwith, offer gafael hwylus, llyfrau siarad, matiau gwrth-lithro, padiau neu sgriniau cyffwrdd cyfrifiadurol.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Archwilio gwahanol weithgareddau creadigol a therapiwtig a ddefnyddir ym maes iechyd a gofal cymdeithasol a'u manteision			
1A.1 Nodi tri gweithgaredd creadigol a therapiwtig sy'n addas ar gyfer unigolion neu grwpiau mewn un lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol.	2A.LI1 Disgrifio tri gweithgaredd creadigol a therapiwtig sy'n addas ar gyfer unigolion neu grwpiau mewn dau leoliad iechyd a gofal cymdeithasol gwahanol.		
1A.2 Amlinellu manteision tri gweithgaredd creadigol a therapiwtig ar gyfer unigolion neu grwpiau mewn un lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol.	2A.LI2 Disgrifio manteision tri gweithgaredd creadigol a therapiwtig ar gyfer unigolion neu grwpiau mewn dau leoliad iechyd a gofal cymdeithasol gwahanol.	2A.T1 Asesu addasrwydd gweithgareddau creadigol a therapiwtig ar gyfer unigolyn neu grŵp, gan gyfeirio at astudiaeth achos.	2A.Rh1 Gwneud argymhellion i wella gweithgareddau creadigol a therapiwtig ar gyfer unigolyn neu grŵp, gan gyfeirio at astudiaeth achos.
Nod dysgu B: Deall sut mae gweithwyr proffesiynol yn cefnogi ac yn annog unigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol a therapiwtig			
1B.3 Amlinellu rôl gweithwyr proffesiynol sy'n cynllunio gweithgareddau ac yn eu rhoi ar waith mewn un lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol.	2B.LI3 Disgrifio rôl gweithwyr proffesiynol wrth gynllunio gweithgareddau a'u rhoi ar waith mewn un lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol.	2B.T2 Cymharu a chyferbynnu rôl dau weithiwr proffesiynol wrth gynllunio gweithgareddau a'u rhoi ar waith mewn dau leoliad iechyd a gofal cymdeithasol gwahanol.	2B.Rh2 Gwerthuso effaith cefnogaeth broffesiynol ar unigolyn dethol sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol a therapiwtig.

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu C: Gallu cynllunio gweithgareddau creadigol a therapiwtig priodol a'u rhoi ar waith mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol			
1C.4 Disgrifio tri ffactor sy'n effeithio ar ddethol a chynllunio gweithgareddau creadigol a therapiwtig a'u rhoi ar waith.	2A.LI4 Disgrifio ffactorau sy'n effeithio ar ddethol a chynllunio gweithgareddau creadigol a therapiwtig a'u rhoi ar waith mewn un lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol.		
1C.5 Cynllunio un gweithgaredd creadigol a therapiwtig ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth mewn un lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol.	2A.LI5 Dethol a chynllunio un gweithgaredd creadigol a therapiwtig i unigolyn neu grŵp a'i roi ar waith ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth un lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol. #	2A.T3 Asesu'r broses o ddethol a chynllunio'r gweithgaredd creadigol a therapiwtig, a'i roi ar waith.	2A.Rh3 Argymhell gwelliannau i'r broses o gynllunio'r gweithgaredd creadigol a therapiwtig a'i roi ar waith.

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Gallai fod angen yr adnoddau arbennig canlynol ar gyfer yr uned hon:

- deunyddiau celf a chrefft
- offerynnau cerdd neu beiriant chwarae cerddoriaeth
- cynhwysion a chyfarpar coginio
- mynediad i gegin
- offer garddio
- lle addas i gynnal gweithgareddau.

Nid yw'r rhestr hon yn un hollgynhwysol, fodd bynnag, a gellir dethol gweithgareddau'n unol ag anghenion unigol. Mae'n hanfodol bod y dysgwyr yn ystyried yr adnoddau sydd ar gael yn y ganolfan/lleoliad wrth gynllunio'u gweithgaredd.

Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

Wrth gwblhau asesiadau, bydd angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o hierarchaeth y meini prawf asesu. Er enghraifft, oddi mewn i nod dysgu, mae meini prawf Lefel 2 Teilyngdod a Rhagoriaeth yn adeiladu'n uniongyrchol ar feini prawf Lefel 2 Llwyddo, ac yn cwmpasu'r dysgu a ddisgwylir yno. Lle ceir enghreifftiau o gymharu, adolygu, dadansoddi, trafod neu werthuso enghreifftiau dethol yn fanwl, rhaid i'r rhain adeiladu ar hyd a lled y ddealltwriaeth oedd yn ofynnol yn ôl y diffiniad o'r testunau yn yr adran gynnwys.

Oherwydd y gwahaniaethau yn y nodau dysgu, y ffordd orau o gyflawni'r uned hon yw trwy gyflawni sawl aseiniad bychan, a allai gynnwys gwaith ysgrifenedig a chyflwyniadau llafar. Yr aseiniad terfynol fydd cynllunio gweithgareddau ymarferol sy'n addas ar gyfer unigolion neu grwpiau a'u rhoi ar waith.

Dylid recordio tystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno ar lafar. Dylid cwblhau cofnodion arsylwi/datganiadau tystion manwl a'u cadw er mwyn eu dilysu'n fewnol ac yn allanol. Argymhellir defnyddio amrywiaeth o ddulliau asesu yn ystod y cymhwyster i ennyn diddordeb y dysgwyr a'u symbylu.

Nod dysgu A

I gyflawni 2A.LI1, mae'n ofynnol i'r dysgwyr ddisgrifio o leiaf dri gweithgaredd creadigol a therapiwtig gwahanol a fyddai'n addas i unigolion neu grwpiau mewn dau leoliad iechyd a gofal cymdeithasol gwahanol. Rhaid rhoi sylw i dri ar gyfer pob un o'r ddau leoliad. Dylid eu tywys at ystyried gweithgareddau gwahanol, yn hytrach na thri sy'n debyg iawn, megis rhai sydd i gyd yn weithgareddau celf a chrefft. Er mwyn gwneud hyn, argymhellir bod y dysgwyr yn dewis dau leoliad iechyd a gofal cymdeithasol gwahanol iawn, megis ysgol anghenion arbennig ac ysbyty.

I gyflawni 2A.LI2, disgwylir i'r dysgwyr ddisgrifio manteision y gwahanol weithgareddau a ddewiswyd ganddynt ar gyfer 2A.LI1. Dylent ystyried manteision corfforol, gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol cymryd rhan i unigolion neu grwpiau. Er enghraifft, yn 2A.LI1 efallai y byddant wedi awgrymu gweithgaredd

corfforol megis math ar ymarfer corff cardiofasgwlaidd, felly ar gyfer 2A.LI2, dylent fedru disgrifio manteision penodol, megis codi lefelau serotonin, gan arwain at deimlad o lesiant, gwella cydbwysedd a chydymud, a chryfhau'r cyhyrau.

I gyflawni 2A.T1, mae'n ofynnol i'r dysgwyr asesu addasrwydd gweithgareddau creadigol a therapiwtig o astudiaeth achos ar gyfer yr unigolyn neu'r grŵp dan sylw.

Mae angen i athrawon roi'r astudiaeth achos i'r dysgwyr, a gallent ddefnyddio cylchgronau proffesiynol megis *Community Care, Learning Disability Practice* neu *Children and Young People Now* at y diben hwn. Ar ben hynny, gall fod gan ganolfannau gysylltiadau lleol â chanolfannau gofal preswyl neu gyfleusterau iechyd neu ofal eraill y gellid eu defnyddio i ysbrydoli astudiaethau achos. Yn achos 2A.Rh1, rhaid i'r dysgwyr ystyried sut gellid gwella'r gweithgareddau creadigol a therapiwtig a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth achos er budd i'r unigolion neu'r grŵp sy'n eu derbyn. Rhaid i'r dysgwyr gyfiawnhau eu hargymhellion ar sail sut bydd y gwelliannau'n helpu datblygiad corfforol, gwybyddol, emosiynol neu gymdeithasol y rhai sy'n eu derbyn.

Yn achos 1A.1, rhaid i'r dysgwyr nodi o leiaf dri gweithgaredd creadigol a therapiwtig y gellir eu defnyddio neu sy'n cael eu defnyddio mewn un lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol, ac yna amlinellu manteision y gweithgareddau hyn ar gyfer yr unigolion neu'r grwpiau arfaethedig ar gyfer 1A.2.

Nod dysgu B

Yn achos 2B.LI3, bydd disgwyl i'r dysgwyr ddisgrifio rôl gweithwyr proffesiynol wrth gynllunio gweithgareddau a'u rhoi ar waith mewn un lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol arbennig. Gallent gyflwyno hyn ar ffurf astudiaeth achos gweithiwr proffesiynol sy'n cynllunio gweithgaredd ac yn ei roi ar waith. Dylid disgrifio'r rôl yn nhermau cefnogi'r broses o gynllunio gweithgareddau a'u rhoi ar waith, ond hefyd yn nhermau cefnogi egwyddorion a gwerthoedd rhoi gofal.

I gyflawni 2B.T2, rhaid i'r dysgwyr gymharu a chyferbynnu rôl dau weithiwr proffesiynol gwahanol wrth gynllunio gweithgareddau creadigol a therapiwtig a'u rhoi ar waith mewn dau leoliad gwahanol. Gallai'r gymhariaeth fod rhwng cynllunio gweithgareddau a'u rhoi ar waith ar gyfer unigolion ac ar gyfer grŵp, neu rhwng lleoliadau plant ac oedolion. Mae angen iddynt gynnwys amrywiaeth addas fel bod y dysgwyr yn cael cyfle i amlygu'r gwahaniaethau ymarferol.

Yn achos 2B.Rh2, bydd y dysgwyr yn gwerthuso effaith cefnogaeth broffesiynol ar unigolyn dethol sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol a therapiwtig. Mae'n addas i'r dysgwyr ddefnyddio'r enghreifftiau a ddewiswyd ar gyfer 2B.T2. Gellid cwblhau 2B.T2 a 2B.Rh2 fel estyniad i'r astudiaeth achos a gwblhawyd ar gyfer 2B.LI3, ac er mwyn cyflawni 2B.Rh2, gallai'r dysgwyr arsylwi mewn amgylchedd creadigol a therapiwtig neu gynnal cyfweiliad â gweithwyr proffesiynol a chyfranogwyr i gasglu gwybodaeth i'w defnyddio'n dystiolaeth. Dylid rhoi sylw arbennig i sut mae'r gweithiwr proffesiynol wedi cael effaith ar ymdeimlad yr unigolyn o gynhwysiad, cyfranogiad a grymuso, yn ogystal â'r manteision corfforol, gwybyddol, cymdeithasol ac emosiynol.

Yn achos 1B.3, bydd y dysgwyr yn rhoi amlinelliad cryno o rôl gweithwyr proffesiynol yn y broses o gynllunio gweithgareddau creadigol a therapiwtig a'u rhoi ar waith mewn un lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol.

Nod dysgu C

I gyflawni 2C.LI4, bydd y dysgwyr yn rhoi disgrifiad o'r ffactorau sy'n effeithio ar ddethol a chynllunio gweithgareddau creadigol a therapiwtig a'u rhoi ar waith mewn un lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol.

Yn achos 2C.LI5, disgwylir i'r dysgwyr ddethol a chynllunio gweithgaredd creadigol a therapiwtig, sy'n addas ar gyfer unigolyn neu grŵp, a'i roi ar waith mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol. Gellid rhoi ffurflen neu dabl tebyg i gynllun gwers iddynt, neu gellid gofyn iddynt lunio'u fformat eu hunain. Dylid annog y dysgwyr i ystyried pob agwedd ar y cam cynllunio, a sicrhau eu bod yn cynnwys cynifer o fanylion â phosibl.

Mae hyn yn debygol o gael ei roi ar waith mewn efelychiad ystafell ddsbarth, er os bydd y dysgwyr ar leoliad gwaith, byddant o bosib yn gallu cynllunio gweithgaredd a'i roi ar waith mewn ymgynghoriad â'u goruchwyliwr. Mewn lleoliad a efelychir yn y dosbarth, gellid ffilmio'r gweithgaredd, ond yn y gweithle, byddai angen darparu tystiolaeth o'r broses o roi'r gweithgaredd ar waith ar ffurf cofnod arsylwi wedi'i lofnodi, a gallai hefyd gynnwys tystiolaeth wedi'i lofnodi gan dystion. Ochr yn ochr â phob efelychiad ystafell ddsbarth, dylid darparu cofnod arsylwi wedi'i gwblhau gan yr athro. Os bydd y dysgwyr am gyflwyno ffotograffau o unrhyw waith, rhaid iddynt sicrhau eu bod yn dilyn unrhyw reolau ynghylch cymryd ac arddangos ffotograffau o unigolion neu grwpiau. Rhaid i'r dysgwyr arddangos gwybodaeth ymarferol am y rheoliadau/ddeddfwriaeth iechyd, diogelwch a diogeledd sy'n berthnasol wrth ddethol a chynllunio gweithgareddau a'u rhoi ar waith mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol. Cynghorir athrawon nad oes angen cwmpasu pob adran o'r rheoliadau/ddeddfwriaeth a restrir yng nghynnwys yr uned. Y cyfan sydd ei angen ar y dysgwyr yw gwybodaeth am sut mae cymhwyso adrannau perthnasol y ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r gweithgareddau a ddewiswyd ganddynt.

Yn achos 2C.T3, disgwylir i'r dysgwyr asesu'r gweithgaredd a roddwyd ar waith ganddynt. Dylid eu hannog i fyfyrion ar yr hyn a wnaethant, ac i ba raddau roeddent yn llwyddiannus, ac mae'n rhaid i hyn gynnwys dethol y gweithgaredd, y cam cynllunio a'r broses o roi ar waith. Dylent hefyd gynnwys asesiad o fwynhad y cyfranogwyr o'r gweithgaredd, a pha mor llwyddiannus oedd y canlyniadau.

I gyflawni 2C.Rh3, bydd y dysgwyr yn rhoi argymhellion ynghylch sut mae gwella'r broses o gynllunio'r gweithgaredd a'i roi ar waith. Bydd yr asesiad a ddefnyddiwyd ar gyfer 2C.T3 yn arbennig o ddefnyddiol; yn arbennig, bydd yr adborth a gesglir gan y cyfranogwyr yn llywio'r gwelliannau a awgrymir. Dylid annog y dysgwyr i ddilyn y cylch dysgu 'cynllunio, gweithredu, adolygu' i helpu i wella a gwneud argymhellion ar gyfer gwella.

Yn achos 1C.4, bydd y dysgwyr yn disgrifio tri ffactor sy'n gallu effeithio ar ddethol a chynllunio gweithgareddau creadigol a therapiwtig a'u rhoi ar waith mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cynnwys yr uned yn nodi enghreifftiau digonol o ran dewis gweithgaredd, yn ogystal â nodi effaith gorfod cadw at adrannau perthnasol y rheoliadau iechyd, diogelwch a diogeledd. I gyflawni 1C.5, bydd angen i'r dysgwyr gynllunio un gweithgaredd creadigol a therapiwtig ar gyfer defnyddwyr un lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol. Gellid rhoi ffurflen neu dabl tebyg i gynllun gwers iddynt, neu gellid gofyn iddynt lunio'u fformat eu hunain. Nid yw'n ofynnol i'r dysgwyr ar y lefel hon ddethol eu gweithgaredd eu hunain, felly gallai'r athrawon ddarparu senario addas i'r dysgwyr ei ddefnyddio'n sail ar gyfer eu cynllun.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.LI1, 1A.LI2, 2A.LI1, 2A.LI2, 2A.T1, 2A.LI1	Gweithgareddau Creadigol a Therapiwtig a'u Manteision	<p>Mae grŵp gofawyr ifanc lleol am sicrhau bod amrywiaeth digon eang o weithgareddau ar gael ar gyfer yr unigolion a'r grwpiau y maen nhw'n gofalu amdanynt yn eich cymuned.</p> <p>Maen nhw wedi gofyn i chi roi adroddiad yn disgrifio detholiad o weithgareddau priodol, a'u manteision o safbwynt defnyddwyr gwasanaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Adroddiad ysgrifenedig • Cyflwyniad • Sleidiau • Cofnod arsylwi
1B.3, 2B.LI3, 2B.T2, 2B.Rh2	Rôl Gweithwyr Proffesiynol	<p>Mae'r grŵp yn fodlon iawn ar y gwaith rydych chi wedi'i gynhyrchu, ond maen nhw'n pryderu tybed a yw'r staff yn glir ynghylch eu rolau o ran cefnogi ac yn annog unigolion, wrth iddynt weithio gyda gwahanol grwpiau ac unigolion.</p> <p>Maen nhw wedi gofyn i chi ddod i'w cyfarfod i roi cyflwyniad ar rôl gweithwyr proffesiynol wrth gynllunio gweithgareddau creadigol a therapiwtig a'u rhoi ar waith.</p> <p>Mae'r grŵp yn ymwneud â nifer o wahanol weithwyr proffesiynol, sy'n cefnogi ac yn annog unigolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol a therapiwtig. Rydych yn penderfynu estyn y cyflwyniad i gymharu a chyferbynnu rolau dau o'r gweithwyr proffesiynol hyn, a gwerthuso effaith cefnogaeth broffesiynol ar unigolyn dethol sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol a therapiwtig.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • cyflwyniad PowerPoint • chwarae rôl • recordiad fideo

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1C.4, 1C.5, 2C.LI4, 2C.LI5, 2C.T3, 2C.Rh3	Cynllunio Gweithgareddau mewn Lleoliadau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'u Rhoi ar Waith	Mae'r grŵp wedi gofyn i chi gymryd rhan mewn astudiaeth beilot sy'n rhoi rhai o'r gweithgareddau creadigol a therapiwtig ar waith. Maen nhw wedi gofyn i chi gynllunio un gweithgaredd a chyflwyno'r cynlluniau iddyn nhw. Bydd angen hefyd i chi sicrhau eich bod yn eglur ynghylch sut mae deddfwriaeth, canllawiau a Chodau Ymarfer yn llywodraethu'r hyn y maent yn ei wneud. Wedyn mae'n rhaid i chi roi eich gweithgaredd ar waith a'i werthuso.	Adroddiad ysgrifenedig, un neu ddau gynllun gweithgaredd, datganiad tyst, tystiolaeth ffotograffig/ar ffilm, gwerthusiad

Uned 13: Y Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lefel: 1 a 2

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Gallai gyrfa yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol olygu dewis o blith detholiad aruthrol o swyddi. Mae nifer fawr o rolau a chyfrifoldebau amrywiol yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol. Os ydych wedi ystyried gyrfa yn y sector hwn, bydd yr uned hon yn eich helpu i edrych yn fanylach ar y maes.

Yn yr uned hon bydd angen i chi gwblhau lleoliad am isafswm o 25 awr mewn lleoliad iechyd neu ofal cymdeithasol.

Byddwch yn dysgu am strwythur sylfaenol y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Bydd hyn yn cynnwys y gwahanol fathau o wasanaethau a darpariaeth yn y sector, gan gynnwys gwahanol fathau o ddarpariaeth statudol, preifat a gwirfoddol a'u gwahanol nodweddion. Byddwch hefyd yn dysgu am y gwahanol rolau swyddi sydd ar gael yn y sector a'u gofynion, megis hyfforddiant neu gymwysterau.

Mae angen i weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol ddatblygu nifer o sgiliau er mwyn gweithio'n effeithiol o fewn y sector. Byddwch yn dysgu am y sgiliau hyn a'u pwysigrwydd, ac yn cael cyfle i weld sut rhoddir y rhain ar waith yn eich lleoliad gwaith. Byddwch hefyd yn ymchwilio i bwysigrwydd cynnal safonau proffesiynol. Byddwch yn ymchwilio i ddiben a manteision y lleoliad i ddefnyddwyr gwasanaeth. Yn ystod eich lleoliad gwaith, byddwch yn gallu gweld yn uniongyrchol beth mae gweithio yn y sector yn ei olygu. Agwedd bwysig ar weithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yw'r gallu i adfyfrio. Yn yr uned hon bydd yn rhaid i chi fyfyrto ar eich perfformiad yn ystod eich lleoliad gwaith a gwneud argymhellion ar gyfer gwella yn y dyfodol.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A datblygu dealltwriaeth o'r sgiliau a'r safonau proffesiynol sy'n ofynnol gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol
- B ymchwilio i ddarpariaeth gwasanaethau a rolau swyddi yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol
- C ymgymryd â lleoliad gwaith yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a myfyrto ar eich perfformiad.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
Nod dysgu A: Datblygu dealltwriaeth o'r sgiliau a'r safonau proffesiynol sy'n ofynnol gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol
<p>Testun A.1: Sgiliau sy'n ofynnol wrth weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol</p> <ul style="list-style-type: none"> • gwaith tîm, cofnodi ac adrodd ar wybodaeth yn gywir, dilyn cyfarwyddiadau, rheoli amser, cynnal urddas, grymuso, hybu annibyniaeth, parchu amrywiaeth, diwylliant a chredoau, cynnal cyfrinachedd, empathi, natur ofalgar • cyfathrebu â chydweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth: sgiliau geiriol a di-eiriau, sgwrsio, gwrando gweithredol, ffurfiau amgen, e.e. Iaith Arwyddion Prydain, Makaton, cardiau lluniau, <i>Lightwriters</i>, meddalwedd gynorthwyol • arsylwi defnyddwyr gwasanaeth: i arsylwi ymddygiad, i ganfod gwelliant neu ddirywiad yn eu gallu neu eu statws iechyd • cynllunio gweithgareddau: e.e. yn ôl gallu, darparu adnoddau, cynllunio ac arddangos gwaith. <p>Testun A.2: Safonau proffesiynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • eich ymddygiad eich hun: ymarweddiad proffesiynol, cadw amser, hylendid personol, côd o ran gwisg, agwedd gadarnhaol, gwerthoedd, cyfrinachedd • cyfrifoldebau: perthnasoedd proffesiynol, nodi a diwallu anghenion unigol defnyddwyr gwasanaeth, rheoli gwasanaeth, cynnal diogelwch defnyddwyr gwasanaeth, gweithgareddau diogelu • pwysigrwydd cynnal sgiliau a safonau proffesiynol, a chanlyniadau posibl peidio â gwneud hynny.

Beth sydd angen ei ddysgu**Nod dysgu B: Ymchwilio i ddarpariaeth gwasanaethau a rolau swyddi yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol****Testun B.1 Y gwahanol fathau o ddarpariaeth sy'n ymwneud â iechyd a gofal cymdeithasol, a'u nodweddion**

- Gwahanol fathau o ddarpariaeth:
 - darpariaeth statudol
 - darpariaeth breifat
 - darpariaeth wirfoddol.
- Gwahanol wasanaethau a ddarperir ym maes iechyd a gofal cymdeithasol: e.e. gwasanaethau Meddyg Teulu, bydwreigiaeth, llawfeddygaeth, meddyginiaeth gyffredinol, nyrsio, ysbytai preifat, deintyddion, clinigau ffisiotherapi, canolfannau iechyd, *Alcoholics Anonymous*, Cefnogaeth Canser Macmillan, Sefydliad Prydeinig y Galon (BHF), SANE, y Gwasanaeth Gwaed Cenedlaethol, yr Ambiwylans Awyr, gofal dydd, gofal preswyl i bobl hŷn, gofal preswyl i bobl ifanc ag anghenion cymhleth, llochesi nos, gofal cartref, cyfadeiladau lle ceir cymorth warden, tai gwarchod, canolfannau hyfforddi, canolfannau cyngor.

Testun B.2 Rolau swyddi mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol

- Er enghraifft, nyrsys (iechyd meddwl, cyffredinol, plant, anabledd dysgu), bydwreagedd, meddygon (ymarferwyr cyffredinol, ymgynghorwyr), ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr clinigol, ffisiotherapyddion, deietegwyr, cwnselwyr, cynorthwywyr gofal iechyd, gweithwyr cymdeithasol, cynorthwywyr gwaith cymdeithasol, gweithwyr cymorth gofal cymdeithasol, swyddogion tai, gweithwyr allweddol, gweithwyr cymorth i deuluoedd, swyddogion gofal dydd, gweithwyr datblygu cymunedol, cydlynwyr gweithgareddau, gweithwyr ieuenctid.
- Gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol: yr hyfforddiant a'r cymwysterau sy'n ofynnol, y rheidrwydd i gofrestru, graddfeydd cyflog.
- Pwrpas a manteision: e.e. gofal/gweithgareddau a roddir, diogelu, ansawdd bywyd, mynediad i driniaethau a gwasanaethau, rhwydweithiau cymdeithasol a chymorth, cefnogaeth emosiynol, cymorth gyda gweithgareddau bywyd beunyddiol, mwy o ymdeimlad o fod yn annibynnol.

Beth sydd angen ei ddysgu

Nod dysgu C: Ymgymryd â lleoliad gwaith yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, a myfyrio ar eich perfformiad

Testun C.1 Sgiliau i'w defnyddio ar gyfer ymdrin â thasg gysylltiedig â gwaith, gan gynnwys:

- cyfathrebu ag eraill, e.e. rheolwr llinell, cydweithwyr, defnyddwyr gwasanaeth
- gweithio gydag eraill, gan gynnwys cydweithwyr a pherthnasau defnyddwyr gwasanaeth
- cwblhau tasgau oddi mewn i derfynau amser cytunedig
- dilyn cyfarwyddiadau
- dilyn arferion iechyd a diogelwch
- cynnal cyfrinachedd, gan lynu at y Ddeddf Diogelu Data
- gofyn am help ac arweiniad pan fo angen
- disgwyliadau'r lleoliad: cyfranogiad gweithredol, dilyn polisiau a gweithdrefnau'r lleoliad, gan gynnwys absenoldeb, oriau gwaith cytunedig, terfynau'r rôl.

Testun C.2 Arfer adfyfyriol a gwerthuso

- Arfer adfyfyriol: deall sut mae myfyrio ar eich gwaith eich hun a'i bwysigrwydd ar gyfer dysgu yn y dyfodol, gosod nodau a gweithio tuag atynt, nodi cryfderau, cyflawniadau a meysydd i'w gwella.
- Ffyrdd o fyfyrio ar arfer: rhestrau gwirio, adroddiadau goruchwyliwr, cyfweiliadau un i un gyda goruchwyliwr y lleoliad, adborth gan athro a chymheiriaid, adalw gweithredoedd yn ddyddiol, defnyddio dyddiadur i gofnodi'ch perfformiad eich hunan.
- Ar beth dylech chi fyfyrio: gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth, cyfranogiad gyda staff y lleoliad, datrys problemau, adalw gweithredoedd a ddigwyddodd yn ystod y dydd.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Datblygu dealltwriaeth o'r sgiliau a'r safonau proffesiynol sy'n ofynnol gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol			
1A.1 Nodi'r sgiliau a'r safonau proffesiynol sy'n ofynnol i weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.	2A.LI1 Disgrifio'r sgiliau a'r safonau proffesiynol sy'n ofynnol i weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.	2A.T1 Esbonio sut mae'r sgiliau a'r safonau proffesiynol sy'n ofynnol yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn golygu bod modd gweithio'n llwyddiannus gyda defnyddwyr gwasanaeth, gan gyfeirio at leoliad dethol.	2A.Rh1 Asesu pwysigrwydd y sgiliau a'r safonau proffesiynol sy'n ofynnol i weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu B: Ymchwilio i ddarpariaeth gwasanaethau a rolau swyddi yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol			
1B.2 Rhoi tair enghraifft o bob un o'r gwahanol fathau o ddarpariaeth a gwasanaethau ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol.	2B.LI2 Disgrifio'r gwahanol fathau o ddarpariaeth ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.	2B.T2 Esbonio gwahanol nodweddion gwahanol fathau o ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddefnyddio enghreifftiau dethol.	2B.Rh2 Asesu gwahanol nodweddion gwahanol fathau o ddarpariaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
1B.3 Nodi tair rôl wahanol sydd gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.	2B.LI3 Disgrifio tair rôl wahanol sydd gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol.	2B.T3 Cymharu a chyferbynnu nodweddion tair o rolau swyddi a ddewiswyd yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.	2B.Rh3 Asesu eich addasrwydd eich hun ar gyfer tair o rolau swyddi a ddewiswyd yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.
1B.4 Amlinellu pwrpas darpariaeth mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol a ddewiswyd.	2B.LI4 Disgrifio pwrpas darpariaeth a'r manteision i ddefnyddwyr gwasanaeth mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol a ddewiswyd.		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu C: Ymgymryd â lleoliad gwaith yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a myfyrio ar eich perfformiad			
1C.5 Arddangos sgiliau cysylltiedig â gwaith i ymdrin â thasg gwaith yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.	2C.LI5 Arddangos sgiliau cysylltiedig â gwaith i ymdrin â thasgau cysylltiedig â gwaith yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. #		
1C.5 Nodi'r sgiliau a ddysgwyd a'r ddealltwriaeth a gafwyd yn ystod y lleoliad gwaith.	2C.LI6 Disgrifio'r sgiliau a ddysgwyd a'r ddealltwriaeth a gafwyd yn ystod y lleoliad gwaith.	2C.T4 Trafod eich perfformiad eich hun yn ystod y lleoliad gwaith, gan ddisgrifio cryfderau a meysydd i'w gwella, a rhoi argymhellion ar gyfer datblygu yn y dyfodol.	2C.Rh4 Dadansoddi eich cryfderau eich hun a meysydd i'w gwella yn ystod y lleoliad gwaith, gan gyfiawnhau'r argymhellion ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Er mwyn cyflawni'r uned hon, mae'n rhaid i'r dysgwyr gael cyfle i ymgymryd â lleoliad gwaith yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid i'r dysgwyr gael eu gosod mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol priodol ar gyfer isafswm o 25 awr. Gallai'r lleoliad ddigwydd ar ffurf un bloc o amser, neu am un diwrnod yr wythnos, neu gyfuniad o'r ddau. Gallai gwmpasu mwy nag un lleoliad, neu gallai'r dysgwyr ddewis pa leoliad i'w ddefnyddio ar gyfer y gydran sy'n cael ei hasesu.

Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson. Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewwol*.

Wrth gwblhau asesiadau, bydd angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o hierarchaeth y meini prawf asesu. Er enghraifft, oddi mewn i nod dysgu, mae meini prawf Lefel 2 Teilyngdod a Rhagoriaeth yn adeiladu'n uniongyrchol ar feini prawf Lefel 2 Llwyddo, ac yn cwmpasu'r dysgu a ddisgwyllir yno. Lle ceir enghreifftiau o gymharu, adolygu, dadansoddi, trafod neu werthuso enghreifftiau dethol yn fanwl, rhaid i'r rhain adeiladu ar hyd a lled y ddealltwriaeth oedd yn ofynnol yn ôl y diffiniad o'r testunau yn yr adran gynnwys.

Er y gellid cyflawni'r uned hon trwy un aseiniad cyfannol a luniwyd i asesu'r holl feini prawf, byddai fwy na thebyg yn fwy priodol defnyddio dau neu dri aseiniad llai. Er enghraifft, gallai'r dysgwyr gwblhau'r gofynion ar gyfer nodau dysgu A a B gyda'i gilydd, i baratoi ar gyfer y lleoliad gwaith, ac yna naill ai gwblhau aseiniadau ar wahân ar gyfer nod dysgu C, neu eu cyfuno fel bod y profiad a gafwyd yn ystod y lleoliad yn gallu rhoi cyfle i gasglu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol o ran sgiliau a safonau proffesiynol wrth weithio ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol.

Nod dysgu A

Yn 2A.LI1, mae angen i'r dysgwyr ystyried y gwahanol sgiliau a ddylai fod gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, neu y dylent fod yn eu datblygu yn y gweithle, yn ogystal â'r safonau proffesiynol mae'n rhaid iddynt eu cynnal. I gyflawni 2A.T1, dylent esbonio sut defnyddir y sgiliau a'r safonau proffesiynol hyn i sicrhau eu bod yn gweithio'n llwyddiannus gyda defnyddwyr gwasanaeth yn y sector a ddewiswyd. Yn achos 2A.Rh1, rhaid i'r dysgwyr roi asesiad o bwysigrwydd y sgiliau a'r safonau proffesiynol sy'n ofynnol i weithio yn y sector iechyd neu ofal cymdeithasol.

I gyflawni 1A.1, rhaid i'r dysgwyr nodi'r sgiliau a'r safonau proffesiynol sy'n ofynnol i weithio yn y sector iechyd neu ofal cymdeithasol.

Os cyfunir yr asesiad ar gyfer nod dysgu A â'r tasgau ar gyfer nod dysgu B mewn aseiniad, dylai'r dysgwyr fedru defnyddio arsylwadau o'u lleoliad gwaith i ychwanegu at eu hymatebion.

Nod dysgu B

I gyflawni 2B.LI2, disgwyllir i'r dysgwyr esbonio beth yw ystyr darpariaeth statudol, preifat a gwirfoddol, ac yna disgrifio rhai o'r gwahanol fathau o wasanaethau sydd ar gael. Rhaid i'r dysgwyr sicrhau bod y gwahanol fathau o wasanaethau a gwmpasir yn cynnwys un o faes iechyd ac un o faes gofal cymdeithasol. Gellid cwblhau hyn ar ffurf tabl, ac mae'n galw am ddisgrifiad sylfaenol, yn hytrach nag adroddiad manwl. I

gyflawni 2B.T2, rhaid i'r dysgwyr edrych ar enghraifft o ddarpariaeth statudol, preifat a gwirfoddol yn y sector a ddewiswyd ganddynt, ac esbonio nodweddion pob un ohonynt gan gyfeirio at eu detholiad o enghreifftiau. I gyflawni 2B.Rh2, rhaid i atebion y dysgwyr gael eu hestyn i asesu gwahanol nodweddion tri math gwahanol o sefydliad yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

I gyflawni 1B.2, rhaid i'r dysgwyr fedru rhoi tair enghraifft o bob un o'r gwahanol fathau o ddarpariaeth ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol.

I gyflawni 2B.LI3, bydd angen i'r dysgwyr ddisgrifio tair rôl wahanol, gan gynnwys o leiaf un o faes iechyd ac un o faes gofal cymdeithasol. I gyflawni 2B.T3, disgwylir i'r dysgwyr gymharu a chyferbynnu dyletswyddau, hyfforddiant, cymwysterau a rolau tri gweithiwr gwahanol yn y sector a ddewiswyd, gan sicrhau bod y ddau sector yn derbyn sylw. Dylid cynnwys disgrifiad o'r tasgau dyddiol y gellid eu cyflawni. Gellid rhoi sylw hefyd i'r ystod cyflogau ar gyfer pob rôl. Mae'n bwysig bod y dysgwyr yn cael eu cynghori i ddewis y tair rôl wahanol ar gyfer swyddi'n ofalus, fel bod modd cwblhau 2B.Rh3 yn llwyddiannus, a bod o leiaf un enghraifft yn dod o'r sector iechyd ac un o'r sector gofal cymdeithasol. Yn achos y maen prawf hwn, bydd y dysgwyr yn asesu eu haddasrwydd eu hunain ar gyfer y rolau swyddi a ddewiswyd.

I gyflawni 1.B3, rhaid i'r dysgwyr nodi gwahanol rolau yn y sector a ddewiswyd.

I gyflawni 2B.LI4, disgwylir i'r dysgwyr fedru disgrifio pwrpas y lleoliad a gafwyd. Bydd hyn yn canolbwyntio ar y gofal y mae defnyddwyr gwasanaeth yn ei dderbyn gan y lleoliad, a manteision hynny iddynt. Gall y manteision fod yn rhai corfforol, deallusol, emosiynol neu gymdeithasol.

Yn achos 1B.4, bydd disgwyl i'r dysgwyr nodi'r gofal a roddir gan y lleoliad, ond ni chysylltir y manteision â'r unigolyn.

Nod dysgu C

Mae'r nod dysgu hwn i gael ei gwblhau yn ystod y lleoliad gwaith ac wedi hynny, a gellid cynghori'r dysgwyr i gadw dyddiadur bob dydd yn ystod y lleoliad, er mwyn sicrhau eu bod yn cofio beth maen nhw wedi'i wneud er mwyn medru myfyrio ar eu perfformiad a'i werthuso.

Yn achos 2C.LI5 ac 1C.5, dylai'r dysgwyr fod yn eglur ynghylch y tasgau ymarferol y mae disgwyl iddyn nhw eu cyflawni. Dylent hefyd fod yn barod i ymateb i faterion ehangach megis cadw amser a materion iechyd a diogelwch yn eu lleoliad.

Argymhellir bod y dysgwyr yn cwblhau isafswm o 25 awr ar eu lleoliad gwaith. Gallai hynny ddigwydd dros gyfnod o ddiwrnodau gwaith olynol, neu dros gyfnod hwy o amser. Nid yw tystiolaeth o leoliad a efelychwyd yn dderbyniol.

I gyflawni 2C.LI6, rhaid i'r dysgwyr ddisgrifio'r sgiliau a ddatblygwyd a'r ddealltwriaeth a gawsant ar eu lleoliad. Dylai hyn eu galluogi i ddechrau creu cysylltiad rhwng theori ac ymarfer. Yn achos 2C.T4, mae angen iddyn nhw drafod eu perfformiad yn y lleoliad gwaith. Dylai hyn gynnwys disgrifiad o'u cryfderau a'r meysydd lle maen nhw'n teimlo bod angen iddyn nhw ddatblygu ymhellach, a rhaid iddynt roi argymhellion o ran sut gallen nhw wella'u perfformiad mewn lleoliadau yn y dyfodol. Yn 2C.Rh4, mae angen i'r dysgwyr ddadansoddi cryfderau eu perfformiad yn y lleoliad gwaith, a meysydd i'w datblygu yn y dyfodol, gan gyfiawnhau'r argymhellion ynghylch sut gallen nhw wella'u perfformiad ar leoliadau yn y dyfodol. Gellid cwblhau hyn ar ffurf cynllun gweithredu neu ffug-arfarniad gyda goruchwylydd y lleoliad neu athro'r uned.

I gyflawni 1C.6, rhaid i'r dysgwyr nodi'r sgiliau a ddysgwyd a'r ddealltwriaeth a gafwyd yn ystod y lleoliad.

Trwy ymgymryd â'r uned hon, gall y dysgwyr ddod i sylweddoli nad yw rôl neu sector penodol (iechyd, gofal cymdeithasol) yn addas iddynt, a bydd hynny'n eu helpu i wneud dewisiadau gyrfa gwybodus yn ddiweddarach. Mae angen i'r dysgwyr fod yn ymwybodol bod lleoliadau nad ydynt yn cyflawni eu disgwyliadau gwreiddiol yn dal yn fuddiol. Hefyd, tra bo'r dysgwyr ar leoliad, dylid eu hannog i archwilio'r hyn sydd ynghlwm wrth rolau eraill yn y lleoliad dan sylw, gan y gallai hynny roi syniad iddynt ynghylch yr hyn yr hofffen nhw ei wneud yn y pen draw, yn eu gyrfa hwythau.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1 1B.2, 2B.LI2, 2B.T2, 2B.Rh2	Y Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Rydych wedi cael cais gan ymgynghorydd gyrfaedd i gynhyrchu pecyn gwybodaeth ar gyfer dysgwyr sy'n mynd i gael profiad gwaith mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae angen i chi gynnwys y gwahanol fathau o ddarpariaeth a gwasanaethau sydd ar gael, ac asesiad o rolau gwahanol weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Rhaid i chi hefyd asesu pwysigrwydd y sgiliau a'r safonau proffesiynol sy'n ofynnol gan ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol.	Pecyn gwybodaeth Cyflwyniad
1B.4, 2B.LI4, 1C.5, 2C.LI5 1B.3, 2B.LI3, 2B.T3, 2B.Rh3	Gweithio ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Bydd angen i chi gwblhau dyddiadur lleoliad gwaith sy'n cwmpasu 25 awr eich lleoliad gwaith. Yn eich dyddiadur bydd angen i chi gynnwys y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • pwrpas a manteision y lleoliad dan sylw i'r defnyddwyr gwasanaeth • cofnod o'r gweithgareddau dyddiol Yn ystod y lleoliad bydd angen hefyd i chi gael eich asesu, er mwyn dangos eich bod yn gallu arddangos y sgiliau gofynnol wrth ymgymryd â thasgau gwaith. Ysgrifennwch adroddiad byr sy'n asesu eich addasrwydd eich hun i weithio yn eich lleoliad ac mewn dwy rôl arall: un ym maes iechyd ac un ym maes gofal cymdeithasol.	Dyddiadur lleoliad gwaith Tystiolaeth tystion a chofnod arsylwi Adroddiad ar y lleoliad

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1C.6, 2C.LI6, 2C.T4, 2C.Rh4	Adolygu perfformiad	Hanner ffordd trwy eich lleoliad gwaith, rydych chi'n cael cyfweliad gyda'ch rheolwr, a fydd wedi gofyn i chi fyfyrion ar eich gwaith a'i werthuso, gan nodi beth rydych chi wedi'i ddysgu, eich cryfderau a meysydd lle rydych chi'n teimlo y gallech chi wella. Byddan nhw'n trafod y rhain gyda chi, ac yn gofyn i chi lunio cynllun gweithredu sy'n cyflwyno argymhellion o ran sut gallwch chi wella eich perfformiad yn ystod gweddill eich lleoliad.	<p>Cyfweliad</p> <p>Cofnod arsylwi/tystiolaeth tyst am gyfweliad</p> <p>Tabl yn dangos y sgiliau a'r ddealltwriaeth a gafwyd, cryfderau, meysydd i'w gwella ac argymhellion ar gyfer gwelliant</p> <p>Cynllun gweithredu / ffug-arfarniad</p>

Uned 14: Sector y Blynyddoedd Cynnar

Lefel: 1 a 2

Math o uned: **Dewisol arbenigol**

Oriau dysgu dan arweiniad: **30**

Dull asesu: **Mewnol**

Cyflwyniad i'r uned

Ydych chi'n dda gyda phlant? Ydych chi'n ei chael hi'n hawdd gafael yn eu dychymyg â gêmâu, gweithgareddau creadigol a chwarae rôl? Ydych chi wedi'ch cael eich hun yn meddwl, 'Hoffen i weithio gyda babanod – neu blant bach – neu blant ifanc'? Os ydych chi wedi ystyried unrhyw un o'r dewisiadau gyrfa yma, bydd yr uned hon yn eich helpu i archwilio'r maes yn fanylach.

Yn yr uned hon bydd angen i chi gwblhau lleoliad am isafswm o 25 awr mewn lleoliad blynyddoedd cynnar.

Yn yr uned hon, byddwch yn dysgu am strwythur sylfaenol sector y blynyddoedd cynnar. Bydd hyn yn cynnwys y gwahanol fathau o wasanaethau a darpariaeth i blant a'u teuluoedd, gan gynnwys darpariaeth statudol, preifat a gwirfoddol. Byddwch hefyd yn dysgu am y gwahanol rolau swyddi sydd ar gael yn y sector a'u gofynion, megis hyfforddiant neu gymwysterau.

Byddwch yn dysgu sut defnyddir gweithgareddau i hybu datblygiad plant a sut mae lleoliadau blynyddoedd cynnar yn gwneud hyn. Byddwch hefyd yn dysgu sut mae cynllunio gweithgareddau ar gyfer plant, ac yn rhoi cynnig ar gynhyrchu cynllun eich hunan.

Mae angen i weithwyr blynyddoedd cynnar ddatblygu nifer o sgiliau er mwyn gweithio'n effeithiol gyda phlant a'u teuluoedd. Byddwch yn dysgu am y sgiliau hyn a'u pwysigrwydd, ac yn cael cyfle i weld sut rhoddir y rhain ar waith yn eich lleoliad gwaith. Byddwch hefyd yn ymchwilio i bwysigrwydd cynnal safonau proffesiynol, fel bod gweithwyr blynyddoedd cynnar a phlant yn cael eu hamddiffyn. Yn ystod eich lleoliad gwaith, byddwch yn gallu gweld yn uniongyrchol beth mae gweithio yn y sector yn ei olygu. Agwedd bwysig ar weithio yn y blynyddoedd cynnar yw'r gallu i adfyfrio. Yn yr uned hon bydd yn rhaid i chi fyfrio ar eich perfformiad yn ystod eich lleoliad gwaith a gwneud argymhellion ar gyfer gwella yn y dyfodol.

Nodau dysgu

Yn yr uned hon byddwch yn:

- A datblygu dealltwriaeth o'r sgiliau a'r safonau proffesiynol sy'n ofynnol gan weithwyr blynyddoedd cynnar
- B archwilio cynllunio profiadau a gweithgareddau ar gyfer plant mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar
- C ymchwilio i ddarpariaeth gwasanaethau a rolau swyddi yn y sector blynyddoedd cynnar
- D ymgymryd â lleoliad gwaith yn y sector blynyddoedd cynnar, a myfrio ar eich profiad.

Nodau dysgu a chynnwys yr uned

Beth sydd angen ei ddysgu
Nod dysgu A: Datblygu dealltwriaeth o'r sgiliau a'r safonau proffesiynol sy'n ofynnol gan weithwyr blynyddoedd cynnar
<p>Testun A.1: Sgiliau sy'n ofynnol wrth weithio yn y sector blynyddoedd cynnar</p> <ul style="list-style-type: none"> • cyfathrebu â phlant: siarad â phlant oed gwahanol, gwrando effeithiol gyda phlant, gofyn cwestiynau sy'n helpu i annog sgiliau iaith y plentyn, ysgrifennu i blant (gan gynnwys y defnydd o lythrennau uwch ac is), darllen i blant a gyda nhw • meithrin perthnasoedd gwaith effeithiol gyda phlant: parchu plant, gweithio gyda phob plentyn, beth bynnag yw eu hanghenion a'u galluoedd, arsylwi ymddygiad a sgiliau plant wrth iddynt chwarae, dweud wrth gydweithwyr beth rydych chi wedi'i arsylwi, gwybod pryd mae ymyrryd i sicrhau diogelwch a/neu estyn chwarae'r plant, gwybod sut mae grymuso plant i ddatblygu eu hannibyniaeth • datblygu perthnasoedd gwaith effeithiol gyda chydweithwyr: bod yn rhan o dîm, cyfathrebu â chydweithwyr, cofnodi ac adrodd ar wybodaeth yn gywir, dilyn cyfarwyddiadau, rheoli amser • cefnogi plant ag anghenion ychwanegol. <p>Testun A.2: Safonau proffesiynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • eich ymddygiad eich hun: ymarweddiad proffesiynol, cadw amser, hylendid personol, côd o ran gwisg, agwedd gadarnhaol, gwerthoedd, cyfrinachedd • cyfrifoldebau: perthnasoedd proffesiynol, rheoli ymddygiad plant, nodi a diwallu anghenion unigol plant, cynnal diogelwch plant, y polisi o ran diogelu plant • pwysigrwydd cynnal sgiliau a safonau proffesiynol, a chanlyniadau posibl peidio â gwneud hynny.
Nod dysgu B: Archwilio cynllunio profiadau a gweithgareddau i blant mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar
<p>Testun B.1 Pwysigrwydd darparu profiadau a gweithgareddau addas</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwahanol grwpiau oedran o blant: e.e. babanod o'u geni nes eu bod yn flwydd oed, plant bach 1-3 oed, plant cyn-ysgol 3-5 oed, plant oed ysgol 5-8 oed. • Profiadau priodol: deunyddiau ac adnoddau addas i roi'r cyfle i blant arbrofi y tu mewn a'r tu allan. • Gwahanol weithgareddau: deunyddiau ac adnoddau addas i annog datblygiad synhwyraidd plentyn, ei ddychymyg a'i allu creadigol, ac i ddiwallu ei anghenion corfforol. <p>Testun B.2 Rôl yr ymarferydd blynyddoedd cynnar</p> <p>Rôl yr ymarferydd blynyddoedd cynnar o ran rhoi profiadau a gweithgareddau addas i blant o wahanol oedrannau: cynorthwyo gyda'r cynllunio a'r paratoi, yr adnoddau sydd ar gael, sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, ond rhoi cyfleoedd i gymryd risg, gweithio gyda'r plant yn ystod profiadau a gweithgareddau, addasrwydd ar gyfer y lleoliad dan sylw, anghenion a diddordebau'r plentyn.</p>

Beth sydd angen ei ddysgu
Nod dysgu C: Ymchwilio i ddarpariaeth gwasanaethau a rolau swyddi yn sector y blynyddoedd cynnar
<p>Testun C.1 Y gwahanol fathau o ddarpariaeth ar gyfer plant a'u teuluoedd a'u nodweddion:</p> <ul style="list-style-type: none"> • darpariaeth statudol: er enghraifft, meithrinfa, ysgolion, gwasanaethau i blant ag anghenion penodol, canolfannau plant • darpariaeth breifat: er enghraifft, meithrinfa, ysgolion preifat, clybiau y tu allan i oriau ysgol, clybiau ar ôl ysgol, clybiau brecwast, crèches, gwarchodwyr plant, nanis, lleoliadau cyn-ysgol, clybiau gwyliau (gartref a thramor) • darpariaeth wirfoddol: er enghraifft, grwpiau ieuencid, crèches. <p>Testun C.2 Rolau swyddi yn sector y blynyddoedd cynnar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • er enghraifft, gweithwyr meithrinfa, goruchwylwyr ystafell, rheolwyr meithrinfa, gwarchodwyr plant, nanis, athrawon, cynorthwywyr cymorth dysgu, gweithwyr chwarae, arbenigwyr chwarae mewn ysbytai • gweithio yn y blynyddoedd cynnar: yr hyfforddiant a'r cymwysterau sy'n ofynnol, y rheidrwydd i gofrestru, graddfeydd cyflog.
Nod dysgu D: Ymgymryd â lleoliad gwaith yn sector y blynyddoedd cynnar a myfyrio ar eich profiad
<p>Testun D.1 Sgiliau i'w defnyddio ar gyfer ymdrin â thasg gysylltiedig â gwaith</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sgiliau sy'n cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ○ cyfathrebu ag eraill, e.e. rheolwr llinell, cydweithwyr, plant ○ gweithio gydag eraill, gan gynnwys cydweithwyr a phrif ofalwyr ○ cwblhau tasgau oddi mewn i derfynau amser cytunedig ○ dilyn cyfarwyddiadau ○ dilyn arferion iechyd a diogelwch ac arferion diogelu ○ gofyn am help ac arweiniad pan fo angen ○ cynnal cyfrinachedd, gan lynu at y Ddeddf Diogelu Data. • Disgwyliadau'r lleoliad: cyfranogiad gweithredol, dilyn polisiau a gweithdrefnau'r lleoliad, gan gynnwys absenoldeb, oriau gwaith cytunedig, terfynau'r rôl. <p>Testun D.2 Arfer adfyfiriol a gwerthuso</p> <ul style="list-style-type: none"> • Arfer adfyfiriol: deall sut mae myfyrio ar eich gwaith eich hun a'i bwysigrwydd ar gyfer dysgu yn y dyfodol, gosod nodau a gweithio tuag atynt, nodi cryfderau, cyflawniadau a meysydd i'w gwella. • Ffyrdd o fyfyrio ar arfer: gwahanol ddulliau cofnodi, e.e. rhestrau gwirio, adroddiadau goruchwylwr, cyfweiliadau un i un gyda goruchwylwr y lleoliad, adborth gan athro a chymheiriaid, adalw gweithredoedd yn ddyddiol, defnyddio dyddiadur i gofnodi'ch perfformiad eich hunan. • Ar beth dylech chi fyfyrio: gweithio gyda phlant, cyfranogiad gyda staff y lleoliad, datrys problemau, adalw gweithredoedd a ddigwyddodd yn ystod y dydd.

Meini prawf asesu

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu A: Datblygu dealltwriaeth o'r sgiliau a'r safonau proffesiynol sy'n ofynnol gan weithwyr blynyddoedd cynnar			
1A.1 Nodi'r sgiliau a'r safonau proffesiynol sy'n ofynnol i weithio yn sector y blynyddoedd cynnar.	2A.LI1 Disgrifio'r sgiliau a'r safonau proffesiynol sy'n ofynnol i weithio yn sector y blynyddoedd cynnar.	2A.T1 Esbonio sut mae'r sgiliau a'r safonau proffesiynol sy'n ofynnol yn sector y blynyddoedd cynnar yn golygu bod modd gweithio'n llwyddiannus gydag oedolion a phlant, gan gyfeirio at astudiaeth achos a ddewiswyd.	2A.Rh1 Asesu pwysigrwydd y sgiliau a'r safonau proffesiynol sy'n ofynnol i weithio yn sector y blynyddoedd cynnar.
Nod dysgu B: Archwilio cynllunio profiadau a gweithgareddau i blant mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar			
1B.2 Nodi gweithgaredd neu brofiad sy'n addas ar gyfer plant mewn grŵp oedran dethol.	2B.LI2 Disgrifio gwahanol weithgareddau a phrofiadau sy'n addas i blant mewn dau grŵp oedran gwahanol.	2B.T2 Esbonio pam mae gweithgareddau a phrofiadau dethol yn briodol ar gyfer gwahanol grwpiau oedran.	2B.Rh2 Gwerthuso priodoldeb gweithgareddau dethol ar gyfer plant mewn gwahanol grwpiau oedran.
1B.3 Gyda chyfarwyddyd, cynhyrchu cynllun ar gyfer gweithgaredd a fyddai'n addas ar gyfer plant mewn grŵp oedran dethol.	2B.LI3 Cynhyrchu cynllun ar gyfer gweithgaredd a fyddai'n addas ar gyfer plant mewn grŵp oedran dethol.		

Lefel 1	Lefel 2 Llwyddo	Lefel 2 Teilyngdod	Lefel 2 Rhagoriaeth
Nod dysgu C: Ymchwilio i ddarpariaeth gwasanaethau a rolau swyddi yn sector y blynyddoedd cynnar			
1C.4 Rhoi tair enghraifft o bob un o'r gwahanol fathau o ddarpariaeth a gwasanaethau yn y blynyddoedd cynnar.	2C.LI4 Disgrifio'r gwahanol fathau o ddarpariaeth a gwasanaethau yn y blynyddoedd cynnar.	2C.T3 Esbonio nodweddion gwahanol fathau o wasanaethau blynyddoedd cynnar, gan ddefnyddio enghreifftiau dethol.	
1C.5 Nodi gwahanol rolau gweithwyr blynyddoedd cynnar.	2C.LI5 Disgrifio tair rôl wahanol sydd gan weithwyr blynyddoedd cynnar sy'n gofalu am blant.	2C.T4 Cymharu a chyferbynnu nodweddion tair o rolau swyddi a ddewiswyd yn sector y blynyddoedd cynnar.	2C.Rh3 Asesu eich addasrwydd eich hun ar gyfer tair o rolau swyddi a ddewiswyd yn sector y blynyddoedd cynnar.
Nod dysgu D: Ymgymryd â lleoliad gwaith yn sector y blynyddoedd cynnar a myfyrio ar eich profiad			
1D.6 Arddangos sgiliau cysylltiedig â gwaith i ymdrin â thasg cysylltiedig â gwaith.	2D.LI6 Arddangos sgiliau cysylltiedig â gwaith i ymdrin â gwahanol dasgau cysylltiedig â gwaith. #		
1D.7 Nodi'r sgiliau a ddysgwyd a'r ddealltwriaeth a gafwyd yn ystod y lleoliad gwaith.	2D.LI7 Disgrifio'r sgiliau a ddysgwyd a'r ddealltwriaeth a gafwyd yn ystod y lleoliad gwaith.	2D.T5 Trafod eich perfformiad eich hun yn ystod y lleoliad gwaith, gan ddisgrifio cryfderau a meysydd i'w gwella, a rhoi argymhellion ar gyfer datblygu yn y dyfodol.	2D.Rh4 Dadansoddi eich cryfderau eich hun a meysydd i'w gwella yn ystod y lleoliad gwaith, gan gyfiawnhau'r argymhellion ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

*Cyfle i asesu sgiliau mathemategol

#Cyfle i asesu sgiliau Cymraeg

Arweiniad i athrawon

Adnoddau

Er mwyn cyflawni'r uned hon, bydd yn rhaid i'r dysgwyr dreulio cyfnod mewn lleoliad blynyddoedd cynnar, a bod yno am isafswm o 25 awr. Gall lleoliad blynyddoedd cynnar olygu o enedigaeth i 8 mlwydd oed. Gall hyn ddigwydd ar ffurf un bloc o amser, neu leoliad diwrnod neu hanner diwrnod dros gyfnod y rhaglen.

Canllaw asesu

Caiff yr uned hon ei hasesu'n fewnol gan y ganolfan a'i dilysu'n allanol gan Pearson.

Darllenwch y canllaw hwn ochr yn ochr ag *Adran 8: Asesu mewnol*.

Wrth gwblhau asesiadau, bydd angen i ddysgwyr fod yn ymwybodol o hierarchaeth y meini prawf asesu. Er enghraifft, oddi mewn i nod dysgu, mae meini prawf Lefel 2 Teilyngdod a Rhagoriaeth yn adeiladu'n uniongyrchol ar feini prawf Lefel 2 Llwyddo, ac yn cwmpasu'r dysgu a ddisgwyllir yno. Lle ceir enghreifftiau o gymharu, adolygu, dadansoddi, trafod neu werthuso enghreifftiau dethol yn fanwl, rhaid i'r rhain adeiladu ar hyd a lled y ddealltwriaeth oedd yn ofynnol yn ôl y diffiniad o'r testunau yn yr adran gynnwys.

Er y gellid cyflawni'r uned hon trwy un aseiniad cyfannol a luniwyd i asesu'r holl feini prawf, byddai fwy na thebyg yn fwy priodol defnyddio dau neu dri aseiniad llai. Er enghraifft, gallai'r dysgwyr gwblhau'r gofynion ar gyfer nodau dysgu A ac C gyda'i gilydd, i baratoi ar gyfer y lleoliad gwaith, ac yna naill ai gwblhau aseiniadau ar wahân ar gyfer nodau dysgu B a D, neu eu cyfuno fel bod y profiad a gafwyd yn ystod y lleoliad yn gallu rhoi cyfle i gasglu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sy'n ofynnol o ran sgiliau a safonau proffesiynol wrth weithio yn y blynyddoedd cynnar.

Nod dysgu A

Yn 2A.LL1, mae angen i'r dysgwyr ystyried y gwahanol sgiliau a ddylai fod gan weithwyr blynyddoedd cynnar, neu y dylent fod yn eu datblygu yn y gweithle, yn ogystal â'r safonau proffesiynol mae'n rhaid iddynt eu cynnal.

I gyflawni 2A.T1, dylent esbonio sut defnyddir y sgiliau a'r safonau proffesiynol hyn i sicrhau eu bod yn gweithio'n llwyddiannus gydag oedolion a phlant. Gellir rhoi astudiaeth achos i'r dysgwyr.

Yn achos 2A.Rh1, rhaid i'r dysgwyr roi asesiad o bwysigrwydd y sgiliau a'r safonau proffesiynol sy'n ofynnol yn sector y blynyddoedd cynnar.

Yn achos 1A.1, mae'n ofynnol i'r dysgwyr nodi'r gwahanol sgiliau a safonau proffesiynol sy'n ofynnol i weithio yn sector y blynyddoedd cynnar.

Os cyfunir y tasgau yn nod dysgu A â'r tasgau ar gyfer nod dysgu C mewn aseiniad, dylai'r dysgwyr fedru defnyddio arsylwadau o'u lleoliad gwaith i ychwanegu at eu hymatebion.

Nod dysgu B

Yn achos 2B.LL2, bydd angen i'r dysgwyr ddisgrifio dau weithgaredd gwahanol. Gallai'r rhain fod yn weithgareddau chwarae neu'n weithgareddau dysgu. Dylid annog y dysgwyr i ddefnyddio'r gweithgareddau yn eu lleoliad yn sail i'w helpu gyda'r gweithgaredd. Bydd angen iddynt greu cysylltiad rhwng y gweithgaredd â dau grŵp oedran gwahanol, gan ddweud pam maent yn addas. Dylai'r grwpiau oedran ddod o blith y rhai a nodir yn y cynnwys.

Yn achos 2B.T2, bydd angen i'r dysgwyr fedru creu cysylltiad rhwng pwysigrwydd y gweithgaredd a datblygiad y plant. Dylent ddefnyddio enghreifftiau a chysylltu hynny â datblygiad cyffredinol, ac felly mae'n rhaid iddynt greu cysylltiad rhwng pwysigrwydd y gweithgaredd a datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol a chymdeithasol. O'r herwydd, gall fod angen cyfarwyddyd i helpu'r dysgwyr i ddewis gweithgaredd priodol.

Yn achos 2B.Rh2, bydd y dysgwyr yn gwerthuso priodoldeb y gweithgareddau a ddewiswyd ar gyfer plant mewn gwahanol grwpiau oedran.

Yn achos 1B.2, bydd angen i'r dysgwyr nodi un gweithgaredd sy'n addas ar gyfer un grŵp oedran a enwir. Dylid annog y dysgwyr i ddefnyddio'u lleoliad yn ffynhonnell er mwyn cael hyd i weithgareddau addas ar gyfer y maen prawf asesu hwn.

Yn achos 2B.LI3, bydd angen i'r dysgwyr gynhyrchu cynllun ar gyfer gweithgaredd sy'n addas i blentyn mewn un o'r grwpiau oedran a roddwyd. Argymhellir eu bod yn gwneud hyn yn ystod eu lleoliad, gan roi sylw i anghenion a diddordebau'r plentyn, addasrwydd y gweithgaredd yn y lleoliad, yr adnoddau sydd ar gael, asesu risgiau a'r cyfyngiadau amser.

Yn achos 1B.3, bydd angen i'r dysgwyr gynhyrchu cynllun realistig ar gyfer y gweithgaredd, er mai cynllun sylfaenol fydd hwnnw.

Yn achos 1B.2 a 2B.LI3, ni fydd angen i'r dysgwyr wneud mwy na chynhyrchu cynllun; nid oes angen iddynt roi'r gweithgaredd ar waith.

Nod dysgu C

I gyflawni 2C.LI4, disgwylir i'r dysgwyr esbonio beth yw ystyr darpariaeth statudol, preifat a gwirfoddol, ac yna disgrifio rhai o'r gwahanol fathau o wasanaethau sydd ar gael. Gellid cwblhau hyn ar ffurf tabl, ac mae'n galw am ddisgrifiad sylfaenol, yn hytrach nag adroddiad manwl.

I gyflawni 2C.T3, rhaid i'r dysgwyr edrych ar enghraifft o ddarpariaeth statudol, preifat a gwirfoddol yn y blynyddoedd cynnar, ac esbonio nodweddion pob un ohonynt, gan gyfeirio at eu detholiad o enghreifftiau.

I gyflawni 1C.4, rhaid i'r dysgwyr fedru rhoi tair enghraifft yr un o ddarpariaeth a gwasanaethau yn sector y blynyddoedd cynnar.

I gyflawni 2C.LI5, rhaid i'r dysgwyr edrych ar dair rôl wahanol sydd gan weithwyr blynyddoedd cynnar.

I gyflawni 2C.T4, disgwylir i'r dysgwyr gymharu a chyferbynnu dyletswyddau, hyfforddiant, cymwysterau a rolau tri gweithiwr gwahanol yn sector y blynyddoedd cynnar. Dylid cynnwys disgrifiad o'r tasgau dyddiol y gellid eu cyflawni. Gellid rhoi sylw hefyd i'r ystod cyflogau ar gyfer pob rôl.

Mae'n bwysig bod y dysgwyr yn cael eu cynghori i ddewis y tri gweithiwr gwahanol yn ofalus, fel bod modd cwblhau 2C.Rh3 yn llwyddiannus. Yn achos y maen prawf hwn, bydd y dysgwyr yn asesu eu haddasrwydd eu hunain ar gyfer y rolau swyddi a ddewiswyd.

I gyflawni 1.C5, rhaid i'r dysgwyr nodi gwahanol rolau yn sector y blynyddoedd cynnar.

Nod dysgu D

Mae'r nod dysgu hwn i gael ei gwblhau yn ystod y lleoliad gwaith ac wedi hynny, a gellid cynghori'r dysgwyr i gadw dyddiadur bob dydd yn ystod y lleoliad, er mwyn sicrhau eu bod yn cofio beth maen nhw wedi'i wneud er mwyn medru myfyrio ar eu perfformiad a'i werthuso.

Yn achos 2D.LI6, dylai'r dysgwyr fod yn eglur ynghylch y tasgau ymarferol mae disgwyl iddyn nhw eu cyflawni. Dylent hefyd fod yn barod i ymateb i faterion ehangach megis cadw amser a materion iechyd a diogelwch yn eu lleoliad.

Yn achos 1D.6, mae angen i'r dysgwyr arddangos sgiliau cysylltiedig â gwaith er mwyn ymdrin ag un dasg yn unig yn y gwaith.

Argymhellir bod y dysgwyr yn cwblhau isafswm o 25 awr ar eu lleoliad gwaith. Gallai hynny ddigwydd dros gyfnod o ddiwrnodau gwaith olynol, neu dros gyfnod hwy o amser. Nid yw tystiolaeth o leoliad a efelychwyd yn dderbyniol.

I gyflawni 2D.LI7, rhaid i'r dysgwyr ddisgrifio'r sgiliau a ddatblygwyd a'r ddealltwriaeth a gawsant ar eu lleoliad. Dylai hyn eu galluogi i ddechrau creu cysylltiad rhwng theori ac ymarfer.

Yn achos 2D.T5, mae angen iddyn nhw drafod eu perfformiad yn y lleoliad gwaith. Dylai hyn gynnwys disgrifiad o'u cryfderau a'r meysydd lle maen nhw'n teimlo bod angen iddyn nhw ddatblygu ymhellach, a rhaid iddynt roi argymhellion o ran sut gallen nhw wella'u perfformiad mewn lleoliadau yn y dyfodol. Yn 2D.Rh4, mae angen i'r dysgwyr ddadansoddi cryfderau eu perfformiad yn y lleoliad gwaith, a meysydd i'w datblygu yn y dyfodol, gan gyfiawnhau'r argymhellion ynghylch sut gallen nhw wella'u perfformiad ar leoliadau yn y dyfodol. Gellid cwblhau hyn ar ffurf cynllun gweithredu neu ffug-arfarniad gyda goruchwylydd y lleoliad neu athro'r uned.

I gyflawni 1D.7, rhaid i'r dysgwyr nodi'r sgiliau a ddysgwyd a'r ddealltwriaeth a gafwyd yn ystod y lleoliad.

Trwy ymgymryd â'r uned hon, gall y dysgwyr ddod i sylweddoli nad yw rôl benodol neu'r sector hwn yn addas iddynt, a bydd hynny'n eu helpu i wneud dewisiadau gyrfa gwybodus yn ddiweddarach. Mae angen i'r dysgwyr fod yn ymwybodol bod lleoliadau nad ydynt yn cyflawni eu disgwyliadau gwreiddiol yn dal yn fuddiol. Hefyd, tra bo'r dysgwyr ar leoliad, dylid eu hannog i archwilio'r hyn sydd ynghlwm wrth rolau eraill yn y lleoliad dan sylw, gan y gallai hynny roi syniad iddynt ynghylch yr hyn yr hofffen nhw ei wneud yn y pen draw, yn eu gyrfa hwythau.

Awgrymiadau ar gyfer aseiniadau

Mae'r tabl isod yn dangos rhaglen o amlinelliadau aseiniadau posibl sy'n cwmpasu'r meini prawf asesu. Arweiniad yw hwn, ac awgrymir bod canolfannau naill ai'n ysgrifennu eu haseiniadau eu hunain neu'n addasu unrhyw aseiniadau y byddwn ni'n darparu i gwrdd ag anghenion ac adnoddau lleol.

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1A.1, 2A.LI1, 2A.T1, 2A.Rh1 1B.2, 1B.3, 2B.LI2, 2B.LI3, 2B.T2, 2B.Rh2 1C.4, 1C.5, 2C.LI4, 2C.LI5, 2C.T3, 2C.T4, 2C.Rh3	Sector y Blynyddoedd Cynnar	Mae rheolwr darparwr blynyddoedd cynnar lleol wedi gofyn i chi gynhyrchu pecyn gwybodaeth ar gyfer dysgwyr ar brofiad gwaith. Mae angen i chi gynnwys y gwahanol fathau o ddarpariaeth a gwasanaethau sydd ar gael, ac asesiad o rolau gwahanol weithwyr blynyddoedd cynnar a'r gwaith maen nhw'n ei wneud. Rhaid i chi hefyd asesu pwysigrwydd y sgiliau a'r safonau proffesiynol sy'n ofynnol gan weithwyr blynyddoedd cynnar.	Pecyn gwybodaeth

Meini prawf sy'n cael eu cwmpasu	Aseiniad	Senario	Tystiolaeth asesu
1D.6, 2D.LI6	Gweithio yn y Blynyddoedd Cynnar	<p>Yn ystod eich lleoliad gwaith, bydd angen i chi gwblhau dyddiadur lleoliad gwaith sy'n cwmpasu 25 awr eich lleoliad gwaith.</p> <p>Yn eich dyddiadur bydd angen i chi gynnwys cofnod o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • y gweithgareddau dyddiol y buoch yn eu cwblhau yn ystod y lleoliad • y gwahanol weithgareddau a phrofiadau y mae'r lleoliad yn eu darparu ar gyfer y plant a sut gall y rhain gefnogi eu datblygiad. <p>Meddylwch am un gweithgaredd ac esboniwch sut gallai fod yn addas ar gyfer grŵp oedran arall, a pha newidiadau y gallai fod angen eu gwneud.</p> <p>Cynhyrchu cynllun ar gyfer gweithgaredd y gellid ei ddefnyddio ar gyfer plentyn neu blant yn eich lleoliad.</p> <p>Yn ystod y lleoliad bydd angen hefyd i chi gael eich asesu, er mwyn dangos eich bod yn gallu arddangos y sgiliau gofynnol wrth ymgymryd â thasgau gwaith.</p>	<p>Dyddiadur</p> <p>Tystiolaeth tystion</p> <p>Adroddiad ar y Lleoliad</p> <p>Cofnod Arsylwi</p> <p>Adroddiad ysgrifenedig</p> <p>Cynllun ysgrifenedig</p>
1D.7, 2D.LI7, 2D.T5, 2D.Rh4	Adolygu perfformiad	<p>Hanner ffordd trwy eich lleoliad gwaith, byddwch yn cael cyfweiliad gyda'ch rheolwr, a fydd wedi gofyn i chi fyfyrrio ar eich gwaith a'i werthuso, gan nodi beth rydych chi wedi'i ddysgu, eich cryfderau a meysydd lle rydych chi'n teimlo y gallech chi wella. Bydd eich rheolwr yn trafod y rhain gyda chi, ac yn gofyn i chi lunio cynllun gweithredu sy'n cyflwyno argymhellion o ran sut gallwch chi wella eich perfformiad yn ystod gweddill eich lleoliad.</p>	<p>Tabl yn dangos y sgiliau a'r ddealltwriaeth a gafwyd, cryfderau, meysydd i'w gwella ac argymhellion ar gyfer gwelliant</p> <p>Cynllun gweithredu / ffug-arfarniad</p>

